Rhif Ymchwil Cymdeithasol:
75/2017

Dyddiad cyhoeddi:
07/12/2017

# Gwerthusiad o Gymunedau am Waith

## Rhan 2: Adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78859-939-9

Gwerthusiad o Gymunedau am Waith: Adroddiad Gwerthuso Prosesau

Einir Burrowes, Dateb / OB3
Duncan Holtom, People and Work

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid o anghenraid farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Sian Williams
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
E-bost: Sian.Williams50@llyw.cymru

## Tabl Cynnwys


Rhestr o Dablau .......... 3

Rhestr o Ffigurau .......... 4

Geirfa .......... 5

1. Cyflwyniad .......... 6

   Y Dull .......... 6

   Strwythur yr adroddiad hwn .......... 9

2. Cyflwyniad i Gymunedau am Waith .......... 10

   Cymunedau am Waith a'r Asiantaethau sy'n ei Ddarparu .......... 10

   Y Model Cyflawni a Fwriedir .......... 12

   Y Strwythur Staffio a'r Rolau Allweddol wrth Ddarparu'r Gwasanaeth... 16

   Targedau a Chyllidebau'r Rhaglen. .......... 19

3. Sefydlu'r rhaglen .......... 23

   Datblygu a lansio'r rhaglen .......... 23

   Y Canllawiau Gweithredol .......... 26

   Portffolio'r Cyfranogwyr .......... 33

   Cytundebau rhannu data .......... 40

   Y trefniadau monitro .......... 41

   Sgiliau staff .......... 42

   Adnoddau .......... 49

4. Y dull a ddefnyddiwyd i roi CaW ar waith .......... 50

   Alinio CaW â Chymunedau yn Gyntaf .......... 50

   Cyfeirio .......... 55

   Lleoliadau llai ffurfiol y mae pobl yn ymddiried ynddynt .......... 60

   Cymorth holistig ac integredig .......... 64

   Integreiddio timau CaW .......... 67

   Brysbennu adeg y cysylltiad cyntaf a phennu beichiau achosion .......... 70

   Cynllunio gweithredu a chymorth ymgynghorol .......... 77

   Hyfforddiant .......... 87

   Y Gronfa Rwystrau .......... 96

   Ymadael â'r rhaglen .......... 99

5. Allbynnau a deilliannau cynnar .......... 101
Allbynnau .......... 101
Deilliannau .......... 105
Deilliannau Meddal .......... 108
6. Casgliadau ac Argymhellion .......... 110
Sialensiau a manteision integreiddio .......... 110
Cysylltu cyfranogwyr .......... 114
Y broses brysbennu a'r gweithiwr brysbennu .......... 118
Cymorth y cynghorwyr a'r mentoriaid .......... 120
Hyfforddiant .......... 121
Argymhelliad 12 .......... 122
Argymhelliad 13 .......... 122
Y Gronfa Rwystrau .......... 123
Rheoli a gweithredu'r rhaglen .......... 123
Sgiliau staff CaW .......... 125
Deilliannau a rhagolygon y rhaglen .......... 126

**Rhestr o Dablau**


| | |
|---|---|
| Tabl 1.1 | Staff cyflawni'r rheng flaen a arolygwyd, a'r ymatebion a gafwyd |
| Tabl 2.1 | Targedau deilliant sylfaenol Blaenoriaeth 1 2015-2020 |
| Tabl 2.2 | Targedau deilliant sylfaenol Blaenoriaeth 3 2015-2020 |
| Tabl 2.3 | Costau a ffynonellau cyllid Blaenoriaeth 1 2015-2020 |
| Tabl 2.4 | Costau a ffynonellau cyllid Blaenoriaeth 3 2015-2020 |
| Tabl 4.1 | Nifer y cleientiaid y mae staff CaW yn gweithio gyda nhw |
| Tabl 5.1 | Cysylltiadau hyd Chwefror 2017 fel y'u cofnodwyd yng nghronfa ddata CaW |
| Tabl 5.2 | Deilliannau gwaith a gyflawnwyd hyd Chwefror 2017 fel y'u cofnodwyd yng nghronfa ddata rhaglen CaW |

**Rhestr o Ffigurau**


| | |
|---|---|
| Ffigur 2.1 | Siwrnai'r Cyfranogwr |
| Ffigur 3.1 | Canfyddiadau am eglurder y Canllawiau Gweithredol |
| Ffigur 3.2 | Canfyddiadau am ddefnyddioldeb Portffolio'r Cyfranogwyr |
| Ffigur 3.3 | Y sgiliau yr ystyrir eu bod bwysicaf i staff CaW er mwyn cyflawni eu gwaith yn dda |
| Ffigur 3.4 | Meysydd sgiliau/gwybodaeth lle byddai staff CaW yn gwerthfawrogi hyfforddiant fwyaf |
| Ffigur 4.1 | Y gyfran o ymatebwyr a glustnododd pob ffynhonnell cysylltu cleientiaid |
| Ffigur 4.2 | Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd fod y broses brysbennu'n effeithiol |
| Ffigur 4.3 | Safbwyntiau ymatebwyr i'r arolwg am argaeledd, amrywiaeth, perthnasedd, ansawdd ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarparwyd gan Cymunedau yn Gynraf a darparwyr prif ffrwd |
| Ffigur 4.4 | Safbwyntiau ymatebwyr i'r arolwg am argaeledd, amrywiaeth, perthnasedd, ansawdd ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant grŵp galwedigaethol a ddarparwyd gan y darparydd hyfforddiant argadwedig Llywodraeth Cymru |
| Ffigur 4.5 | Treuliau y defnyddiwyd y Gronfa Rwystrau i’w Talu |
| Ffigur 5.1 | Nifer y cyfranogwyr economaidd anweithgar a gysylltwyd fesul ardal gyflenwi |
| Ffigur 5.2 | Nifer y cyfranogwyr di-waith tymor hir a gysylltwyd fesul ardal gyflenwi |
| Ffigur 5.3 | Nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant a gysylltwyd fesul ardal gyflenwi |

**Geirfa**

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| ALMP | Darpariaeth Marchnad Lafur Weithgar |
| BME | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| CAB | Canolfan Cyngor ar Bobeth |
| CAD | Dylunio â Chymorth Cyfrifiadur |
| CaW | Cymunedau am Waith |
| CBG | Canolfan Byd Gwaith |
| CCA | Corff Cyflawni Arweiniol |
| CEA | Cynghorydd Cyflogaeth yn y Gymuned |
| CG | Cymunedau yn Gyntaf |
| CGC | Cyngor Gwirfoddol Cymunedol |
| CSCS | Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu |
| DBS | Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |
| DWP | Adran Gwaith a Phensiynau |
| EBS | System Bwcio Electronig |
| ESA | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| EW | Dwyrain Cymru |
| FSF | Cronfa Gymorth Hyblyg |
| HGV | Cerbydau Nwyddau Trwm |
| JSA | Lwfans Ceisio Gwaith |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| PEA | Cynghorydd Cyflogaeth i Rieni |
| SIA | Awdurdod y Diwydiant Diogelwch |
| ToC | Theori Newid |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| WRAG | Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith |
| WWV | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |
| YEPF | Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Medi 2016, penododd Llywodraeth Cymru OB3, Dateb, Pobl a Gwaith a'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth i gyflawni gwerthusiad o'i raglen Cymunedau am Waith (CaW), sef darpariaeth marchnad lafur weithgar (ALMP) a gynorthwyir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).

1.2 Nodau'r gwerthusiad yw:

- egluro'r theori newid ar gyfer CaW a datblygu'r model rhesymeg sydd wrth wraidd y rhaglen
- asesu sut mae'r rhaglen wedi cael ei sefydlu a sut mae'n cael ei gweithredu
- rhoi syniad o effeithiolrwydd cyffredinol y rhaglen.

1.3 Cyflawnir y gwerthusiad mewn tri cham rhwng Hydref 2016 ac Ionawr 2018. Cyhoeddwyd adroddiad Cam 1, a oedd yn pennu'r theori newid a'r model rhesymeg ar gyfer CaW ym mis Ebrill 2017. Hwn yw'r ail adroddiad, ac mae'n tynnu ar y theori newid wrth asesu sut y mae'r rhaglen wedi cael ei sefydlu a sut y mae'n cael ei gweithredu.

**Y Dull**

1.4 Roedd y rhan yma o'r rhaglen werthuso (a gyflawnwyd rhwng Ionawr a Mai 2017) yn dilyn ymlaen o'r gwaith a wnaed i ddatblygu theori newid a model rhesymeg ar gyfer CaW. Roedd hyn yn cwmpasu saith prif elfen o waith, sef:

- llunio cwestiynau i'w hychwanegu at holiadur Arolwg Cyfranogwyr ESF (er mwyn paratoi ar gyfer Cam 3: gwerthuso deilliannau'r rhaglen)
- cyflawni arolwg ar-lein o staff y rheng flaen sy'n darparu CaW
- cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb gyda:
  - phedwar rheolwr cyfrif o Lywodraeth Cymru
  - tri Rheolwr Gweithrediadau Rhanbarthol o’r Adran Gwaith a Phensiynau
  - 18 o gysylltiadau allweddol sy'n cadw trosolwg gweithredol ar y rhaglen o safbwynt Cyrff Cyflawni Arweiniol (CCA)

    - 15 o reolwyr cyflawni DWP sy'n cadw trosolwg gweithredol ar y rhaglen o safbwynt DWP ym mhob un o'r clystyrau
- cyflawni pecyn o waith maes ansoddol mewn 19 o'r 52 o ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf. Dewiswyd un clwstwr o bob ardal awdurdod lleol perthnasol, a rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r mathau o sefydliadau sydd ynghlwm wrth ddarparu'r rhaglen. Ni ellir ystyried y sampl fel un cynrychiadol, ond mae'n rhoi syniad o weithrediad y rhaglen ar draws gwahanol rannau o Gymru. O fewn pob clwstwr a ddewiswyd, roedd y gwaith maes a gyflawnwyd yn cynnwys:
    - cyfweliadau ag 19 o reolwyr clwstwr CG
    - cyfweliadau grŵp neu fesul un gyda'r timau rheng flaen sy'n darparu CaW, a oedd fel rheol yn cynnwys gweithwyr brysbennu, cynghorwyr DWP, mentoriaid oedolion a mentoriaid ieuenctid. At ei gilydd, cyfrannodd cyfanswm o 122 o unigolion at yr elfen yma o'r gwaith maes
    - sgyrsiau ffôn â 10 o ddarparwyr hyfforddiant
    - sgyrsiau ffôn/wyneb yn wyneb â 10 asiantaeth gyfeirio a/neu gyrff y trydydd sector sydd wedi cysylltu â CaW
    - cyfweliadau ffôn â 14 o gyflogwyr sydd wedi bod yn gysylltiedig â CaW
    - cyfweliadau fesul un â 115 o bobl a gymerodd ran yn y rhaglen
    - adolygu sampl o 163 o bortffolios cyfranogwyr a ddewiswyd ar hap[1]
    - adolygu adroddiadau ar gynnydd pob un o'r 19 clwstwr
    - drafftio 'papurau astudiaeth achos clystyrau a chyfranogwyr' mewnol a oedd yn cyfuno’r dystiolaeth a gasglwyd gan y gwahanol unigolion a gyfwelwyd, a phortffolios y cyfranogwyr a adolygwyd
- cyfosod canfyddiadau'r gwaith maes a gyflawnwyd
- adolygu'r gronfa ddata o gyfranogwyr

[1] Adolygwyd portffolios ychwanegol ar y safle wrth ymweld â rhai o'r clystyrau

- paratoi a chyflawni adolygiad cymheiriaid o'r adroddiad Cam 2 hwn sy’n Gwerthuso Prosesau ac Allbwn.

1.5 Cymeradwywyd yr holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg ar-lein o staff y rheng flaen gan dîm Cymeradwyo Arolygon Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd arolwg peilot gydag is-sampl o staff perthnasol CaW cyn lansio'r arolwg yn ei gyfanrwydd.

1.6 Roedd yr arolwg yn cynnwys gwahodd 262 o unigolion i lenwi holiadur ar lein. Daeth atebion i law gan staff o bob un ond dau o’r clystyrau, a chan staff o leiaf un clwstwr ar draws pob un o'r ardaloedd awdurdod lleol. Nodir deilliannau'r sampl a gyflawnwyd yn Nhabl 1.1 isod.

**Tabl 1.1: Staff cyflawni'r rheng flaen a arolygwyd, a'r ymatebion a gafwyd**

| | Nifer a arolygwyd | Ymatebion a gafwyd | Cyfradd ymateb |
|---|---|---|---|
| Rheolwyr clwstwr | 29 | 20 | 69% |
| Gweithwyr brysbennu | 44 | 31 | 70% |
| Cynghorwyr cyflogaeth yn y gymuned | 52 | 32 | 62% |
| Cynghorwyr cyflogaeth i rieni | 49 | 22 | 45% |
| Mentoriaid ieuenctid | 46 | 31 | 67% |
| Mentoriaid oedolion | 42 | 25 | 60% |
| Pawb | 262 | 161 | 61% |

1.7 Roedd y gyfradd ymateb gan Gynghorwyr y DWP, sef cyfartaledd o 53 y cant, yn is na chyfradd ymateb y categorïau eraill o staff cyflawni'r rheng flaen, sef cyfartaledd o 66 y cant. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg yn cwmpasu'n fras y mathau o staff cyflawni ar draws y rhan fwyaf o'r clystyrau, ac ar draws ardaloedd yr holl awdurdodau lleol.

### Strwythur yr adroddiad hwn

1.8 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn chwe phennod fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: cyflwyniad i CaW: nodau'r rhaglen, y model cyflawni y bwriadwyd ei ddefnyddio, strwythurau staffio, targedau a chyllidebau
- pennod tri: ein canfyddiadau mewn perthynas â sefydlu CaW a'r adnoddau a'r trefniadau a sefydlwyd fel sail i gyflawni'r rhaglen
- pennod pedwar: ein canfyddiadau am y dull a ddefnyddiwyd i roi CaW ar waith, gan dynnu ar y 'sbardunau newid' a glustnodwyd yng Ngham 1: yr adroddiad ar y theori newid a'r model rhesymeg
- pennod 5: y cynnydd a wnaed hyd yn hyn wrth roi'r rhaglen CaW ar waith yn nhermau'r niferoedd o gyfranogwyr a gofrestrwyd, a'r deilliannau a gyflawnwyd
- pennod 6: ein casgliadau a'n hargymhellion yn y cyfnod interim hwn.

## 2. Cyflwyniad i Gymunedau am Waith

2.1 Yn y bennod hon, rydyn rhoi cyflwyniad i Gymunedau am Waith ac yn disgrifio sut y mae'r rhaglen yn gweithredu. Cyflwynir y bennod mewn pedair rhan fel a ganlyn:

- Cymunedau am Waith a'r asiantaethau sy'n ei darparu
- Y model cyflawni a fwriedir
- Y strwythur staffio a'r rolau allweddol wrth ddarparu'r gwasanaeth
- Targedau a chyllidebau'r rhaglen.

**Cymunedau am Waith a'r Asiantaethau sy'n ei Ddarparu**

2.2 Ymyrraeth i'r farchnad lafur dan nawdd Llywodraeth Cymru yw Cymunedau am Waith (CaW). Ei fwriad yw gwella cyflogadwyedd a chyflogaeth y bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur. Mae'r rhaglen yn targedu tri grŵp penodol o gyfranogwyr:

- pobl dros 25 oed sy'n ddi-waith yn y tymor hir
- pobl dros 25 oed sy'n economaidd anweithgar
- pobl ifanc 16-25 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET).

2.3 Dadansoddir pob un o'r grwpiau targed ymhellach fel a ganlyn:

- y rhai heb fawr o sgiliau neu heb unrhyw sgiliau
- y rhai â salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (gan gynnwys cam-drin sylweddau)
- y rhai sy’n dod o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
- y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu ofal plant
- y rhai sydd o aelwydydd heb waith.

2.4 Is-grwp pellach o'r grŵp targed economaidd anweithgar yw pobl dros 54 oed.

2.5 Ffocws CaW yw unigolion sy'n byw yn y 52 o glystyrau Cymunedau'n Gyntaf. Rhyngddynt, maent yn cynrychioli 10% o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl diffiniad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011[2].

2.6 Ariennir CaW o dan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) 2014-20 ar gyfer Dwyrain Cymru (EW) a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (WWV), a hynny o dan ddwy flaenoriaeth wahanol:

- Echel Blaenoriaeth 1: 'trechu tlodi trwy gyflogaeth gynaliadwy'. Yn fwy manwl, bwriad CaW yw mynd i'r afael ag Amcan Penodol 1.1 o fewn Rhaglen EW, ac Amcan Penodol 1.2 yn Rhaglen WWV, sef 'cynyddu cyflogadwyedd pobl economaidd anweithredol a phobl ddi-waith tymor hir sydd dros 25 oed ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth' [3]
- Blaenoriaeth 3: 'cyflogaeth ymhlith pobl ifanc' yn Rhaglen EW a 'chyflogaeth a chyrhaeddiad pobl ifanc' yn Rhaglen WWV. Yn fwy penodol, mae CaW yn ymdrechu i fynd i'r afael ag Amcan Penodol 3.1 yn y ddwy raglen, sef 'lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)'.[4]

2.7 Y bwriad hefyd yw i CaW fynd i'r afael â themâu trawsbynciol yr ESF, sef cyfleoedd cyfartal a prif-ffrydio rhywiol; datblygu cynaliadwy; a threchu tlodi a dieithrwch cymdeithasol.

2.8 Llywodraeth Cymru yw 'prif fuddiolwr' CaW, ac mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn gyd-noddwr. Mae CaW yn gweithredu ochr yn ochr â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar hyn o bryd, ynghyd â darpariaeth arall sy'n targedu pobl nad ydynt mewn cyflogaeth, gan gynnwys Rhaglen Waith y DWP[5] [6], a rhaglenni Esgyn a PaCE[7] Llywodraeth Cymru.

[2] Adolygwyd y Fynegai yn 2014
[3] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Weithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn Nwyrain Cymru, t.95
[4] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Weithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn Nwyrain Cymru, t.95
[5] Nid yw'r bobl sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Waith yn gymwys i gymryd rhan yn CaW
[6] Daeth cyfeiriadau at y Rhaglen Waith i ben yn Ebrill 2017
[7] Sy'n gweithredu y tu hwnt i'r Clystyrau CG, gan dargedu rhieni mewn achosion lle gofal plant yw'r brif rwystr i gyflogaeth

2.9 Timau o Gynghorwyr 'ar secondiad' o’r DWP, a staff a gyflogir gan yr 19[8] Cyrff Darparu Arweiniol sy'n darparu'r gwasanaethau ar lefel leol.

**Y Model Cyflawni a Fwriedir**

2.10 Bwriedir i CaW gysylltu a chynorthwyo'r bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur 'i gynyddu cyflogadwyedd, mynd i’r afael â’r rhwystrau sy’n eu hatal rhag cymryd rhan yn y farchnad lafur [a] chyrchu cyflogaeth gynaliadwy’[9]. Dyluniwyd y rhaglen i weithio ochr yn ochr â'r ddarpariaeth cymorth sy'n bodoli eisoes yn y cymunedau lle mae'r unigolion targed yn byw.

2.11 Rhagwelwyd y byddai CaW yn darparu gwasanaeth holistig a di-dor o gysylltiad i gyflogaeth, gan gydnabod y byddai natur a hyd y cymorth sydd ei angen i symud i mewn i gyflogaeth yn amrywio o un unigolyn i'r llall, yn dibynnu ar eu hanghenion a'u pellter o'r farchnad lafur adeg ymuno.

2.12 Dyma elfennau allweddol CaW:

- gosod y staff mewn lleoliadau yn y gymuned
- asesu'r rhwystrau i gyflogaeth y mae unigolion yn eu hwynebu a'u hanghenion cysylltiedig o ran cymorth
- staff arbenigol yn darparu cyngor a chymorth personol, sy'n cael ei gymeradwyo mewn cynllun gweithredu sy'n rhan o bortffolio'r cyfranogwr
- cydgysylltu ag asiantaethau cymorth eraill lle gall yr asiantaethau hynny helpu i fynd i'r afael ag anghenion unigolion
- darparu hyfforddiant gyda'r nod o ddatblygu sgiliau cleientiaid, meithrin eu hyder a'u paratoi ar gyfer y gweithle
- darparu cyllid i helpu i oresgyn rhwystrau i hyfforddiant a gwaith.

2.13 Gosodir staff CaW mewn lleoliadau yn y gymuned, fel safleoedd Cymunedau yn Gyntaf, Canolfannau Plant Integredig neu ganolfannau cymuned. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi cael ei dylunio’n bwrpasol i’r rhaglen, a disgwylir

[8]Rhagwelwyd y byddai'r Cooperative Group yn gweithredu fel CCA ar gyfer dwy ardal glwstwr, ond mae'r grŵp wedi nodi nad yw mewn sefyllfa i wneud hynny bellach. Mae dau CCA gwahanol yn gwasanaethu gwahanol glystyrau mewn un ardal awdurdod lleol

[9] Cynllun Busnes Gorllewin Cymru a'r Cymoedd B1 F1.0

iddo leihau'r rhwystrau i gyfranogaeth am fod y cyfranogwyr yn teimlo’n hyderus wrth gyrchu'r lleoliadau hyn.

2.14 Mae Ffigur 2.1 isod yn cynnig trosolwg o'r siwrnai y mae disgwyl i gyfranogwyr ei dilyn trwy CaW, ac mae'r paragraffau a ganlyn yn trafod elfennau o'r siwrnai hon yn fwy manwl.

2.15 Rhagwelir mai Canolfan Byd Gwaith, darparwyr cymorth cyflogaeth fel Gyrfa Cymru, timau Cymunedau yn Gyntaf a chyrff y trydydd sector fel Undebau Credyd a Chyngor ar Bopeth, fydd yn cyfeirio unigolion at CaW. Disgwylir hefyd i staff CaW y Ganolfan Byd Gwaith (CBG) gyrchu systemau TG CBG er mwyn clustnodi hawlwyr budd-daliadau a allai elwa o gymryd rhan yn y rhaglen[10].

2.16 Mae disgwyl hefyd i staff rheng flaen CaW chwarae rhan ragweithiol wrth glustnodi a chysylltu darpar-gyfranogwyr trwy weithio gyda sefydliadau partner, cael eu cyd-leoli â gwasanaethau cymunedol, a mynychu achlysuron yn y gymuned a ffeiriau swyddi i hyrwyddo'r rhaglen yn bersonol.[11]

2.17 Mae cynlluniau busnes CaW yn cyfeirio at 'strategaeth farchnata [a] gaiff ei lansio i hyrwyddo "brand" CaW ac i hysbysebu'r cymorth sydd ar gael trwy ei gweithrediad'[12]. Mae'r ddogfen yn nodi hefyd y defnyddir 'newyddlenni' fel offeryn 'i rannu'r newyddion diweddaraf â phartneriaethau a rhanddeiliaid'[13].

2.18 Disgwylir i ddarpar-gyfranogwyr fynd trwy 'broses brysbennu' sy'n cynnwys 'archwiliad lefel gyntaf o gymhwyster ac asesiad diagnostig cyffyrddiad ysgafn er mwyn pwyso a mesur lefel yr angen, a'r lefel mwyaf priodol o gymorth yn sgil hynny'[14]. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai'r gweithwyr brysbennu'n cyflawni'r broses asesu yma[15], ond mae Canllawiau Gweithredol dilynol yn ehangu ar y broses er mwyn dangos y gall cynghorwyr, mentoriaid neu weithwyr brysbennu wneud hyn.[16].

---

[10] Cynllun Busnes Blaenoriaeth 3 Dwyrain Cymru, t.16 ac Achos Busnes Blaenoriaeth 3, Atodiad 4: Siwrnai Cyfranogwyr CaW, t.2
[11] CaW Atodiad 4: Blaenoriaeth 3 CaW – Siwrnai’r Cyfranogwr t.2
[12] Cynllun Busnes Blaenoriaeth 3 Dwyrain Cymru CaW: Atodiad 4: Siwrnai'r Cyfranogwr, t.1-2
[13] Cynllun Busnes Blaenoriaeth 3 Dwyrain Cymru CaW F1: Atodiad 4: Siwrnai'r Cyfranogwr, t.1-2
[14] CaW – Canllawiau Gweithredol 1.0 a ddosbarthwyd i CCA a DWP, t.8
[15] Cynllun Busnes WWV Rh1 1.0, t.32
[16] CaW – Canllawiau Gweithredol 1.0 a ddosbarthwyd i CCA a DWP, t.15

2.19 Un o ddibenion allweddol y broses asesu yw canfod a yw'r cleientiaid unigol yn debygol o fod:

- 0-6 mis i ffwrdd o'r byd gwaith
- 6-12 mis i ffwrdd o'r byd gwaith
- 12+ 0-6 mis i ffwrdd o'r byd gwaith[17].

2.20 Bwriedir i'r categoreiddio yma bwyso a mesur dwyster y cymorth sydd ei angen, ac a ddylid aseinio'r cleientiaid i gynghorydd ynteu i fentor. Y bwriad yw bod y rhai yr ystyrir eu bod hyd at 12 mis i ffwrdd o gyflogaeth, ac sydd felly ag angen lefel isel neu gymedrol o gymorth, yn cael eu haseinio i gynghorydd. Caiff y rhai yr ystyrir eu bod mwy na 12 mis i ffwrdd o'r byd gwaith ac, sydd angen lefel uwch o gymorth felly, eu cyfeirio at fentor.


2.21 Mae'r cynghorwyr a'r mentoriaid yn rheoli eu beichiau gwaith eu hunain, a nhw sy'n gyfrifol am arwain ymyraethau rheolaidd â chyfranogwyr. Maent yn cyflawni 'asesiadau diagnostig manwl' er mwyn pennu anghenion a rhwystrau, ac yn cynllunio cymorth i fynd i'r afael â'r rhain, gan eu dogfennu ym mhortffolios y cyfranogwyr a chael sêl bendith y cyfranogwyr iddynt.

2.22 Mae cynghorwyr yn gynnig cymorth sy'n gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys 'cyfrifiadau gwell eich byd', cyfeirio cyfranogwyr at gyrsiau hyfforddiant byr, cymorth i chwilio am waith a llunio CVs/ymgeisio am swyddi.

2.23 Mae mentoriaid yn canolbwyntio ar rwystrau mwy cymhleth, a all ofyn am gyfeiriadau at ymyraethau arbenigol e.e. am broblemau personol (rheoli dicter, cam-drin sylweddau), tai, iechyd meddwl neu rwystrau eraill. Yn unol â hynny, bwriedir i gymorth y mentoriaid bara'n hirach na chymorth y cynghorwyr fel rheol.

[17] Yn ystod y broses o ddrafftio'r adroddiad hwn, pwysleisiodd y bobl a oedd yn gyfrifol am lunio polisïau bod rhai o'r systemau hyn yn dal i fod yn y broses o gael eu datblygu.

**Ffigur 2.1: Siwrnai'r Cyfranogwr**



2.24 Gall cyfranogwyr gyrchu rhaglenni hyfforddiant hyblyg sy'n bodoli eisoes sy'n cael eu darparu'n lleol trwy ffynonellau'r brif ffrwd a/neu CG. Yn ogystal, lle nad oes dim byd priodol ar gael trwy ffynonellau cyfredol neu'r brif ffrwd, gall y cyfranogwyr, trwy eu mentor neu gynghorydd, ofyn am raglenni hyfforddiant sy'n cael eu caffael a'u rheoli'n ganolog a'u darparu gan ddarparydd argadwedig Llywodraeth Cymru yn unswydd er mwyn darparu hyfforddiant ar gyfer cyfranogwyr CaW.

2.25 Mae cronfa rwystrau ar gael i helpu cyfranogwyr i oresgyn y rhwystrau olaf i gyflogaeth, trwy eu galluogi i dalu am bethau fel dillad i'w gwisgo i gyfweliad neu offer i ddechrau gweithio, costau teithio neu ofal plant tymor byr.

2.26 Mae'r cyfranogwr wedi cwblhau'r rhaglen pan fydd wedi cychwyn cyflogaeth, cychwyn addysg amser-llawn, neu pan fydd yn penderfynu nad yw'n dymuno cymryd rhan mwyach. Mae yna opsiwn hefyd i gynghorwyr neu fentoriaid derfynu cysylltiad y cyfranogwr â’r rhaglen, er enghraifft os yw’n teimlo bod y rhwystrau'n rhy helaeth i'w goresgyn trwy gymorth CaW. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofynion penodol o ran am ba hyd y gall cynghorwyr a mentoriaid weithio gyda'r cyfranogwyr: yn hytrach, anghenion yr unigolyn a'i barodrwydd i gysylltu'n adeiladol sy'n bwydo hyn.

**Y Strwythur Staffio a'r Rolau Allweddol wrth Ddarparu'r Gwasanaeth**

2.27 Mae CaW yn cyflogi tua 250 o staff y rheng flaen, yn ogystal â staff mewn rolau gweinyddol, llywodraethu a rheoli.

2.28 Mae staff y rheng flaen, y staff sy'n delio â chleientiaid, yn ymrannu'n dri chategori:

- Gweithwyr brysbennu
- Cynghorwyr yn y gymuned a chynghorwyr cyflogaeth i rieni
- Mentoriaid oedolion ac ieuenctid.

2.29 Mae'r gweithwyr brysbennu yng nghyflogaeth y CCA ac maent yn gyfrifol am gynorthwyo'r cynghorwyr a'r mentoriaid. Yn wreiddiol, rhagwelwyd y byddai rôl y gweithwyr brysbennu'n cynnwys:

- rheoli'r ‘cyswllt cyntaf trwy gyflawni archwiliadau cymhwyster cam cyntaf ESF, ac asesiadau lefel isel o sgiliau er mwyn pennu lefel yr angen’[18]
- dyrannu cleientiaid i gynghorwyr a mentoriaid, yn dibynnu ar lefel eu hangen, neu eu cyfeirio at ymyraethau eraill lle'r ystyrir nad CaW yw'r rhaglen fwyaf priodol ar gyfer yr unigolyn o dan sylw
- darparu cymorth rheoli achosion parhaus, gan gynnwys cydlynu cyfarfodydd baich achosion lle trafodir anghenion y cyfranogwyr
- ‘sicrhau bod y berthynas hanfodol â Chymunedau yn Gyntaf a'r partneriaid ehangach yn cael ei chynnal a'i meithrin'[19]. Byddai cynlluniau busnes CaW yn awgrymu bod y perthnasau hyn yn cynnwys y berthynas â'r Bartneriaeth Dysgu Ranbarthol a thimau’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid[20]
- darparu ‘cymorth gweinyddol ar gyfer monitro' a darparu ‘adroddiadau rheoli gwybodaeth a gofynion monitro eraill er mwyn sicrhau bod holl waith monitro Llywodraeth Cymru ac ESF yn gywir ac yn cydymffurfio a diweddaru’r cofnodion[21].

2.30 Y DWP sy'n cyflogi’r cynghorwyr cyflogaeth yn y gymuned (CEA) a’r cynghorwyr cyflogaeth i rieni (PEA), sydd yn gyfrifol am gynorthwyo unigolion yr ystyrir eu bod 0-12 mis i ffwrdd o gyflogaeth. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai eu rôl yn cynnwys:

- ‘cyflawni archwiliadau cymhwyster ESF 2il gam, cyrchu systemau holi am am fudd-daliadau DWP am dystiolaeth o gymhwyster'[22]
- Cyflawni 'cyfweliadau diagnostig i bennu'r rhwystrau i hyfforddiant neu gyflogaeth'
- cyflawni cyfrifiadau 'gwell eich byd', a chynghori unigolion ar eu hawliau i fudd-daliadau mewn gwaith a phan nad ydynt yn gweithio.

[18] Cynllun Busnes Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Rh1 1.0, t.32
[19] CaW – Canllawiau Gweithredol 1.0 a ddosbarthwyd i CCA a DWP, t.8
[20] Cynllun Busnes Blaenoriaeth 3 Dwyrain Cymru t.17
[21] CaW – Canllawiau Gweithredol 1.0 a ddosbarthwyd i CCA a DWP, t.8
[22] Cynllun Busnes Gorllewin Cymru a'r Cymoedd B1 F1.0, t.33

- cyplysu dyheadau cleientiaid â chyfleoedd yn y farchnad lafur leol / 'pwyso a mesur dyheadau'r cyfranogwyr yn erbyn realiti'r cyfleoedd sydd ar gael yn y farchnad lafur leol'[23]
- cynghori unigolion ar chwilio am swyddi, paratoi Curriculum Vitae a thechnegau cyfweliad
- clustnodi cyfleoedd hyfforddi a fydd yn helpu i wneud unigolion yn fwy parod ar gyfer y byd gwaith
- cyrchu adnoddau'r Gronfa Rwystrau er mwyn helpu i oresgyn y rhwystrau ariannol sy'n atal cyfranogwyr rhag cyrchu hyfforddiant neu gyfleoedd cyflogaeth
- darparu cymorth brocera i'r byd gwaith.

2.31 Y CCA sy'n cyflogi'r Mentoriaid Ieuenctid ac Oedolion ac maent yn gyfrifol am weithio gydag unigolion yr ystyrir bod ganddynt rwystrau mwy cymhleth i waith a sydd mwy na 12 mis i ffwrdd o gyflogaeth. Rhagwelwyd y byddai eu rôl yn cynnwys:

- cyflawni asesiadau diagnostig manylach o'r rhwystrau i waith y mae cleientiaid unigol yn eu hwynebu
- gweithio gydag unigolion i ddatblygu cynllun gweithredu personol
- darparu cymorth mentora dwys ar gyfer unigolion, gan gydgysylltu ag asiantaethau allanol pan fo angen
- clustnodi cyfleoedd hyfforddi a fydd yn helpu i wneud unigolion yn fwy parod ar gyfer y byd gwaith
- cyrchu adnoddau'r Gronfa Rwystrau er mwyn helpu i oresgyn y rhwystrau ariannol sy'n atal cyfranogwyr rhag cyrchu hyfforddiant neu gyfleoedd cyflogaeth
- cynnal 'dialog "cyffyrddiad ysgafn" â chyfranogwyr ar ôl iddynt gychwyn eu cyflogaeth er mwyn darogan anawsterau a sicrhau bod modd cynnal eu cyflogaeth'[24].

[23] Cynllun Busnes Blaenoriaeth 3 Dwyrain Cymru t.7
[24] Cynllun Busnes Blaenoriaeth 3 Dwyrain Cymru t.6

**Targedau a Chyllidebau'r Rhaglen.**

2.32 Lansiwyd CaW ym mis Mai 2015, gyda'r bwriad y byddai'r rhaglen yn rhedeg tan o leiaf Mawrth 2018. Yn Ionawr 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant y byddai CaW yn parhau tan Fawrth 2020.

2.33 Mae Tablau 2.1 a 2.2 yn crynhoi'r targedau deilliant sylfaenol a gymeradwywyd ar gyfer Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 yn y drefn honno dros oes pum mlynedd y rhaglen.

**Tabl 2.1: Targedau Deilliant Sylfaenol Blaenoriaeth 1 2015-2020**

| Targedau Deilliant Sylfaenol Blaenoriaeth 1 | | Dwyrain Cymru[25] | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd[26] | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|---|
| | | 2015-20 | 2015-20 | 2015-20 |
| **Pobl Economaidd Anweithgar** (dros 25 oed), nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | | | | |
| 1 | Cyfranogwyr | 7,540 | 22,355 | 29,895 |
| 2 | Deilliant: cychwyn cyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth ymadael | 1,317 | 3,900 | 5,217 |
| 3 | Deilliant: chwilio'n ymarferol am waith wrth ymadael | 533 | 1,588 | 2,121 |
| 4 | Deilliant: ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith wrth ymadael | 1,318 | 3,906 | 5,224 |
| 5 | Deilliant: cynyddu cyflogadwyedd trwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli | 1,487 | 4,400 | 5,887 |
| **Pobl ddi-waith tymor hir** (dros 25 oed), nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | | | | |
| 6 | Cyfranogwyr | 3,772 | 11,177 | 14,949 |
| 7 | Deilliant: cychwyn cyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth ymadael | 649 | 1,919 | 2,568 |
| 8 | Deilliant: ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith wrth ymadael | 608 | 1,807 | 2,415 |
| 9 | Deilliant: cynyddu cyflogadwyedd trwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli | 701 | 2,077 | 2,778 |
| **Cyfanswm** (dros 25 oed), nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | | | | |
| 1 | Cyfranogwyr | 11,312 | 33,532 | 44,844 |
| 2 | Deilliant: cychwyn cyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth ymadael | 1,966 | 5,819 | 7,785 |
| 3 | Deilliant: chwilio'n ymarferol am waith wrth ymadael | 533 | 1,588 | 2,121 |
| 4 | Deilliant: ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith wrth ymadael | 1,926 | 5,713 | 7,639 |
| 5 | Deilliant: cynyddu cyflogadwyedd trwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli | 2,188 | 6,477 | 8,665 |

[25] Achos Busnes dros Ymestyn Cyfnod Gweithredol CaW f2.0, t.21
[26] Achos Busnes dros Ymestyn Cyfnod Gweithredol CaW f2.0, t.22

**Tabl 2.2: Targedau Deilliant Sylfaenol Blaenoriaeth 3 2015-20**

| Targedau Deilliant Sylfaenol Blaenoriaeth 3 | | Dwyrain Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|---|
| Pobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET | | | | |
| 1 | Cyfranogwyr | 1,758 | 5,679 | 7,437 |
| 2 | Deilliant: ennill cymwysterau wrth ymadael. | 343 | 1,102 | 1,445 |
| 3 | Deilliant: mewn addysg neu hyfforddiant wrth ymadael. | 169 | 917 | 1,086 |
| 4 | Deilliant: cychwyn cyflogaeth wrth ymadael. | 503 | 1,582 | 2,085 |

2.34 Mae'r tablau'n dangos bod disgwyl i 17% o'r cyfranogwyr dros 25 oed gychwyn cyflogaeth neu hunangyflogaeth wrth ymadael â CaW. Mae'r disgwyliadau'r un fath ar gyfer cyfranogwyr di-waith tymor hir a'r rhai sydd wedi bod yn economaidd anweithgar.

2.35 Disgwylir i ryw 28% o'r cyfranogwyr 16-24 oed gychwyn cyflogaeth ar ôl ymadael. Yn ogystal, disgwylir i 15 y cant o'r holl bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant. Mae'n nodedig, fodd bynnag, y disgwylir i gyfran lai o gyfranogwyr o Ddwyrain Cymru (10 y cant) na chyfranogwyr o Orllewin Cymru a'r Cymoedd (16 y cant) symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant.

2.36 Mae Tablau 2.3 a 2.4 yn pennu'r cyllidebau a gymeradwywyd ar gyfer Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3, yn y drefn honno, dros oes y rhaglen CaW.

**Tabl 2.3: Costau a Ffynonellau Cyllid Blaenoriaeth 1 2015-20**

| Blaenoriaeth 1 | Dwyrain Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|
| Costau | | | |
| Cyfanswm y Costau Gweithredu | £12,798,075 | £38,584,486 | £51,382,561 |
| Ffynhonnell y cyllid | | | |
| Llywodraeth Cymru | £5,915,059 | £12,438,480 | £18,353,539 |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau | £483,978 | £1,451,935 | £1,935,913 |
| ESF | £6,399,038 | £24,694,071 | £31,093,109 |
| Cyfradd Ymyrraeth[27] | 50% | 64% | 60% |
| Cost fesul cyfranogwr | £1,311 | £1,151 | £1,146 |
| Cost a gynlluniwyd fesul cyfranogwr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth | £6,510 | £6,631 | £6,600 |

**Tabl 2.4: Costau a Ffynonellau Cyllid Blaenoriaeth 3 2015-20**

| Blaenoriaeth 3 | Dwyrain Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|
| Costau | | | |
| Cyfanswm y Costau Gweithredol | £4,871,978 | £14,741,289 | £19,613,267 |
| Ffynhonnell y cyllid | | | |
| Llywodraeth Cymru | £2,314,994 | £4,943,880 | £7,258,874 |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau | £120,995 | £362,984 | £483,979 |
| ESF | £2,435,989 | £9,434,425 | £11,870,414 |
| Cyfradd Ymyrraeth | 50% | £14,741,289.00 | 60% |
| Cost fesul cyfranogwr | £2,771 | £2,596 | £2,637 |
| Cost fesul cyfranogwr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth | £9,656 | £9,318 | £9,407 |

[27] Mae hon yn ymwneud â chyfraniad ESF i gostau net cymwys y rhaglen, a fynegir fel canran

## 3. Sefydlu'r rhaglen

3.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n ystyried sut y sefydlwyd CaW a'r adnoddau a'r trefniadau a roddwyd yn eu lle fel sail i gyflawni'r rhaglen. Cyflwynir y bennod mewn saith rhan fel a ganlyn:

- Datblygu a lansio'r rhaglen
- Canllawiau gweithredol
- Portffolio’r gyfranogwyr
- Cytundebau rhannu data
- Monitro
- Sgiliau staff
- Adnoddau

**Datblygu a lansio'r rhaglen**

3.2 Datblygwyd CaW gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad agos â'r DWP. Gwelwyd y rhaglen fel ffordd o fynd i'r afael ag uchelgais y ddau sefydliad i 'leihau tlodi trwy waith' ac i brif-ffrydio gwasanaethau'r DWP (CBG) trwy estyn allan ac arddel dull 'holistig', 'sy'n canolbwyntio ar y person' i gynorthwyo pobl nad ydynt yn dod i gysylltiad â'r gwasanaethau hynny fel rheol, neu y gallai fod arnynt angen fwy o gymorth nag y gall gwasanaethau'r brif ffrwd ei gynnig iddynt.

3.3 Dyluniwyd y rhaglen yn benodol ‘i adeiladu ar blatfform Cymunedau yn Gyntaf', a hynny wrth dynnu ar y gwersi a ddysgwyd o roi mentrau fel rhaglen Awyddus i Weithio'r DWP, a rhaglen Esgyn Llywodraeth Cymru ar waith. Roedd hi'n glir bod y rhanddeiliaid yn gweld CaW fel 'rhaglen gyflogaeth' sy'n elwa ar enw da Cymunedau yn Gyntaf a'i seilwaith hygyrch i gysylltu â'r bobl hynny nad yw gwasanaethau'r brif ffrwd yn eu cyrraedd. Yn wir, cyfeiriodd nifer o gynrychiolwyr y CCA at bwyslais cynyddol ar 'gyflogadwyedd' o fewn Cymunedau yn Gyntaf dros y tua dwy flynedd diwethaf, a nodwyd bod 'deilliannau o ran swyddi' yn rhywbeth a oedd wrth galon CG yn eu hardaloedd nhw. Roedd hyn yn golygu bod CaW wedi edrych fel estyniad naturiol a chydategol i CG yn rhai o’r CCA.

3.4 Torrodd datblygiad CaW dir newydd wrth dynnu amryw o sefydliadau ynghyd mewn ffyrdd, ac ar raddfa, na welwyd erioed o'r blaen. Ar y lefel uchaf, tynnodd CaW Lywodraeth Cymru a'r DWP, sydd heb ei ddatganoli, ynghyd mewn ffordd a welwyd fel peth arloesol ac 'unigryw' ar draws y DU, a chaniataodd hynny iddynt ddenu lefel sylweddol o gymorth gan ESF. Ar lefel weithredol, ystyriwyd bod CaW yn ffordd o dynnu timau â setiau gwahanol ond cydategol o sgiliau at ei gilydd er mwyn darparu gwasanaethau holistig sy'n canolbwyntio ar y cleient.

3.5 Cafodd y gwaith o ddatblygu'r rhaglen ei arwain gan uwch swyddog o fewn Llywodraeth Cymru, ynghyd â dau reolwr gweithrediadau a gafodd eu secondio i Lywodraeth Cymru o'r DWP. Roedd y rhanddeiliaid oedd â throsolwg strategol o'r rhaglen yn teimlo bod y trefniant hwn yn amhrisiadwy yn nhermau elwa ar y gwersi a ddysgwyd o roi Awyddus i Weithio ar waith wrth ddylunio CaW, ac y byddai'r trefniadau a sefydlwyd yn cyd-fynd â systemau a phrosesau'r DWP, yn ogystal â bodloni gofynion Llywodraeth Cymru a WEFO.

3.6 Mae'r ddau unigolyn a secondiwyd i Lywodraeth Cymru o'r DWP yn parhau i weithredu fel aelodau o dîm rheoli CaW, ac mae ganddynt gyfrifoldeb rheoli uniongyrchol dros y rheolwyr cyfrif. Mae'r rhain, yn eu tro, yn gweithredu fel rhyngwyneb rhwng timau cyflawni Llywodraeth Cymru a CaW ym mhob clwstwr.

3.7 Roedd y rhanddeiliaid strategol a fu wrthi'n datblygu CaW yn cydnabod bod sefydlu rhaglen sy'n cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau ('â llawer o rannau symudol') yn codi 'sialensiau' ar hyd y ffordd, gan gynnwys yn nhermau rheoli gwahanol safbwyntiau o'r byd, integreiddio timau ac asio diwylliannau. Er y gwnaed cynnydd sylweddol yn hynny o beth, mae problemau wedi codi ar amryw o lefelau, ac mae integreiddio staff o wahanol sefydliadau i greu un tîm ar gyfer y rhaglen yn dal i fod yn faes ffocws ar gyfer rheolwyr y rhaglen. Trafodir hyn mewn adrannau diweddarach o'r adroddiad hwn.

3.8 Y bwriad oedd cyflwyno rhaglen CaW fesul tipyn, gan benodi cynghorwyr CaW rhwng Ebrill a Hydref 2015, ac 'arbrofi' ag elfennau CCA y rhaglen mewn

pedwar clwstwr CG o Fehefin 2015 ymlaen. Rhagwelwyd y byddai'r rhaglen yn hollol weithredol o Ebrill 2016 ymlaen[28].

3.9 Fodd bynnag, cymerodd y rhaglen fwy o amser na'r disgwyl i'w roi ar waith yn ymarferol. Roedd nifer o gynghorwyr[29] CaW wedi cael eu penodi erbyn Hydref 2015, ac roedd y rhan fwyaf yn eu swyddi erbyn Mawrth 2016. Cymerodd hi'n hirach na'r disgwyl i CCA eu paratoi eu hunain yn weithredol i fabwysiadu'r rhaglen, gyda'r mwyafrif yn penodi staff y rheng flaen yn ystod ail a thrydydd chwarteri 2016. Erbyn Ebrill 2017, roedd y CCA wrthi'n darparu'r rhaglen CaW mewn 48 o glystyrau CaW ledled Cymru. Daeth un CCA a oedd yn gwasanaethu pedair ardal, ac a oedd wedi mynegi diddordeb yn wreiddiol, i'r casgliad nad oedd mewn sefyllfa i ysgwyddo'r faich o ddarparu CaW. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi dod o hyd i drefniadau amgen ar gyfer y clystyrau hyn, ac mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd, er bod Cynghorwyr CaW wedi bod yn weithredol yn yr holl ardaloedd o dan sylw ers dyddiau cynnar y rhaglen.

3.10 Roedd y rhai a gyfwelwyd yn credu bod sawl ffactor i gyfrif am yr oedi wrth roi CaW ar waith, gan gynnwys:

- yr amser a gymerodd i'r DWP recriwtio cynghorwyr newydd lle nad oedd hen gynghorwyr Awyddus i Weithio'n trosglwyddo i CaW
- diffyg eglurder am agweddau ar ofynion WEFO, a'r amser a gymerodd i ddatrys ystyriaethau o ran Cymorth Gwladwriaethol
- amharodrwydd ar ran rhai CCA i fabwysiadu rhai o delerau'r cytundeb, er enghraifft y 'llythyrau secondio' yr oedd disgwyl i'r awdurdodau lleol eu dosbarthu i staff sy'n gweithio mewn rolau gyda'r CCA
- yr amser a gymerodd i rai CCA recriwtio swyddogion brysbennu a mentoriaid ar ôl iddynt gadarnhau y byddent yn cymryd rhan yn y rhaglen a chytuno ar delerau
- ansicrwydd o gylch dyfodol CG yn sgil cyhoeddiad Ysgrifennydd Cymunedau Llywodraeth Cymru yn Hydref 2016[30], bod ganddo feddwl i

[28] Cynllun Busnes P1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd f1.0, t.40
[29] Roedd llawer o'r rhain wedi bod yn gweithio mewn rolau ymgynghorol gyda DWP, a hynny'n bennaf o fewn rhaglen Awyddus i Weithio'r DWP, ond hefyd mewn rolau eraill fel Cynghorwyr y Lwfans Byw i'r Anabl/Taliadau Annibyniaeth Personol ac fel Cynghorwyr Rhieni Sengl Working Links
[30] Cofnod Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru 11/10/2016, 14:29

ddirwyn y rhaglen i ben, er na chyhoeddwyd y penderfyniad terfynol tan Chwefror 2017[31]. Byddwn ni'n dychwelyd i'r berthynas rhwng CaW a'r rhaglen CG yn ddiweddarach

3.11 Fodd bynnag mae CaW bellach yn hollol weithredol ym mhob un ond pedwar clwstwr, er bod rhai ohonynt yn dal i fod ar gam cynnar yn eu gweithrediad.

3.12 Wrth edrych yn ôl, roedd y rhai sy'n chwarae rhan wrth reoli a darpau CaW yn teimlo y dylid bod wedi ymgorffori 'cyfnod paratoi' i'r rhaglen. Fodd bynnag, cydnabuwyd y bu'r angen am lansio'r rhaglen yn fwy dybryd oherwydd rhai ffactorau, ac un ffactor pwysig yn hynny o beth oedd yr angen am iddynt adleoli nifer o gynghorwyr y DWP a oedd wedi bod yn gweithio ar y rhaglen Awyddus i Weithio[32] er mwyn cadw arbenigedd a oedd wedi cael ei feithrin dros nifer o flynyddoedd. Roedd y sawl sy'n gyfrifol am lunio polisïau'n awyddus hefyd i gychwyn ar y rhaglen cyn gynted â phosibl o fewn cyfnod rhaglennu Cronfa Strwythurol Ewrop 2014-20.

**Y Canllawiau Gweithredol**

3.13 Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd tîm CaW Llywodraeth Cymru Ganllawiau Gweithredol ar gyfer y rhaglen CaW. Diweddarwyd y Canllawiau yn Ebrill 2016, tua'r amser y daeth y CCA ynghlwm wrth weithrediad CaW am y tro cyntaf.

3.14 Mae'r ddogfen Canllawiau Gweithredol 57 tudalen o hyd yn cynnwys adrannau sy'n ymwneud ag:

- amcanion CaW a rolau'r Cynghorwyr, y Mentoriaid a'r Gweithwyr Cymorth Brysbennu
- y meini prawf cymhwyster, y broses ymrestru a'r gofynion o ran tystiolaeth
- amlinelliad o'r broses brysbennu
- portffolio'r cyfranogwyr
- gofynion o ran tystiolaeth mewn perthynas â deiliannau
- y Gronfa Rwystrau
- y ddarpariaeth o ran hyfforddiant

[31] Cofnod Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru 14/02/2017, 15:17
[32] Ariannwyd Awyddus i Weithio o dan raglenni Cronfa Strwythurol Ewrop 2007-13 a daeth i ben ym Mehefin 2015

- y broses ar gyfer ymadael/terfynu cyfranogwyr
- y trefniadau monitro
- marchnata a chyhoeddusrwydd.

3.15 Yn ogystal, mae'r ddogfen yn darparu dogfennau safonedig ar gyfer y rhaglen mewn cyfres o 14 o atodiadau.


3.16 Y teimlad cyffredinol oedd bod y Canllawiau Gweithredol a gyhoeddwyd ar gyfer CaW yn glir ac yn gynhwysfawr. Dywedwyd bod y ddogfen yn darparu 'blas cyffredinol defnyddiol' ar y rhaglen, ac fe'i disgrifiwyd fel pwynt cyfeirio defnyddiol. Roedd rhai o'r cyfranwyr yn teimlo bod y Canllawiau Gweithredol yn flaenllaw ymysg y dogfennau canllaw i raglenni a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Disgrifiodd staff y rheng flaen sy'n darparu'r rhaglen y Canllawiau Gweithredol fel dogfen 'ddefnyddiol' a 'handi', ac fel 'beibl' y rhaglen, er bod sawl un yn credu bod yna le i wella, a mynegodd eraill rwystredigaeth â nifer[33] y diwygiadau i'r canllawiau[34].

3.17 Mae Ffigur 3.1 isod yn dangos canfyddiadau'r ymatebwyr i'r arolwg am eglurder y Canllawiau Gweithredol wrth bennu agweddau penodol ar y rhaglen

3.18 Roedd 89 y cant (142) o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo bod y Canllawiau Gweithredol yn glir iawn neu'n weddol glir wrth bennu rolau cynghorwyr cyflogaeth CaW, y mentoriaid a'r gweithwyr brysbennu. O'r naw y cant (15) o ymatebwyr nad oeddent yn teimlo bod y Canllawiau Gweithredol yn glir ynghylch rolau staff CaW, dywedodd bron i hanner (7) ohonynt nad oedd y disgrifiadau a roddwyd am y rolau'n cyd-fynd â sut y gwneir pethau’n ymarferol, gydag ymatebwyr unigol yn nodi bod 'pob clwstwr wedi dehongli'r canllawiau mewn ffordd wahanol’ a bod y trefniadau wedi esblygu ers lansio CaW.

[33] Cyhoeddwyd dau adolygiad ers 2015, yn ogystal â chwe hysbysiad e-bost o newidiadau.
[34] Er bod y gwerthuswyr yn deall mai diwygiadau i ganllawiau ESF WEFO sydd i gyfrif am y rhain

**Ffigur 3.1: Canfyddiadau am Eglurder y Canllawiau Gweithredol**




3.19 O ofyn sut y gellid gwella ar y Canllawiau Gweithredol, galwodd nifer am iddo fod yn 'gliriach o ran y rolau ac o ran beth y disgwylir gan bob aelod o'r tîm’. Yn benodol, galwodd y rhai a ymatebodd i'r arolwg a'r rhai a gafodd gyfweliadau wyneb yn wyneb am fwy o eglurder mewn perthynas â phwrpas rôl y gweithwyr brysbennu, a sut y dylid cyflawni'r rôl. Galwyd hefyd am wahaniaethu cliriach rhwng rolau'r cynghorwyr a'r mentoriaid, ac yn benodol o ran natur y cyfranogwyr y dylai pob un fod yn gweithio gyda nhw. Trafodir natur y deilliannau yr oedd yr ymatebwyr yn dadlau eu bod yn briodol i bob rôl yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, ond wrth ddadlau dros fwy o eglurder am rolau'r cynghorwyr a'r mentoriaid, awgrymodd un ymatebwr y dylai'r cynghorwyr fod yn gyfrifol am 'sgiliau cyfweliad, diweddaru CVs, cysylltu â chyflogwyr, gwybodaeth am dueddiadau yn y farchnad lafur, [darparu mynediad i] slotiau gwarantedig am gyfweliadau gyda’r Ganolfan Byd Gwaith, cyfleoedd am dreialon gwaith'. Awgrymwyd y dylai'r mentoriaid fod yn gyfrifol am helpu cleientiaid i fynd i'r afael â 'rhwystrau, cymorth mentora dwys, hyfforddiant cyn cyflogi (dull holistig), CVs, hyfforddiant, sgiliau meddal, profiad gwaith a chyfleoedd i wirfoddoli, sgiliau chwilio am waith' ac am sicrhau 'presenoldeb cyson'.

3.20 Roedd 90 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg (146) yn teimlo bod y Canllawiau Gweithredol yn disgrifio meini prawf cymhwyster y cyfranogwyr yn glir iawn neu'n weddol glir. O'r saith y cant (12) a oedd yn teimlo nad oedd y Canllawiau Gweithredol yn glir ynghylch meini prawf cymhwyster y cyfranogwyr, dywedodd dros haner (7) nad yw'r ddogfen yn cynnig digon o wybodaeth, a dywedodd nifer ychydig bach yn llai (5) ei bod hi'n gallu bod yn anodd dod o hyd i wybodaeth berthnasol.

3.21 Awgrymodd y rhai a ymatebodd i'r arolwg, a'r rhai a gafodd gyfweliadau yn ystod ein gwaith maes, bod angen mwy o eglurder yn y Canllawiau o gylch ‘y diffiniad o anweithgarwch economaidd' a'r 'dystiolaeth sydd ei hangen' i 'ddangos cymhwyster os yw rhywun yn economaidd anweithgar'. Dywedwyd hefyd bod angen diweddaru'r Canllawiau i ddarparu ar gyfer goblygiadau'r diwygiadau lles, gan gynnwys 'cymhwyster hawlwyr y Credyd Cynhwysol' a'r 'di-waith tymor hir sy'n hawlio ESA, sydd wedi cael eu hailasesu ac sy'n hawlio JSA'[35].

3.22 Ar fater cysylltiedig, cyfeiriodd nifer fechan o gyfranwyr at restr gyfeirio'r DWP o ran cymhwyster, a ddatblygwyd yn annibynnol. Roeddent yn teimlo bod y rhestr yn ddefnyddiol iawn iddynt, ond nid oedd yn rhan o'r Canllawiau Gweithredol. Yr awgrym oedd y gallai rhestr gyfeirio o'r fath fod yn ychwanegiad defnyddiol at y canllawiau.

3.23 Galwodd nifer o gyfranwyr am lacio'r meini prawf cymhwyster, yn nhermau caniatáu i bobl sy'n byw ychydig y tu hwnt i ffiniau'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf gyrchu CaW (o bosibl gan ddefnyddio 'ffiniau cod post niwlog' fel y rhai y mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn eu defnyddio) ac yn nhermau agor y rhaglen i unigolion nad ydynt o reidrwydd yn bodloni'r meini prawf o fod yn ddi-waith am 12 mis neu ragor[36]. Roedd dwy ystyriaeth ar wahân yn sbarduno’r cyfranwyr i awgrymu’r pethau hyn: yn gyntaf, roedd yna deimlad bod defnydd caeth o godau post Cymunedau yn Gyntaf er mwyn pwyso a mesur cymhwyster yn allgáu’n fympwyol pobl haeddiannol sy'n byw 'yr ochr draw i'r stryd' i'r rhaglen, neu fel y nododd cyfrannwr arall, pobl sy'n byw mewn 'hostel i'r digartref yn ein hardal nad yw'n dod o fewn cod post Cymunedau yn Gyntaf'. Yn yr un modd, cyfeiriodd rhai o'r rheiny a gyfwelwyd

[35] Mae angen i Lywodraeth Cymru gael arweiniad gan WEFO yn hyn o beth
[36] Deellir y bydd cyflwyniad y Grant Cyflogadwyedd yn mynd i’r afael â rhai o’r pwyntiau hyn

at bobl yr oeddent yn teimlo y gellid eu cynorthwyo, ond nad oeddent wedi bod yn ddi-waith yn ddigon hir er enghraifft. Yn ail, teimlwyd y byddai llacio'r meini prawf cymhwyster yn helpu timau CaW i gyflawni eu targedau cysylltu, gyda rhai yn dweud yn blwmp ac yn blaen eu bod wedi cael trafferth cysylltu'r niferoedd angenrheidiol. Mewn rhai achosion, roedd hyn i'w gweld i ryw raddau oherwydd ffafriaeth wrth ddyrannu cleientiaid i raglenni eraill (e.e. Esgyn). Hwyrach ei bod hi'n werth nodi yn hyn o beth bod y pŵer i lacio'r meini prawf yn nwylo WEFO yn hytrach na thîm CaW Llywodraeth Cymru.

3.24 Roedd 24 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg (39) yn credu bod y Canllawiau Gweithredol yn glir iawn ynghylch sut y disgwylir i'r broses brysbennu weithio, a dywedodd 47 y cant (75) ei bod yn weddol glir. Fodd bynnag, nid oedd 24 y cant o'r ymatebwyr (39) yn credu bod y Canllawiau Gweithredol yn glir ynghylch sut y dylai'r broses brysbennu weithio. O'r rhain, dywedodd mwyafrif bychan (23) nad yw'n rhoi digon o wybodaeth, sydd, efallai, yn ategu'r pwynt a wnaed eisoes, sef 'bod pob clwstwr wedi dehongli'r canllawiau mewn ffordd wahanol'. Byddwn ni'n dychwelyd i'r pwynt yma'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

3.25 Dywedodd 89 y cant o'r bobl a ymatebodd i'r holiadur (142) bod y Canllawiau Gweithredol yn disgrifio sut y dylid defnyddio portffolio'r cyfranogwyr yn glir iawn neu'n weddol glir. Nid oedd wyth y cant o'r ymatebwyr (13) yn teimlo bod y Canllawiau Gweithredol yn glir ynghylch defnyddio portffolio'r cyfranogwyr, gyda'r mwyafrif o'r rheiny (9) yn dweud nad yw'r Canllawiau'n darparu digon o wybodaeth. Awgrymodd ein trafodaethau wyneb yn wyneb â staff y rheng flaen bod y rhan fwyaf yn meddwl bod y canllawiau ar ddefnyddio'r portffolios yn iawn, gyda rhai'n dweud bod y ddogfen ei hun yn weddol hunanesboniadol.

3.26 O ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r Canllawiau o ran sut y dylid defnyddio portffolio'r cyfranogwyr, galwodd nifer o'r ymatebwyr i'r arolwg am fwy o arweiniad am y 'safonau gofynnol ar gyfer [y cofnod o] sgyrsiau' ac am roi 'engreifftiau penodol o'r hyn sydd ei angen yn y portffolio', gan gynnwys sut i gofnodi gwybodaeth sensitif am 'gyfarfodydd cyntaf a rhwystrau'.

3.27 Fodd bynnag, awgrymodd staff y rheng flaen a'r rheolwyr a gyfrannodd at ein gwaith maes bod yna rywfaint o anghysondeb yn y dull a ddefnyddiwyd i lenwi a rheoli'r portffolios, sy'n awgrymu bod mentoriaid mewn rhai ardaloedd yn

fwy trylwyr o lawer na'r cynghorwyr. Gallai hyn fod, i ryw raddau, oherwydd bod y mentoriaid yn gweithio gyda chleientiaid sy'n wynebu rhwystrau mwy cymhleth i gyflogaeth, a’r ffaith eu bod yn treulio mwy o amser gyda'r cleientiaid hynny dros gyfnod hirach fel rheol.

3.28 Er bod 49 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg (79) yn teimlo bod y Canllawiau Gweithredol yn weddol glir ynghylch y system ar gyfer bwcio cyfranogwyr ar yr hyfforddiant, dim ond 16 y cant (25) a ddywedodd eu bod yn glir iawn.Roedd 31 y cant o'r ymatebwyr (50) yn teimlo bod y canllawiau'n aneglur, gydag 20 o'r rheiny'n dweud nad ydynt yn rhoi unrhyw wybodaeth, neu fod y wybodaeth yn annigonol. Roedd y rhai a ymatebodd i'r arolwg a ddywedodd nad yw'r Canllawiau'n glir yn galw am ryddhau 'rhagor o wybodaeth' am y ddarpariaeth sydd ar gael gan ddarparydd hyfforddiant dynodedig CaW, ac am 'sut i ddefnyddio a chyfeirio i mewn' i ddarpariaeth o'r fath. Fodd bynnag, roedd yna gydnabyddiaeth 'nad [oedd] y darparydd hyfforddiant a gaffaeliwyd yn ei le adeg cyhoeddi'r canllawiau' ac 'nad oedd y system bwcio electronig ar gael'. Trafodir rôl y darparydd dynodedig wrth ddarparu hyfforddiant a'r System Bwcio Electronig a sefydlwyd yn fanylach ym mhennod nesaf yr adroddiad hwn.

3.29 Dywedodd 26 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg (42) bod y Canllawiau Gweithredol yn pennu'n glir iawn beth y caniateir defnyddio'r Gronfa Rwystrau ar ei gyfer, ac am beth na chaniateir ei ddefnyddio, a dywedodd 49 y cant (79) ei fod yn gwneud hynny'n weddol glir. Nid oedd rhyw 22 y cant o'r ymatebwyr (35) yn teimlo bod y Canllawiau Gweithredol yn glir ynghylch y defnyddiau posibl o'r Gronfa Rwystrau, gydag 14 o'r rheiny'n dweud nad yw'n cynnig gwybodaeth ddigonol, a chyfran debyg yn dweud bod y wybodaeth a roddwyd yn gallu bod yn anodd ei deall.

3.30 O ofyn sut y gellid gwella'r Canllawiau Gweithredol, awgrymodd nifer fechan (pump) o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg y gallai fod yn ddefnyddiol darparu 'restrau o bethau y gellir eu prynu ac na ellir eu prynu gyda'r Gronfa Rwystrau' a'r 'gwariant uchaf ar gais i'r gronfa rwystrau'. Trafodir y Gronfa Rwystrau'n fanylach ym mhennod nesaf yr adroddiad hwn.

3.31 Dywedodd bron i 37 y cant o'r ymatebwyr (59) bod y Canllawiau Gweithredol yn pennu'r gofynion tystiolaeth o ran deilliannau ar gyfer CaW yn glir iawn, a

dywedodd 50 y cant arall (81) eu bod yn gwneud hynny'n weddol glir. O'r wyth y cant (13) nad oeddent yn meddwl bod y gofynion o ran tystiolaeth am ddeilliannau yn cael eu pennu'n glir, roedd rhyw draean yr un yn teimlo nad yw'r ddogfen Ganllaw yn cynnig gwybodaeth ddigonol, bod y wybodaeth berthnasol yn gallu bod yn anodd ei ffeindio, a bod y wybodaeth a roddir yn anodd ei deall. Nododd ymatebwyr unigol y bu 'negeseuon croes am y gofynion o ran tystiolaeth wrth i'r prosiect esblygu' ac nad yw'r Canllawiau 'yn ddigon penodol [am] yr holl dystiolaeth sydd ei hangen'.

3.32 Er bod rhai o staff cyflawni'r rheng flaen yn teimlo 'y gwnaed gormod o newidiadau' i'r Canllawiau Gweithredol, roedd yna gydnabyddiaeth eang bod angen iddi fod yn 'ddogfen fyw' sy'n cael ei diweddaru 'wrth i staff CaW geisio eglurder ar bwyntiau penodol'. Er bod yr ymatebwyr yn dadlau bod angen cadw'r diwygiadau i'r lefel isaf bosibl, awgrymwyd y byddai'n beth da 'ailwampio'r [Canllawiau] am fod y rhaglen wedi bod yn weithredol ers dros flwyddyn bellach'. Awgrymwyd hefyd y gallai fod yna deilyngdod mewn cynnwys ymarferwyr, neu o leiaf ymgynghori â nhw cyn gwneud unrhyw ddiwygiadau pellach i'r Canllawiau.

3.33 Dywedodd chwech o'r ymatebwyr i'r arolwg y byddai 'fersiwn [o'r Canllawiau Gweithredol] y gellid ei chwilio ar-lein' yn ddefnyddiol. Awgrymwyd hefyd y gellid ychwanegu adran 'Cwestiynau Cyffredin' ' fel bod modd ei diweddaru wrth i gwestiynau gael eu gofyn'.

3.34 Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg a'r rhai a gyfrannodd at ein gwaith maes i'w gweld yn rhanedig o ran lefel y manylder yr oedd ei hangen yn y Canllawiau Gweithredol. Roedd rhai yn teimlo bod 'y canllawiau'n rhy niwlog' mewn mannau, sy'n caniatáu lle ar gyfer 'gwahanol ddehongliadau' ac am i arferion esblygu mewn gwahanol ffyrdd o un clwstwr i'r nesaf. Dywedodd rhai hefyd bod 'dehongliadau gwahanol o'r canllawiau' rhwng staff CaW a gyflogir gan y DWP a chan y CCA. Disgrifiodd eraill y Canllawiau fel dogfen 'anferth' a 'hirwyntog' sy'n cynnwys 'llwyth o wybodaeth i'w cymryd i mewn' gan ddadlau y dylid ei 'symleiddio a'i chrynhoi'. Dywedodd lond llaw o staff y rheng flaen eu bod yn dueddol o gyfeirio at y 'cymhorthion desg' yn hytrach nag at y Canllawiau Gweithredol llawn am eu bod yn fwy hygyrch, a galwodd eraill am fwy o 'gymhorthion desg/nodiadau atgoffa' i'w hychwanegu at y Canllawiau.

3.35 Ynghyd â hyn, awgrymwyd y gellid gwella ar y Canllawiau Gweithredol trwy ychwanegu 'canllawiau gam wrth gam' ynghyd â 'diagramau llif gwaith' lle bo hynny'n briodol. Galwodd sawl un o'r ymatebwyr am 'dempledi arferion da' hefyd, gan ddangos, er enghraifft, sut y gallai cais i'r Gronfa Rwystrau neu bortffolio cyfranogwyr 'safon aur' edrych: fel y dywedodd un ymatebwr 'os ydych chi am gael portffolios cyson, gellid cynnwys esiampl o un da'.

3.36 Awgrymodd nifer fechan o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg y gellid gwella ar y 'canllawiau ar farchnata' gan gynnwys canllawiau ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, dangos 'logos' CaW mewn deunyddiau marchnata, a sut y gellir gwario'r cyllidebau marchnata sydd wedi eu datganoli i'r CCA (yn hytrach na sut na ellir eu gwario). Nodwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol petai'r Canllawiau'n ymdrin yn benodol â 'rôl ganolog Llywodraeth Cymru wrth farchnata a hyrwyddo'r rhaglen ar draws yr holl glystyrau'.

3.37 Yn olaf, awgrymodd rhai ymatebwyr i'r arolwg y gellid cynnal 'sesiynau hyfforddi' ar 'sut i ddefnyddio'r canllawiau'. Y teimlad oedd y byddai sesiynau o'r fath yn helpu i leihau'r posibilrwydd bod y Canllawiau'n cael eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd.

3.38 Dywedodd 58 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg (94) eu bod wedi gofyn am eglurhad gan Lywodraeth Cymru am rywbeth yn y Canllawiau Gweithredol. Roedd 38 y cant o'r rhain (36) yn teimlo bod yr eglurhad a gawsant yn ddefnyddiol iawn, ac roedd 47 y cant (44) yn teimlo ei fod yn weddol ddefnyddiol.

**Portffolio'r Cyfranogwyr**

3.39 Ffurflen safonol yw portffolio'r cyfranogwyr, a'i nod yw casglu:

- manylion personol y cyfranogwyr h.y. enw, cyfeiriad, rhifau ffôn, cyfeiriad e-bost, rhif yswiriant gwladol a dyddiad geni
- gwybodaeth am unrhyw anhwylderau iechyd ac anableddau sy'n effeithio ar weithgareddau pob dydd y cyfranogwyr
- hanes cyflogaeth y cyfranogwyr
- manylion cymwysterau'r cyfranogwyr neu'r cyrsiau y maent wedi eu dilyn
- gwybodaeth am ddiddordebau a gweithgareddau hamdden y cyfranogwyr

- a yw'r cyfranogwyr yn gallu gyrru, a oes car ganddynt neu a ydynt yn gallu defnyddio cludiant cyhoeddus
- manylion unrhyw drwyddedau sydd ganddynt e.e. trwydded i yrru cerbyd fforch godi neu gerbyd nwyddau ysgafn
- manylion nodau a dyheadau'r cyfranogwyr o ran eu gwaith e.e. y math o waith, lefel cyflog, lleoliad a phatrwm cyflogaeth.

3.40 Wedyn mae'r ddogfen portffolio yn darparu ar gyfer cofnodi manylion 'sgyrsiau ac ymgynghoriadau' rhwng y cyfranogwr a'r cynghorydd neu'r mentor. Nod y rhan yma o'r portffolio yw casglu dyddiad y gweithgarwch, yr amser a dreuliwyd yn trafod, a manylion y sgyrsiau a gafwyd. Darperir lle i'r cyfranogwr a'r cynghorydd/mentor lofnodi'r portffolio i gadarnhau bod y nodiadau a wnaed am y sgyrsiau'n gywir.

3.41 Mae dogfen y portffolio yn darparu ar gyfer cofnodi manylion am:


- yr arian a wariwyd ar gynorthwyo'r cyfranogwr, ac esboniad o'r rhesymau dros unrhyw wariant
- unrhyw hyfforddiant a gyflawnwyd, gan gynnwys manylion cymwysterau neu ardystiadau sy'n gysylltiedig â gwaith a gyflawnwyd
- manylion y deilliannau o ran swyddi a gyflawnwyd, gan gynnwys enw a chyfeiriad y cyflogwr a dyddiad dechau'r gyflogaeth
- crynodeb o'r deilliannau a gyflawnodd y cyfranogwr e.e. y cymwysterau a gafwyd, cychwyn addysg, cwblhau profiad gwaith neu leoliadau gwirfoddol, chwilio am waith ar ôl ymadael, cychwyn cyflogaeth ac ati.

3.42 Roedd ein harolwg o staff cyflawni'r rheng flaen yn archwilio eu canfyddiadau am bortffolio'r cyfranogwyr yn nhermau pa mor rhwydd oedd y ddogfen i'w llenwi, a pha mor ddefnyddiol yr oedd hi fel offeryn i gasglu gwybodaeth bersonol y cyfranogwyr, cynllunio gweithredu, cofnodi a dangos cynnydd, a rheoli perfformiad.

3.43 Mae Ffigur 3.2 yn dangos bod 81 y cant o staff cyflawni'r rheng flaen a ymatebodd i'n harolwg (111) yn dweud ei bod yn teimlo bod portffolio'r cyfranogwyr yn dda iawn neu'n dda yn nhermau hwylustod ei lenwi, er bod y gweithwyr brysbennu a'r cynghorwyr rhywfaint yn fwy brwdfrydig na'r

mentoriaid, gydag 86 y cant (69) yn dweud ie fod yn hawdd i'w lenwi o'i gymharu â 68 y cant o'r mentoriaid (37). Dywedodd 85 y cant o'r ymatebwyr (112) hefyd eu bod yn teimlo bod portffolio'r cyfranogwr yn dda iawn neu'n dda yn nhermau ei ddefnyddioldeb fel offeryn i gasglu gwybodaeth bersonol berthnasol am gyfranogwyr. Eto, roedd y gweithwyr brysbennu i'w gweld yn fwy argyhoeddedig am ddefnyddioldeb y portffolio fel offeryn casglu data, gyda 93 y cant (26) yn dweud ei fod yn dda neu'n dda iawn, o'i gymharu â 79 y cant o'r cynghorwyr (41) a 74 y cant o'r mentoriaid (40).

**Ffigur 3.2: Canfyddiadau am Ddefnyddioldeb Portffolio'r Cyfranogwr**




3.44 Dywedodd 67 y cant o'r ymatebwyr (92) bod y portffolio'n dda iawn neu'n dda yn nhermau ei ddefnyddioldeb fel offeryn ar gyfer cynllunio gweithredu gyda'r cyfranogwyr. Roedd y Mentoriaid (53 y cant ohonynt) ychydig bach yn llai cadarnhaol na'r gweithwyr brysbennu a'r cynghorwyr am ddefnyddioldeb y portffolio fel offeryn cynllunio gweithredu.

3.45 Dywedodd 78 y cant o'r ymatebwyr (106) ei bod yn ddull da iawn neu dda o gofnodi cynnydd y cyfranogwyr. Ynghyd â hyn, dywedodd 58 y cant o'r ymatebwyr (77) bod y portffolio'n ffordd dda iawn neu dda o helpu cleientiaid i weld y cynnydd y maent yn ei wneud. Fodd bynnag, hwyrach ei bod hi'n nodedig bod y cynghorwyr a'r mentoriaid, sef prif ddefnyddwyr y portffolios wrth weithio gyda'r cleientiaid, ychydig yn llai argyhoeddedig (ar lefel o 51 y cant a 47 y cant yn y drefn honno) am deilyngdod y portffolio wrth helpu'r cleientiaid i weld eu cynnydd na'r gweithwyr brysbennu (75 y cant).

3.46 Roedd tua 60 y cant o'r ymatebwyr (80) yn teimlo bod y portffolio'n offeryn rheoli perfformiad da iawn neu dda. Y gweithwyr brysbennu oedd fwyaf cadarnhaol am ddefnyddioldeb y portffolio fel offeryn rheoli perfformiad, gyda 71 y cant yn dweud ei fod yn dda iawn neu'n dda. Roedd y mentoriaid ychydig yn fwy amwys yn eu hymatebion, gyda 34 y cant yn dweud nad oedd y portffolios yn offerynnau perfformiad da nac yn rai gwael.

3.47 O ofyn sut y gellid gwella'r portffolio, cyfeiriodd yr ymatebwyr i'r arolwg a'r staff a gafodd gyfweliadau yn ystod ein gwaith maes at yr angen am 'adran rwystrau' i gofnodi gwybodaeth am faterion a allai atal cleientiaid rhag symud tuag at, neu i mewn i waith. Ar hyn o bryd, cofnodir y rhwystrau y mae unigolion yn eu hwynebu mewn amrywiol rannau o'r portffolios, gan gynnwys yr adrannau 'iechyd/anabledd' a 'nodau a dyheadau o ran gwaith', yn ogystal ag yn y 'cofnodion am ymgynghoriadau a sgyrsiau'.

3.48 Mae hyn yn golygu nad yw hi'n hawdd bob tro cael synnwyr o'r problemau sy'n wynebu cleientiaid unigol (heb ddarllen y portffolio i gyd) a deall pam fod gweithgareddau penodol yn cael eu cyflawni felly.

3.49 Dadleuwyd y byddai ychwanegu adran benodol i nodi'r rhwystrau yn ei gwneud yn haws i staff CaW godi materion sensitif gyda'r cleientiaid ac y byddai'n lleihau'r risg bod cynghorwyr neu fentoriaid yn dechrau gweithio gyda chleientiaid heb eu bod yn ymwybodol o broblemau penodol. Fel y dywedodd un ymatebwr, 'petai yna ffurflen sy'n gofyn y cwestiwn yn blwmp ac yn blaen, ni fyddai'r cwsmer yn teimlo eu bod yn cael eu beirniadu, a bydden ni’n gallu dweud wrthyn nhw fod y cwestiynau'n rhan o'r broses sy'n gallu ein helpu ni i asesu pa gymorth y mae angen i ni ei roi ar waith'. Dadleuodd rhai ymatebwyr o blaid 'rhestr gyfeirio' o rwystrau posibl fel 'anhwylderau iechyd', 'dibyniaeth ar alcohol/cyffuriau', 'sefyllfaoedd byw' anodd, cyfrifoldebau gofalu, 'dyledion', 'cofnod troseddol', diffyg 'sgiliau sylfaenol' a diffyg 'hyder'. Y teimlad oedd y byddai rhestr gyfeirio'n helpu i 'sbarduno sgyrsiau sy'n anodd eu cychwyn' ac y byddent yn gweithredu fel rhywbeth i atgoffa staff, gan 'nad ydynt yn meddwl gofyn y cwestiynau hyn bob tro'. Roedd dau glwstwr wedi cyflwyno tudalennau ychwanegol at y ddogfen portffolio, a hynny'n benodol er mwyn cofnodi rhwystrau posibl e.e. problemau iechyd meddwl neu gorfforol, materion cam-drin sylweddau, cyfrifoldebau gofal plant ac ati. Roedd un o'r

clystyrau hyn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd am rwystrau ynghyd â gwybodaeth am agweddau eraill ar fywydau cyfranogwyr e.e. lefelau sgiliau, dyheadau a nodau, bywyd cartref ac ati, i greu proffiliau 'Seren Gwaith'[37] ar gyfer cleientiaid. Y bwriad yw ailadrodd yr ymarfer proffilio seren gwaith ar bwyntiau penodol ar siwrnai'r cyfranogwr trwy'r rhaglen er mwyn dangos cynnydd. Roedd y clwstwr arall wedi cyflwyno ail dudalen hefyd er mwyn pennu 'cynllun i oresgyn y rhwystrau', gan gynnwys 'dyddiadau targed' a'r 'deilliannau' a fwriedir.

3.50 Efallai ei bod hi'n werth nodi y gallai casglu gwybodaeth am y rhwystrau y mae cyfranogwyr unigol yn eu hwynebu, dros amser, helpu i feithrin proffil o gyfranogwyr ar draws y rhaglen.

3.51 Roedd hi'n glir o'n hadolygiad o bortffolios nad yw rhai rhwystrau'n dod i'r amlwg nes bod y cyfranogwyr yn gweithio gyda'r cynghorwyr a'r mentoriaid. Mae hyn yn golygu y byddai angen sicrhau bod modd i unrhyw adran am rwystrau yn y portffolio gael ei diweddaru wrth i ddarlun cliriach o sefyllfa'r cyfranogwr unigol ddod i'r amlwg. Bydda angen cadw hyn mewn golwg os bwriedir defnyddio proffiliau am rwystrau i fesur 'cynnydd' fel y mae rhai clystyrau yn bwriadu ei wneud, trwy ddefnyddio 'sêr gwaith'.

3.52 Dywedodd sawl cyfranogwr y gellid gwella defnyddioldeb portffolio'r cyfranogwr trwy ychwanegu adran 'cynllun gweithredu' neu 'bennu nodau'. Er y cydnabuwyd y gall yr adran 'nodau a dyheadau o ran gwaith' sydd eisoes ar gael ddarparu cyfle i nodi uchelgeisiau'r cleientiaid, nid yw'n hyrwyddo trafodaeth am, nac yn cofnodi sut y gellir gwireddu'r uchelgeisiau hyn. Teimlwyd y byddai cynllun gweithredu'n ddefnyddiol wrth bennu'r camau cymedrol ond pwysig ar gyfer y 'tymor byr/hir dymor' a gytunwyd er mwyn goresgyn y rhwystrau a symud y cleientiaid i gyfeiriad cyflogaeth. Eto, awgrymodd y cyfranogwyr y gallai 'rhestr gyfeirio' safonol o gamau posibl, fel 'creu cyfrif UJ', 'paratoi CV cyfoes', 'cyflawni hyfforddiant' neu 'mynychu cyfweliad' fod yn ddefnyddiol, ond y byddai angen caniatáu lle ar gyfer nodi camau mwy personol hefyd, ac 'am i'r rhwystrau a nodwyd ... [gael eu] dileu ar ôl mynd i'r afael â nhw'. Byddai angen i unrhyw ddogfen cynllun gweithredu

[37] Mae'r Seren Gwaith yn un o gyfres o Sêr Deilliant, sef offer a ddyluniwyd i fesur cynnydd y rhai sy'n derbyn gwasanaethau tuag at nodau penodol. Triangle Consulting Scoial Enterprise Limited sydd biau'r offer hyn sydd dan nod masnach, ac maent ar gael i'w defnyddio o dan drwydded.

fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i unrhyw nodau tymor hir a thymor byr esblygu, oherwydd, yn ôl staff y rheng flaen, mae gan gleientiaid CaW dueddiad i newid eu meddyliau. Ynghyd â dogfennau’r cynlluniau gweithredu, awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol rhoi nodyn cryno i'r cleientiaid, a hynny o bosibl ar ffurf cerdyn post, sy'n nodi dau neu dri cham y maent wedi cytuno i'w cyflawni cyn y cyfarfod nesaf. Gwelwyd hyn fel ffordd o gynyddu synnwyr y cyfranogwyr o ddyletswydd ar y naill ochr a'r llall, a chreu ymdeimlad o berchnogaeth dros y broses.

3.53 Dadleuodd cyfranwyr y byddai'r cynlluniau gweithredu'n darparu offeryn i fonitro cynnydd y cyfranogwyr, ac yn hanfodol, y byddai hyn yn caniatáu i'r cyfranogwyr weld eu cynnydd eu hunain. Galwodd nifer fechan o'r ymatebwyr i'r arolwg am ddefnyddio offer fel 'seren cynnydd', 'Asesiad Rickter' neu 'raddfa 1-10' fel ffordd o 'ddangos cynnydd mewn gwahanol feysydd ar ffurf graffeg neu ddarluniau mewn gwahanol feysydd e.e. hyder/lefel hyfforddiant/ meddyliau a theimladau' yn rhan o broses barhaus o roi diagnosis, cynllunio gweithredu ac adolygu. Y teimlad oedd y byddai cynrychiolaeth 'weledol' o gynnydd yn ddefnyddiol wrth ganiatáu i gyfranogwyr 'weld ar gip y cynnydd y maent yn ei wneud yn hytrach na darllen amdanynt eu hunain yn ysgrifenedig'.

3.54 Galwodd nifer o staff cyflawni'r rheng flaen am 'fersiwn electronig' o bortffolio'r cyfranogwyr. Roedd rhai yn teimlo bod system bapur yn hen ffasiwn, a dywedodd sawl un o'r cyfranogwyr bod llenwi ffurflenni â llaw ac ysgrifennu nodiadau hir am drafodaethau gyda chleientiaid mewn llawysgrifen yn cymryd amser maith. Y ddadl oedd bod llawysgrifen mentoriaid/cynghorwyr unigol 'yn gallu bod yn anodd i rai cyfranogwyr ei darllen' (yn enwedig y rhai sydd â phroblemau llythrennedd neu namau gweledol), a bod portffolios sy'n cael eu hysgrifennu â llaw 'yn gallu mynd yn flêr yn gyflym'. Roedd yna ddadl hefyd 'y byddai'n haws ac yn gynt teipio nodiadau cleientiaid', y byddai ffeiliau electronig yn cymryd llai o amser i'w trefnu a'u rheoli, ac y byddai'n werthfawr cadw cofnod wrth gefn o'r portffolios. Fel y dywedodd un cyfranwr, 'dyw e ddim yn edrych yn grêt yn llawn cywiriadau, ac mae angen mynd nôl i ddarllen y nodiadau i wirio'r deilliannau, yn hytrach na bod y peth ar y cyfrifiadur ac yn hawdd ei ffeindio'.

3.55 Ymhlith y dadleuon eraill a gyflwynwyd o blaid portffolios electronig, roedd y ffaith y byddent yn cael gwared ar yr angen am sganio cynifer o ddogfennau, y byddent yn cael gwared ar y risg sydd ynghlwm wrth weithwyr yn y gymuned yn cario dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif, ac y gallent fwydo i mewn i gronfa ddata o gyfranogwyr, gan ganiatáu ar gyfer cyflawni dadansoddiad soffistigedig o nodweddion, cynnydd a chyflawniadau cleientiaid.

3.56 Wedi dweud hynny, cydnabuwyd bod ysgrifennu nodiadau mewn portffolios â llaw yn fwy personol na 'thapio' ar gyfrifiadur wrth weithio gyda chleientiaid, ac roedd rhai yn gwerthfawrogi bod â rhywbeth 'ffisegol' neu ddiriaethol i weithio gydag e. Nododd y cyfranogwyr hefyd bod problemau wrth gyrchu'r rhyngrwyd mewn rhai lleoliadau yn y gymuned (ac yn achos y cynghorwyr, mewn lawer o safleoedd CG), yn golygu y byddai angen troi at fersiynau papur o'r dogfennau portffolio o hyd.

3.57 Ar lefel fwy ymarferol, awgrymwyd y gellid gwella portffolio'r cyfranogwyr trwy:

- ychwanegu blwch i nodi teitlau cwrteisi'r cyfranogwyr, yn benodol am fod angen hyn ar gyfer cronfa ddata cyfranogwyr CaW
- dileu'r angen am 'ddyblygu' gwybodaeth a gofnodwyd ar y ffurflen gofrestru ac yn y portffolio o gyfranogwyr
- ehangu rhai adrannau er mwyn darparu ar gyfer llawysgrifen cynghorwyr/ mentoriaid unigol ac ar gyfer faint o wybodaeth y mae angen ei chofnodi mewn adrannau penodol e.e. 'cymwysterau/cyrsiau a fynychwyd'
- ychwanegu rhestr gyfeirio o'r rhwystrau cyffredin y mae'r cyfranogwyr yn eu hwynebu (gweler uchod) a'r deilliannau tymor byr i ganolig nodweddiadol y mae angen i gyfranogwyr eu cyflawni (gweler uchod), a hynny hefyd wrth ganiatáu ar gyfer clustnodi rhwystrau a deilliannau mwy unigol. Dadleuwyd hefyd y byddai rhestrau cyfeirio'n golygu mwy o 'safoni' wrth lenwi'r portffolios
- ychwanegu 'adran dyddiadur y gallai rhai cyfranogwyr ei llenwi a myfyrio arni'
- tynnu'r holl ddogfennaeth angenrheidiol ynghyd mewn 'cwta un llyfryn' heb 'fod angen llwyth o wahanol atodiadau a stensiliau testun'.

3.58 Galwodd y cyfranogwyr hefyd am ddarparu esiampl o 'bortffolio perffaith' ar gyfer pob categori o gleientiaid, a hynny fel bod gan staff y rheng flaen well syniad o beth y dylent fod yn ymdrechu i'w efelychu.

3.59 Yn olaf, er bod rhai unigolion yn cydnabod gwerth y cyfranogwyr yn llofnodi'r cofnod o sgyrsiau ac ymgynghoriadau ar ddiwedd pob cyfarfod, roedd yr arfer hwn yn feichus i lawer[38]. Roedd un cyfranogwr yn teimlo ei bod yn ddadleuol a oedd y cyfranogwyr yn darllen y nodiadau a ysgrifennwyd mewn gwirionedd mewn rhai achosion, a hynny am fod anawsterau darllen ganddynt.

**Cytundebau rhannu data**

3.60 Adroddir data am y cyfranogwyr a'r deilliannau y maent yn eu cyflawni ar daenlen safonol a ddarparwyd gan WEFO. Mae gofyn i bob CCA a'r DWP lenwi a chyflwyno'r daenlen i Lywodraeth Cymru bob chwarter. Wedyn mae Llywodraeth Cymru'n coladu'r data a gyflwynwyd, ac yn dileu cofnodion dyblyg gan ddefnyddio'r rhif yswiriant gwladol fel nod adnabod ar gyfer pob cyfranogwr.

3.61 Mae'r Canllawiau Gweithredol yn nodi'r glir 'y dylai'r holl staff sicrhau eu bod yn ymwybodol a'u bod yn cydymffurfio â phrosesau ac arferion eu sefydliadau eu hunain o ran Diogelu Data bob amser'[39]. Mewn perthynas â'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos cymhwyster i gael cymorth CaW, mae'r Canllawiau Gweithredol yn nodi'n glir 'oherwydd rheoliadau Diogelu Data; rhaid i geisiadau am 'luniau sgrin' sy'n nodi manylion personol cyfranogwyr (enw, cyfeiriad, rhif Yswiriant Gwladol, dyddiad geni, budd-daliadau sy'n cael eu hawlio, hyd eu diweithdra) ddod yn uniongyrchol gan y cyfranogwyr, a rhaid darparu'r wybodaeth yn uniongyrchol i'r cyfranogwyr'[40] hefyd.

3.62 Mae hi'n glir bod methu â chyrchu cofnodion cleientiaid y DWP wedi bod yn destun rhwystredigaeth ddifrifol i'r gweithwyr brysbennu a'r mentoriaid, ac roedd sawl un yn teimlo bod y cynghorwyr yn eu clystyrau wedi bod yn llai na chymwynasgar o ran defnyddio cofnodion y DWP i glustnodi unigolion a allai elwa ar gymorth CaW. Yn wir, roedd rhai o'r gweithwyr brysbennu a'r mentoriaid yn teimlo bod y cynghorwyr yn eu hardaloedd wedi bod yn fwriadol o lesteiriol, gan fethu hyd yn oed â throsglwyddo gwybodaeth yr oedd

[38] Nodwyd mai un o ofynion WEFO yw hyn ar hyn o bryd.
[39] Llywodraeth Cymru, (2016) Canllawiau Gweithredol Cymunedau am Waith F1.0, t.16
[40] Llywodraeth Cymru, (2016) Canllawiau Gweithredol Cymunedau am Waith F1.0, t.21

ganddynt y rhyddid i'w datgelu. Wedi dweud hynny, roedd hi'n glir bod yr analllu i rannu gwybodaeth am gleientiaid yn agored o fewn timau CaW yn destun poendod i’r cynghorwyr a’r rheolwyr cyflawni hefyd.

3.63 Cyfeiriodd staff y rheng flaen a ymatebodd i'n harolwg at yr angen am gronfa ddata ganolog ar gyfer CaW, a oedd yn tynnu ynghyd wybodaeth o systemau DWP a CCA. Y teimlad oedd y byddai hyn yn helpu i sicrhau cysondeb yn nulliau'r gweithwyr brysbennu, y mentoriaid a'r cynghorwyr o fynd ati, ac y byddai'n cynyddu unffurfiaeth o ran y dulliau o lenwi a rheoli portffolios y cyfranogwyr. Teimlwyd hefyd y byddai cronfa ddata o'r fath yn cynorthwyo'r broses o reoli siwrneiau cleientiaid, ac yn symleiddio rheolaeth y rhaglen.

**Y trefniadau monitro**

3.64 Mae'r Canllawiau Gweithredol yn datgan mai amcanion y gwaith monitro yw 'mesur effeithlonrwydd y rhaglen' wrth gyflawni nodau Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3, a 'sicrhau bod y gwariant yn cael ei wneud yn unol â chynllun busnes y rhaglen ac mewn cydymffurfiaeth â rheoliadau Ewrop a Llywodraeth Cymru'[41].

3.65 Pedwar o reolwyr cyfrif o Lywodraeth Cymru sy’n bennaf gyfrifol am fonitro gweithrediad y rhaglen, ac mae gan bob un ohonynt drosolwg dros glystyrau penodol. Mae rôl y rheolwyr cyfrif yn cynnwys 'ymweliadau rheolaidd' â’r clystyrau i gwrdd â 'staff y CCA a'r CBG fel y gellir cael dealltwriaeth gynhwysfawr am gyrhaeddiad ar lefel leol'[42]. Mae'r rheolwyr cyfrif yn gyfrifol hefyd am archwilio cofnodion 'i sicrhau bod y systemau ar gyfer cadarnhau cymhwyster a diwydrwydd dyledus yn ddigon cadarn' a monitro 'perfformiad yn erbyn targedau'.

3.66 Mae'r Canllawiau yn nodi'n benodol ‘y bydd gan weithgarwch monitro ar lefel clwstwr unigol ffocws fwy cadarn ar y berthynas ac ar reoli perfformiad y Timau Cyflawni Lleol'[43]. Yn ogystal, mae'r Canllawiau Gweithredol yn datgan y bydd 'rheolwyr cyflawni DWP yn gyfrifol am gyflawni archwiliadau monitro ar gyfer eu cynghorwyr o fewn y Timau Cyflawni Lleol’[44].

[41] Llywodraeth Cymru, (2016) Canllawiau Gweithredol Cymunedau am Waith V1.0 t.50
[42] Llywodraeth Cymru, (2016) Canllawiau Gweithredol Cymunedau am Waith V1.0 t.51
[43] Llywodraeth Cymru, (2016) Canllawiau Gweithredol Cymunedau am Waith V1.0 t.51, eitem 3
[44] Llywodraeth Cymru, (2016) Canllawiau Gweithredol Cymunedau am Waith V1.0 t.51, eitem 7

3.67 Dywedodd y rhan fwyaf o'r rheolwyr CCA a gafodd gyfweliadau fod ganddynt berthynas dda â'u rheolwr cyfrif yn Llywodraeth Cymru. Dywedwyd bod y Rheolwyr Cyfrif yn ymatebol ac yn gymwynasgar, gydag un cyfrannwr yn dweud 'nad oes un cwestiwn sy'n rhy ddibwys'. Yn yr un modd, dywedodd dros 44 y cant o staff y rheng flaen a ymatebodd i'n harolwg (70) eu bod yn teimlo bod rheolwyr cyfrif Llywodraeth Cymru'n barod iawn eu cymwynas a dywedodd bron i 39 y cant (62) eu bod yn weddol barod eu cymwynas. Roedd yr ychydig ymatebwyr a ddywedodd nad oedd y Rheolwyr Cyfrif yn barod eu cymwynas yn priodoli hyn i anghysonder yn y cyngor neu'r wybodaeth a roddir, a'r ffaith eu bod yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y Rheolwr Cyfrif perthnasol pan oedd angen.

3.68 Roedd y cyfranwyr yn canmol y gefnogaeth a gawsant gan staff cydymffurfiaeth a 'hawliadau' Llywodraeth Cymru hefyd, gan ddweud eu bod 'hawdd iawn mynd atynt' ac yn agored i newid pan fo hynny'n ymarferol.

3.69 Roedd lefel y cysylltiad rhwng rheolwyr y CCA â'r Rheolwyr Cyfrif yn amrywio fodd bynnag, gyda nifer ohonynt yn dweud bod amlder eu cyfarfodydd wedi dirywio dros amser. Priodolwyd hyn i'r ffaith fod yr angen am fewnbwn y Rheolwyr Cyfrif yn lleihau wrth i'r rhaglen fwrw gwreiddiau yn eu hardaloedd, ac am fod beichiau gwaith y Rheolwyr Cyfrif wedi cynyddu wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno i fwy a mwy o glystyrau.

3.70 Dadleuodd nifer fechan o gyfranwyr bod angen mwy o eglurder o ran natur rôl y Rheolwr Cyfrif, gan gyfeirio'n benodol at i ba raddau y dylent (neu na ddylent) chwarae rhan yn 'ochr weithredol pethau' o fewn y clystyrau. Awgrymwyd hefyd ei bod hi'n bosibl bod lefel awdurdod y Rheolwyr Cyfrif i wneud penderfyniadau'n annigonol, gan arwain at oedi wrth iddynt gyfeirio materion nôl at eu rheolwyr llinell.

**Sgiliau staff**

3.71 Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi dangos pwysigrwydd cael 'cynghorwyr personol medrus ac ymroddgar' sy'n gallu 'ymchwilio a dod o hyd i gyfleoedd' 'herio disgwyliadau' a datblygu 'cynlluniau gweithredu realistaidd' gyda chleientiaid er mwyn eu symud i gyfeiriad bod yn barod ar gyfer y byd

gwaith[45]. Wrth sefydlu CaW, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru samplau o ddisgrifiadau/manylebau swyddi a oedd yn pennu'r mathau o brofiad, gwybodaeth a sgiliau y byddai eu hangen ar weithwyr brysbennu, ac ar fentoriaid ieuenctid ac oedolion. Yn yr un modd, paratôdd y DWP fanyleb rôl safonol yn seiliedig ar hyfedredd y cynghorwyr.

3.72 Ffocws weinyddol sydd i'r fanyleb swydd ar gyfer gweithwyr brysbennu i raddau helaeth, gyda phwyslais ar gyfathrebu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid, gwasanaethau i gwsmeriaid, trefnu a rheoli perfformiad.

3.73 Ym manylebau swyddi'r mentoriaid, mae'r pwyslais ar faterion fel deall anghenion y grwpiau targed o gleientiaid, deall materion cyflogaeth a budd-daliadau (gan gynnwys goblygiadau'r diwygiadau lles), gweithio gyda chydweithwyr a gydag asiantaethau cymorth statudol a rhai'r trydydd sector, ymgysylltu a gweithio gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, datblygu cynlluniau gweithredu, ac wrth gwrs, cynorthwyo a mentora. Mae themâu tebyg ym manylebau rôl y cynghorydd, er eu bod wedi eu cyflwyno mewn fformat gwahanol.

3.74 Wrth hysbysebu swyddi'n lleol, mae CCA wedi mabwysiadu'r manylebau swyddi sampl a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i raddau helaeth, gan eu teilwra i ryw raddau i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol, ac â safonau eu sefydliad nhw. Gellir tybio felly, (fel oedd yn wir yn achos y theori newid) bod gan y gweithwyr brysbennu a'r mentoriaid a gyflogir y profiad, y sgiliau a'r wybodaeth y cyfeirir atynt uchod. Yn yr un modd, gellir disgwyl i'r cynghorwyr fod â'r hyfedredd a amlinellir ym manyleb safonol DWP ar gyfer y rôl honno.

3.75 Mae pob un o'r manylebau swyddi sampl a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru'n nodi gweithio ‘fel tîm integredig gyda'r Mentor Ieuenctid, y Cynghorydd Cyflogaeth Cymunedol a Chyflogaeth i Rieni, y gweithiwr Cymorth Brysbennu a thîm ehangach y Clwstwr CG' fel un o brif dasgau deiliad y swydd. Yn yr un modd, mae manyleb rôl cynghorydd y DWP yn nodi ymysg cyfrifoldebau'r cynghorydd 'cydweithio'n agos â Mentoriaid ac â pherson Brysbennu [CaW] er mwyn sicrhau bod y cwsmer yn cael cyngor/ mentora gan y person mwyaf priodol'. Mae'n nodi hefyd bod disgwyl i'r


[45] Tusting, K., Barton, D. (2007), Programmes for unemployed people since the 1970s: the changing place of literacy, language and numeracy, National Research and Development Centre for Adult Literacy and Numeracy

cynghorwyr 'wneud cyfraniadau cadarnhaol mewn cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd brysbennu, a dangos parodrwydd i gefnogi eu cydweithwyr' yn ogystal â 'gweithio ar y cyd â chydweithwyr yn y tîm er mwyn mwyafu effeithiolrwydd y tîm a'r Clwstwr wrth gynorthwyo cwsmeriaid'. Mae manyleb rôl y cynghorydd yn clustnodi 'tystiolaeth o waith tîm' fel mesur o berfformiad yr unigolyn, ynghyd â 'thargedau ar sail deilliannau o ran swyddi'.

3.76 Gofynnwyd i staff y rheng flaen a oedd yn ymateb i'n harolwg ddewis hyd at bum maes sgiliau oedd bwysicaf i'w galluogi i wneud eu gwaith yn dda. Mae Ffigur 3.3 yn dangos mai'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol â chleientiaid (gydag 86 y cant o'r ymatebwyr [139] yn dewis yr opsiwn hwn) a'r gallu i ddeall y rhwystrau i gyflogaeth y mae cleientiaid yn eu hwynebu (gyda 69 y cant [111] yn dewis yr opsiwn hwn) oedd bwysicaf yn eu barn nhw. Clustnododd 48 y cant o'r ymatebwyr (77) y gallu i helpu unigolion i bennu nodau personol realistaidd ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu fel sgil allweddol ar gyfer staff CaW, ac roedd 37 y cant (60) yn teimlo bod y gallu i herio ac ysgogi cleientiaid ymysg y sgiliau pwysicaf.

3.77 Roedd tua 45 y cant o'r ymatebwyr (72) yn credu ei bod hi'n bwysig bod gan staff CaW wybodaeth dda am wasanaethau cymorth lleol, a chlustnododd 32 y cant (51) y gallu i gydweithredu ar draws gwahanol sefydliadau (er mwyn cyrchu cymorth ar gyfer cleientiaid) fel sgil pwysig.

**Ffigur 3.3: Y sgiliau yr ystyrir eu bod bwysicaf i staff CaW er mwyn cyflawni eu gwaith yn dda** ***(n=161)***



3.78 O ystyried natur eu rôl, yn ôl y fanyleb swydd sampl, nid yw'n syndod bod y gweithwyr brysbennu, ar y cyfan, yn fwy tebygol o lawer na staff cyflawni eraill y rheng flaen, o glustnodi sgiliau trefnu a gweinyddu ymysg y rhai sydd bwysicaf iddyn nhw (56 y cant o gymharu ag 20 y cant). Roedden nhw'n fwy tebygol hefyd o glustnodi gwybodaeth am wasanaethau cymorth (67 y cant o gymharu â 45 y cant), a gweithio o'u menter eu hunain (41 y cant o gymharu â 31 y cant), fel rhywbeth oedd o bwys penodol i'w rôl. O ystyried mai cynorthwyo cynghorwyr a mentoriaid i weithio gyda chleientiaid yw eu rôl, efallai ei bod hi'n syndod bod mwy na 22 y cant o'r gweithwyr brysbennu (6) yn teimlo bod y gallu i helpu unigolion i bennu nodau personol realistaidd/ datblygu cynlluniau gweithredu gydag un o'r pump sgil pwysicaf yn eu gwaith.

3.79 Fodd bynnag, er gwaethaf y pwynt diwethaf yma, mae canfyddiadau'r arolwg hwn yn awgrymu bod y manylebau swydd a ddefnyddir i recriwtio staff ar gyfer y rhaglen wedi dal hanfodion y set o sgiliau y mae'r bobl hynny sy'n cyflawni'r swyddi eu hunain yn credu sydd eu hangen arnynt. At hynny, cadarnhaodd ein trafodaethau â'r timau clwstwr bod y bobl gywir wedi cael eu penodi i'r gwahanol rolau ar y cyfan. Yn y cyd-destun hwn, dywedodd sawl un o'r cyfranwyr bod y sgiliau sydd eu hangen ar gynghorwyr, mentoriaid oedolion a mentoriaid ieuenctid yn debyg iawn, ac mai’r pwyslais sy'n wahanol rhyngddynt yn hytrach na'r sylwedd. O ofyn iddynt pa sgiliau oedd yn bwysig i'r rolau hyn yn eu barn nhw (heb opsiynau fel a oedd yn wir am yr arolwg), cyfeiriodd y cyfranwyr at y mathau o sgiliau a drafodwyd uchod, ond soniwyd yn helaeth hefyd am bwysigrwydd sgiliau meddal a nodweddion personol, fel:

- sgiliau rhyngbersonol: bod yn hawdd siarad â nhw, empathi, y gallu i feithrin perthynas, y gallu i ennyn hyder cleientiaid, amynedd, natur anfeirniadol
- sgiliau cyfathrebu: sgiliau gwrando ymarferol, y gallu i siarad â phobl ar eu lefel eu hunain, defnydd priodol o iaith, y gallu i gynnal dialog, y gallu i roi adborth adeiladol
- gwytnwch: dycnwch, hyblygrwydd, y gallu i fod yn 'groendew', cadernid, y gallu i'ch cymell eich hun
- creadigrwydd: agwedd ffres, ffocws ar atebion, natur reddfol, dyfeisgarwch
- uniondeb: dymuniad go iawn i helpu cleientiaid, gonestrwydd

- ysbrydoli pobl: darbwyllo, annog, ‘hyrwyddo’, ysgogi, magu hyder, hyfforddi a mentora
- chwaraewr tîm: rhwydweithio ag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn dod o hyd i atebion, rhannu
- trefnus: rheoli eich amser eich hun, aml-dasgio, llygad da am fanion.


3.80 Mae hi'n werth nodi hefyd bod sawl cyfranogwr wedi dweud bod profiad o weithio mewn amgylchedd gwaith ieuenctid o'r blaen yn werthfawr dros ben i fentoriaid ieuenctid, a hynny am ei bod yn eu taclu â'r ddealltwriaeth, y sgiliau a'r iaith i gysylltu pobl ifanc mewn ffordd gredadwy sydd heb fod yn feirniadol. Dywedwyd bod ar fentoriaid oedolion angen ‘profiadau bywyd’ er mwyn sicrhau bod ganddynt y 'ddirnadaeth am fywydau pobl' sydd ei hangen arnynt i wneud eu gwaith yn dda. Roedd rhai yn teimlo bod profiad o waith cymunedol yn helpu'r mentoriaid hefyd, o ran ei bod yn rhoi dealltwriaeth iddynt am rwydweithiau lleol a sut y mae'r rhain yn gweithio.

3.81 Er yr ystyriwyd bod gan y bobl sydd wedi cael eu penodi i dimau rheng flaen CaW y sgiliau a'r nodweddion cywir yn gyffredinol, nid yw hynny'n golygu bod ganddynt yr holl sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol, a gwahoddwyd y rhai a ymatebodd i'r arolwg i ddewis hyd at bump sgil neu faes gwybodaeth lle byddent yn gwerthfawrogi hyfforddiant neu'r cyfle am ddatblygiad personol pellach.

3.82 Mae Ffigur 3.4 yn dangos y byddai'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi hyfforddiant i gyfoethogi eu gwybodaeth yn hytrach na'u sgiliau ynddynt eu hunain, gyda 57 y cant (92) yn dweud y byddai'n ddefnyddiol iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth am fudd-daliadau lles, a 32 y cant (52) yn dweud y byddent yn hoffi gwybod mwy am farchnadoedd llafur lleol. Nododd un unigolyn bod 'gwybodaeth am y farchnad lafur leol yn hanfodol, ac y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu hyn yn fwy cyson mewn perthynas â’r sectorau lle mae cyfleoedd gwaith yn cynyddu/gostwng'. Cyfeiriodd un ymatebwr yn unig yn benodol at 'Bartneriaethau Dysgu Rhanbarthol' yn y cyswllt hwn, gan awgrymu bod ymwybyddiaeth o'r partneriaethau hyn fel ffynhonnell gwybodaeth am y farchnad lafur yn gyfyngedig ymysg y staff cyflawni. Er hynny, dywedodd mwyafrif sylweddol (86 y cant [121]) o'r ymatebwyr eu bod yn wybodus iawn neu'n gweddol wybodus am y sgiliau a'r nodweddion y mae

cyflogwyr yn chwilio amdanynt yn eu cyflogeion, gyda chwta 11 y cant (15) yn dweud nad oedden nhw'n teimlo'n wybodus iawn yn hynny o beth.

**Ffigur 3.4: Meysydd sgiliau/gwybodaeth lle byddai staff CaW yn gwerthfawrogi hyfforddiant fwyaf** ***(n=161)***




3.83 Clustnododd rhyw un o bob pump o'r ymatebwyr hyfforddiant sgiliau meddal mewn tri maes fel rhywbeth y byddent yn ei werthfawrogi, gyda 21 y cant (34) yn dweud yr hoffent gael hyfforddiant mewn technegau arferion myfyrio, 19 y cant (30) yn dweud yr hoffent gael hyfforddiant mewn sgiliau mentora a 18 y cant (29) yn dweud y byddai hyfforddiant ar asesu anghenion cleientiaid o ran cymorth yn ddefnyddiol.

3.84 Clustnododd rhyw 17 y cant (28) o'r ymatebwyr sgiliau yn y Gymraeg, sgiliau digidol/TG ac ymwybyddiaeth am amrywiaeth a diwylliant fel meysydd lle byddent yn gwerthfawrogi hyfforddiant. Cyfeiriodd ymatebwyr unigol at raglenni TG penodol yr hoffent ddysgu rhagor yn eu cylch, er enghraifft 'TRIM; Egress ac Iproc'[46].

3.85 Roedd hi'n glir o'n trafodaethau wyneb yn wyneb gyda thimau CaW bod staff y rheng flaen eisoes yn cael tipyn sylweddol o hyfforddiant, er y mae'n

[46] Systemau rheoli dogfennau digidol a systemau trosglwyddo data diogel yw'r rhain

ymddangos bod y cynghorwyr yn cael tipyn yn fwy o hyfforddiant na'r mentoriaid a'r gweithwyr brysbennu. Mae hyn am fod y cynghorwyr yn gallu cyrchu 'llwybr' hyfforddiant y DWP, sy'n cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau, y mae llawer ohonynt (er nad pob un ohonynt) yn berthnasol i CaW e.e. 'rheoli ymddygiad heriol', 'gweithio gyda phobl ag anhwylder iechyd neu anabledd' a 'chysylltu cwsmeriaid'. Yn wir, awgrymodd rhai o'r cyfranwyr y gallai fod yn ddefnyddiol ymestyn elfennau o hyfforddiant 'llwybr' y DWP i staff y CCA. Awgrymodd un unigolyn y gallai teitlau'r llwybr fod yn sylfaen ar gyfer 'rhywfaint o hyfforddiant ar y cyd', yn rhannol i sbarduno dealltwriaeth gyffredin am sut y dylai CaW weithio, ac yn rhannol i feithrin ymdeimlad o berthyn i'r un tîm ymysg staff y clwstwr.

3.86 Dangosodd ein trafodaethau â'r timau clwstwr bod yna ddymuniad i gael gwybodaeth am fudd-daliadau lles hefyd (gan gynnwys goblygiadau'r diwygiadau sydd ar y gweill) ac am farchnadoedd llafur lleol. Dywedodd y cyfranwyr y byddent yn hoffi cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa o ran y gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardaloedd. Ymysg y meysydd eraill lle dywedodd staff CaW y byddent yn gwerthfawrogi cael hyfforddiant, roedd:

- ymwybyddiaeth am iechyd meddwl a hunanladdiad
- ymwybyddiaeth am gam-drin cyffuriau ac alcohol
- adnabod arwyddion camdriniaeth ddomestig
- adnabod arwyddion anhwylderau fel dyslecsia, dyscalcwlia ac ati
- hanfodion cynghori am faterion ariannol/dyledion
- sgiliau cwnsela, er i lond llaw o gyfranwyr ddweud eu bod eisoes yn cael hyfforddiant o'r math yma, gan gynnwys cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau ffurfiol e.e. Diploma mewn Cynghori a Rhoi Arweiniad Lefel 4
- ymwybyddiaeth ofalgar[47].

[47] Techneg i helpu pobl i feddwl am beth sy'n digwydd yn eu bywydau, ac i ddelio'n fwy effeithiol â phwysau bywyd trwy hynny yw ymwybyddiaeth ofalgar.

3.87 Dywedodd nifer o'r cyfranwyr y byddent yn gwerthfawrogi cael hyfforddiant ar agweddau ar reolaeth a gweinyddiaeth y rhaglen CaW hefyd. Cyfeiriwyd yn benodol at hyfforddiant a fyddai'n mynd i'r afael â:

- sut y dylai'r broses brysbennu weithio
- sut i ddefnyddio dogfennaeth y rhaglen, gan gynnwys 'portffolios' a 'chynlluniau gweithredu'
- sut i reoli achosion cleientiaid
- sut i ddefnyddio'r cyfryngau digidol i gysylltu a chyfathrebu â chleientiaid
- sut i farchnata CaW gan gynnwys trwy'r cyfryngau digidol
- sut i ddelio â data
- sut i reoli perfformiad.

**Adnoddau**

3.88 Cyflawnwyd ymarfer pennu cwmpas i glustnodi lefel yr angen o fewn y clystyrau ac i fwydo dyraniad yr adnoddau ar sail hynny. Fodd bynnag, dyrannwyd lefelau tebyg o adnoddau i'r mwyafrif o'r clystyrau yn y pen-draw. Symleiddiodd hyn ddyluniad y rhaglen, ond mae'n golygu bod gan bob ardal yr un targedau a thimau o'r un faint, er bod y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu'n wahanol o ran eu maint a'u hanghenion.

3.89 Nid yw ein gwaith ymchwil hyd yn hyn wedi awgrymu bod lefel gyffredinol yr adnoddau a ddyrannwyd i unrhyw glwstwr yn annigonol. Gallai hynny fod am fod y galw am wasanaethau CaW wedi bod yn is na'r disgwyl yn y mwyafrif o ardaloedd. Fodd bynnag, roedd y staff sy'n gweithio mewn rhai clystyrau, yn gwasanaethu'r hyn roedden nhw'n ei deimlo eu bod yn ardaloedd 'anoddach' oherwydd ffactorau fel natur wledig a/neu wendidau'r marchnadoedd llafur lleol, yn teimlo ei bod hi'n annheg bod ganddynt yr un targedau ag ardaloedd eraill nad oeddent yn wynebu'r un sialensiau.

3.90 Fodd bynnag, mae'r cyfranwyr wedi nodi nad ydynt yn teimlo bod y cyllidebau a ddyrannwyd (ar sail 'costau symlach') bob tro'n ddigonol i dalu costau llety staff CaW.

# 4. Y dull a ddefnyddiwyd i roi CaW ar waith

4.1 Pennodd Adroddiad Gwerthuso Cam 1 theori newid a model rhesymeg ar gyfer CaW gan glustnodi nifer o 'sbardunau' â'r nod o ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn gwireddu deilliannau dymunol y rhaglen. Mae'r bennod hon yn tynnu ar y theori newid a bennwyd yn Adroddiad Rhan 1, ac yn ystyried pob sbardun newid a glustnodwyd yn eu tro, ynghyd â'r rhagdybiaethau a arweiniodd at eu mabwysiadu. Cyflwynir y bennod mewn deg rhan fel a ganlyn:

- Alinio CaW â Chymunedau yn Gyntaf
- Cyfeirio
- Lleoliadau llai ffurfiol y mae pobl yn ymddiried ynddynt
- Cymorth holistig ac integredig
- Integreiddio timau CaW
- Brysbennu a Phennu Beichiau Achosion
- Cynllunio gweithredu a chymorth ymgynghorol
- Hyfforddiant
- Y Gronfa Rwystrau
- Ymadael â'r rhaglen.

**Alinio CaW â Chymunedau yn Gyntaf**

4.2 Rhagwelwyd y byddai CaW yn adeiladu ar y sylfeini a oedd wedi cael eu gosod gan CG, gan elwa ar seilwaith sy'n bodoli eisoes[48], a manteisio ar berthnasau sefydledig[49] er mwyn darparu pecynnau holistig o gymorth i ddiwallu anghenion cyfranogwyr unigol. Gwelwyd CG fel ffordd o roi 'delwedd fwy meddal' i'r hyn sydd, yn ei hanfod, yn rhaglen gyflogaeth â'r nod o gyflawni deilliannau caled. Rhagwelwyd hefyd y byddai 'Cynlluniau manwl ar gyfer Cynnwys y Gymuned' wedi eu datblygu gan glystyrau CG, ynghyd â

[48] 'Caiff CaW gyrchu eiddo yn y gymuned ar gyfer staff heb unrhyw gost' – Cynllun Busnes CaW WWV Rh1 f.1.0 t49
[49] 'Mae timau CG yn frand sydd wedi hen ennill eu plwyf mewn cymunedau' - Cynllun Busnes CaW WWV Rh1 f.1.0 t49

'chyllideb ategol gan Lywodraeth Cymru'[50], yn darparu man cychwyn i CaW wrth gysylltu'r cyfranogwyr targed.

4.3 Mae ein gwaith ymchwil yn awgrymu bod yna rywfaint o amrywiaeth o ran i ba raddau y mae CaW yn darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd yn y clystyrau CG. Er mwyn sicrhau aliniad, mae angen i CaW integreiddio'r tair rhan, sef: Staff DWP (cynghorwyr a rheolwyr cyflawni), Staff CaW CCA (gweithwyr brysbennu a mentoriaid) a staff CG CCA (fel rheolwyr clwstwr a swyddogion cyflogaeth, hyfforddiant a chynhwysiant ariannol). Ar y cyfan, mae ein gwaith maes yn awgrymu bod staff CaW a CG y CCA wedi integreiddio'n dda, gan alluogi aliniad eu gwaith. Fodd bynnag, fel y byddwn yn ei drafod ymhellach isod, yn aml mae integreiddiad staff y DWP wedi bod yn wannach, sy'n golygu bod aliniad cyffredinol CaW wedi bod yn wannach.

4.4 Dywedodd ychydig bach dros draean (35 y cant) o'r ymatebwyr i'n harolwg o staff cyflawni bod CaW yn rhan annatod o Gymunedau'n Gyntaf, a dywedodd 36 y cant pellach ei bod yn rhywbeth oedd ar wahân i Gymunedau yn Gyntaf ond a oedd yn alinio'n agos ag ef. Dywedodd ychydig yn llai nag un o bob pump (19 y cant) o'r ymatebwyr bod CaW yn rhywbeth ar wahân i Gymunedau yn Gyntaf, a oedd ond yn alinio â hi'n rhannol, a dywedodd naw y cant o'r ymatebwyr bod y ddwy raglen yn gweithredu'n llwyr ar wahân i'w gilydd. Roedd yr ymatebwyr a oedd yng nghyflogaeth y CCA (rheolwyr clwstwr, gweithwyr brysbennu a mentoriaid) yn fwy tebygol o lawer (ar lefel o 79 y cant) o ystyried CaW fel rhan annatod o Gymunedau yn Gyntaf, neu fel rhywbeth sy'n alinio'n agos ag ef, na'r cynghorwyr sydd yng nghyflogaeth y DWP (sef 53 y cant). Bu'r gwahaniaeth safbwyntiau yma'n amlwg iawn yn ein gwaith maes hefyd, er bod y trafodaethau â staff y rheng flaen yn awgrymu bod safbwyntiau rheolwyr cyflawni a chynghorwyr y DWP yn amrywio o un clwstwr i'r llall.

4.5 Cododd cyfathrebu agored a gonest fel thema dro ar ôl wrth i ni ofyn i'r cyfranwyr glustnodi'r ffactorau sy'n hwyluso cydweithio agos rhwng staff rheng flaen CaW a thimau CG. Nododd y cyfranwyr bod y pethau canlynol yn hwyluso cyfathrebu effeithiol:

[50] Cynllun Busnes CaW WWV Rh1 f.1.0 t49

- Cydleoli: 'mae gweithio yn yr un swyddfeydd yn hwyluso cysylltiadau gwaith agos' ac 'mae rhannu'r un lle wedi meithrin cysylltiadau agos'
- Rhannu’r un ffocws ar fuddiannau'r cleientiaid: ‘gweithio fel tîm i helpu'r cwsmer, yn hytrach na gweithio ar eich targedau unigol’ ac rydyn ni'n 'cydweithio'n agos â'n gilydd er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer ein cleientiaid'
- Cyfarfodydd cyson ar y cyd, gan gynnwys trwy'r broses brysbennu: ‘mae tîm CaW yn chwarae rhan yn holl gyfarfodydd tîm CG ac mae CG yn chwarae rhan yng nghyfarfodydd brysbennu CaW’ ac mae hi'n 'rhan o'n gwaith bob dydd... mae CG, CaW ac Esgyn oll yn rhan o'r broses brysbennu ac yn rhannu gwybodaeth am y cyfranogwyr'
- Croesgyfeirio rhwng y ddwy raglen (CG a CaW): ‘rydyn ni'n cyfeirio at eu rhaglen nhw ac maen nhw'n cyfeirio at ein un ni’ a ‘chyfeiriadau agored a pharodrwydd i rannu gwybodaeth am gleientiaid os oes yna deimlad bod y naill neu'r llall o'r prosiectau mewn gwell sefyllfa i gynnig cymorth’
- Y gallu i gyrchu hyfforddiant a'r cymorth arall sydd ar gael trwy CG yn rhwydd: 'Mae gan Gymunedau yn Gyntaf gyfleoedd hyfforddi rhagorol ar gyfer ein cyfranogwyr', 'CG sy'n darparu ein hyfforddiant mewnol, ac mae'r cleientiaid yn hoffi hynny' ac mae 'defnyddio ... elfennau hyfforddiant a chymorth ariannol y rhaglen CG yn hanfodol i lwyddiant rhaglen CaW'
- Perthnasau hirsefydlog â staff Cymunedau yn Gyntaf, am fod rhai o staff CaW wedi gweithio dros Gymunedau yn Gyntaf yn y gorffennol: ‘roedd staff CaW yn arfer gweithio dros y tîm CG; ac ‘roedd y mentoriaid yn arfer bod yng nghyflogaeth CG, ac felly roedd perthnasau gwaith yn bodoli eisoes gyda'r staff gweithredol ac mae hynny wedi helpu'
- Arweinyddiaeth a rheolaeth, yn nhermau strwythurol ac yn nhermau'r ethos y mae'r rheolwyr yn ei gyfleu: ‘daw'r rheolaeth llinell gan Reolwr y Clwstwr ar gyfer y ddwy raglen’ ac 'arweinyddiaeth dda gan reolwyr llinell [y CCA a’r DWP]’

4.6 Hwyrach nad yw'n syndod bod y ffactorau yr oedd yr ymatebwyr yn credu eu bod yn atal cydweithio agos rhwng timau CaW a Chymunedau yn Gyntaf y

gwrthwyneb i'r rhai yr ystyriwyd y byddent yn sbarduno cydweithredu yn aml, sef:

- Ffocws ar gyflawni targedau, sy'n gallu achosi cystadleuaeth rhwng y ddwy raglen, a hynny ar draul buddiannau'r cleientiaid: mae'r targedau 'yn achosi gwrthdaro am fod gan fentoriaid a chynghorwyr CaW dargedau cysylltu ac o ran deilliannau swyddi, a Chymunedau yn Gyntaf hefyd', 'amharodrwydd i rannu cyfranogwyr am fod y ddwy raglen, o ran eu natur, yn cael eu gyrru gan dargedau', 'roedd yna ymdeimlad o dan yr wyneb bod CaW a CG y cystadlu am yr un sylfaen o gleientiaid' a 'gall targedau o ran deilliannau achosi problemau, am fod y ddau dîm o dan bwysau i wireddu deilliannau o'r un gronfa o gwsmeriaid'
- Canfyddiad bod y gwasanaethau a ddarperir mewn rhai clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn gorgyffwrdd: ‘nid yw beth y mae Cymunedau yn Gyntaf yn ei ddarparu wedi bod dim mwy na dim llai na beth rydw i'n ei gynnig fel mentor oedolion'[51], ‘rydyn ni'n cydweithio'n weddol agos, ond rwy'n teimlo bod y rhaglen hyfforddi 1-1 yn gorgyffwrdd â'r mentora rydyn ni'n ei gynnig' ac 'rydyn ni i gyd yn pysgota yn yr un pwll'
- Cael eu lleoli mewn gwahanol fannau: ‘nid ydym yn yr un adeilad â staff Cymunedau yn Gyntaf [ac] mae hyn yn achosi pryderon difrifol o ran cyfathrebu' a 'thrwy weithio mewn gwahanol leoliadau, rydyn ni'n colli allan ar gyfathrebu weithiau’.

4.7 Fel y nodwyd uchod, roedd y cynghorwyr ar secondiad gan y DWP yn llai tebygol o fynegi canfyddiad bod y rhaglenni CaW a CG yn alinio'n agos â'i gilydd. Roedd tôn y sylwadau a gafwyd gan rai cynghorwyr yn adleisio hyn, gan ddisgrifio staff Cymunedau yn Gyntaf fel bod yn 'ddrwgdybus' ohonynt ac o fod yn 'elyniaethus' tuag atynt. Roedd yna awgrym cryf bod staff CG yn fwy parod i weithio gyda’r gweithwyr brysbennu a’r mentoriaid (sydd yng nghyflogaeth y CCA) nag y maent i weithio gyda'r cynghorwyr (sydd yng nghyflogaeth y DWP) am 'eu bod yn eu gweld nhw fel rhan o'r un tîm ... mae'n debyg eu bod yn gweld cynghorwyr CaW CBG fel cystadleuaeth'. Dywedodd un cynghorydd ‘dyw hi byth wedi bod yn berthynas wych ... maen nhw'n ein gweld ni fel ymyrwyr sy'n cymryd eu lle’. Mae hi'n ddigon posibl bod

[51] Dylid nodi nad yw'r rhaglen CG yn cynnig gwasanaeth mentora ynddo’i hun

anghytgord o'r math hwn, i ryw raddau, am fod y cynghorwyr yn gweithio mewn lleoliadau gwahanol i'r timau CG, tra bod y gweithwyr brysbennu a’r mentoriaid, fel cyflogeion y CCA yn cael lle desg yn safleoedd CG. Gallai'r gwahaniaethau diwylliannol a sefydliadol rhwng y DWP a'r CCA fod yn ffactor pwysig hefyd.

4.8 Nododd nifer o gyfranwyr bod CaW ‘yn cael ei weld fel bygythiad i CG' a bod hynny wedi tanseilio integreiddiad y ddwy raglen. Fel y dywedodd un ymatebwr, 'mae anawsterau wedi codi mewn misoedd diweddar yn sgil y cyhoeddiad i ddiddymu CG', a dywedodd un arall bod 'tîm CG ffyniannus [sic] yn credu bod CaW wedi cael ei sefydlu i gymryd eu swyddi', gan achosi drwgdybiaeth. Dywedwyd bod ‘[staff] CaW yn dechrau gweld Cymunedau yn Gyntaf fel rhaglen farw oherwydd y negeseuon am ei thranc’, a gellir dadlau bod y safbwynt hwn wedi cael ei ategu gan rai awdurdodau lleol am iddynt 'ganiatáu i gyflogeion CG gyrchu'r rhaglen adleoli ar unwaith' gan achosi gostyngiad yn eu lefelau staffio.

4.9 Er gwaethaf eu safbwyntiau am lefel yr aliniad rhwng rhaglenni CG a CaW, roedd y cyfranwyr yn poeni am oblygiadau diddymu CG ar CaW. Mynegodd unigolion bryderon ynghylch:


- y posibilrwydd o chwalu cysylltiadau sydd wedi cael eu meithrin dros nifer o flynyddoedd, gyda'r grwpiau targed a gyda'r asiantaethau cyfeirio
- colli safleoedd sydd wedi dod yn adnabyddus fel y llefydd i ddefnyddwyr gwasanaethau 'droi atynt'
- colli'r ddarpariaeth hyfforddiant a ddarperir neu a ariennir gan staff CG. Fel a drafodir yn ddiweddarach, roedd gan staff y rheng flaen feddwl mawr o ddarpariaeth hyfforddiant CG
- colli'r amrywiaeth o wasanaethau cymorth y mae CG yn ei chynnig, fel cyngor a chymorth ar gynhwysiant ariannol
- colli llwybr cyfeirio i mewn i CaW. Er nad welwyd CG fel prif ffynhonnell atgyfeiriadau allweddol ym mhob clwstwr, roedd ychydig yn llai na hanner (48 y cant) yr ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo bod alinio CaW gyda Chymunedau yn Gyntaf yn ei gwneud hi’n fwy tebygol o lawer y byddai’r unigolion targed yn cysylltu â CaW, a dywedodd 21 y cant arall bod aliniad y rhaglenni yn ei gwneud ychydig yn fwy tebygol.

**Cyfeirio**

4.10 Rhagwelwyd y câi unigolion eu cyfeirio at CaW gan amrywiaeth o asiantaethau (e.e. CBG, CG, Gyrfa Cymru, CAB ac ati) gan ymestyn cwmpas y rhaglen i amrywiaeth o ddarpar-gyfranogwyr, gan gynnwys y rhai sydd fwyaf anodd eu cyrraedd yn draddodiadol. Yn ogystal â hyn, roedd disgwyl i staff CaW chwarae rhan ragweithiol wrth glustnodi a chysylltu darpar gyfranogwyr trwy weithio gyda sefydliadau partner, a thrwy fynychu achlysuron yn y gymuned a ffeiriau swyddi i hyrwyddo'r rhaglen yn bersonol.

4.11 Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'n harolwg o staff y rheng flaen glustnodi'r tri llwybr mwyaf cyffredin yr oedd y cleientiaid yr oeddent yn gweithio gyda nhw yn dod i gysylltiad â CaW drwyddynt. Mae Ffigur 4.1 isod yn dangos mai CBG oedd y ffynhonnell cyfeiriadau a enwyd amlaf, wedyn gwaith cysylltu staff CaW a phobl eraill a oedd wedi cael cymorth yn lledu'r gair.

**Ffigur 4.1: Y gyfran o ymatebwyr a glustnododd pob ffynhonnell cysylltu cleientiaid** ***(n=161)***




4.12 Mae'r ymatebwyr i'r arolwg yn awgrymu gwahaniaeth clir rhwng y llwybrau y mae cleientiaid yn dod i gysylltiad â chynghorwyr a mentoriaid drwyddynt. Clustnododd pob un o'r cynghorwyr a ymatebodd i'r arolwg (52) CBG fel un o'r tair ffynhonnell cyfeirio fwyaf cyffredin ar gyfer cleientiaid, ond dim ond 61 y cant o'r mentoriaid (33) a wnaeth hynny. Clustnododd 72 y cant o'r mentoriaid

(75) y gwaith cysylltu mewn lleoliadau yn y gymuned fel un o'r tri llwybr mwyaf cyffredin ar gyfer recriwtio cleientiaid, o gymharu â 49 y cant o gynghorwyr. Dywedodd 44 y cant o'r mentoriaid bod cyfeiriadau gan Gymunedau yn Gyntaf gyda'r tair ffynhonnell fwyaf cyffredin o gyfeiriadau, o gymharu â chwta 12 y cant o'r cynghorwyr. Roedd cyfrannau tebyg o gynghorwyr a mentoriaid o'r farn bod clywed gan bobl eraill a oedd wedi cael cymorth gan CaW yn un o'r tri llwybr mwyaf cyffredin i gleientiaid ddod i gysylltiad â'r rhaglen.

4.13 Cyfeiriodd ein gwaith maes mewn clystyrau dethol at y rhaniad hwn hefyd, er bod y mwyafrif o gleientiaid yr ymgynghorwyr yn dueddol o gael eu cyfeirio gan CBG, tra bod cleientiaid y mentoriaid yn dod o amrywiaeth ehangach o ffynonellau (gan gynnwys CBG, ymysg eraill). Awgrymodd y gwaith maes wahaniaeth bellach rhwng y llwybrau cyfeirio ar gyfer mentoriaid i oedolion a phobl ifanc, gyda llawer o'r bobl ifanc ar y rhaglen yn cael eu cyfeirio trwy strwythurau sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid er mwyn tracio pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o'r byd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth neu sydd eisoes wedi gwneud hynny.

4.14 Dywedodd y cynghorwyr mewn rhai clystyrau yn blwmp ac yn blaen eu bod yn dibynnu'n helaeth ar CBG am gyfeiriadau. Gellir priodoli'r ffaith fod CBG yn cyfeirio cleientiaid at gynghorwyr i ambell i ffactor:

- am eu bod yng nghyflogaeth DWP, mae'r cynghorwyr yn fwy tebygol o fynd i swyddfeydd CBG ac felly maent yn gallu atgoffa hyfforddwr gwaith am fodolaeth CaW yn gyson
- mae'r cynghorwyr mewn rhai clystyrau'n mynd i swyddfeydd CBG am un diwrnod neu ragor yr wythnos, ac maent yn gallu cysylltu â darpar-gyfranogwyr tra eu bod ar y safle
- gall cynghorwyr gyrchu cronfeydd data DWP, ac maent yn gallu clustnodi'r unigolion sy'n gymwys ar gyfer CaW y gellid eu targedu[52], naill ai trwy adael nodiadau yn nyddiaduron electronig yr hyfforddwyr gwaith i'w hannog i argymell y rhaglen i ddarpar-gyfranogwyr, neu trwy wahodd y cyfranogwyr yn uniongyrchol, er enghraifft trwy anfon 'llythyrau apwyntiad

[52] Nid oes gan yr holl gynghorwyr drwyddedau sy'n caniatáu iddynt gyrchu data am hawlwyr y Credyd Cynhwysol, a gallai hynny ddwyn goblygiadau ar gyfer CaW wrth i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n ehangach dros y ddwy flynedd nesaf.

gwirfoddol'[53] at ddarpar-gyfranogwyr, gan amlinellu natur y gwasanaeth sydd ar gael iddynt.

4.15 Amcangyfrifwyd bod cyn lleied â 10 y cant o'r bobl a gafodd lythyrau apwyntiad gwirfoddol wedi cysylltu â CaW o ganlyniad i'r llythyr, a dim ond cyfran fechan o'r rhai a ymatebodd a barhaodd â'r rhaglen y tu hwnt i'r cyfarfod cychwynnol.

4.16 Yn rhai o'r clystyrau, mae gweithwyr brysbennu yn mynd i weithio yn swyddfeydd y CBG yn gyson yn benodol er mwyn cysylltu darpar-gyfranogwyr, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cyfeirio yno gan hyfforddwyr gwaith. Mae hi'n ymddangos bod llwyddiant y dull hwn o fynd ati amrywio o un clwstwr i'r llall, ac mae hynny, i raddau helaeth yn adlewyrchu ansawdd perthnasau'r gweithwyr brysbennu â'r hyfforddwyr gwaith. Yn wir, mae gwaith ymchwil blaenorol wedi dangos bod ansawdd y cyfeiriadau'n dibynnu ar berthnasau staff y rhaglen â'r asiantaethau cyfeirio allweddol, ac mae hyn yn gallu amrywio'n ddramatig o un ardal i'r llall[54]. Mae hi'n nodedig hefyd yn y cyswllt hwn bod mynediad at gronfeydd data DWP er mwyn clustnodi hawlwyr budd-daliadau a allai elwa o gymryd rhan yn y rhaglen, yn gyfyngedig i'r cynghorwyr (sydd yng nghyflogaeth y DWP), am fod cyfyngiadau diogelu data yn atal y tîm ehangach rhag cyrchu'r systemau hyn.

4.17 Nododd nifer o gyfranwyr bod lefelau'r ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am raglen CaW yn amrywio ymysg hyfforddwyr gwaith, a bod hyn yn golygu nad oes llawer o gyfeiriadau'n cael eu gwneud, neu fod y cyfeiriadau'n amhriodol. Dywedwyd bod hyn yn rhannol oherwydd trosiant staff o fewn CBG, ond ystyriwyd hefyd ei bod yn ddyledus i ryw raddau i'r nifer fawr o fentrau (y mae llawer ohonynt yn cael eu hariannu trwy ESF) sy'n targedu'r un grwpiau â CaW, yn eu plith mae ADTRACK[55], prosiectau'r gronfa Active Inclusion[56],

[53]Llythyrau yw'r rhain sy'n dweud wrth ddarpar-gyfranogwyr am CaW gan eu gwahodd i gyfarfod â chynghorydd. Mae'r llythyrau'n nodi'n glir bod eu presenoldeb yn hollol wirfoddol ac na fydd dewis peidio â dod yn effeithio dim ar eu hawl i fudd-daliadau

[54] Llywodraeth Cymru (2016), Gwerthusiad o Raglen Esgyn, Cyfnod 2 - Astudiaeth Weithredu

[55] Prosiect ESF dan nawdd Coleg Menai sy'n targedu pobl ifanc 16-24 sy'n NEET ac sy'n byw y tu hwnt i ardaloedd CG. Bydd ADTRACK yn cynnig gwasanaethau tebyg i CaW hefyd, ond bydd yn cynnwys dimensiwn ychwanegol trwy gynnwys gweithwyr Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMH) mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r lefelau uchel o iselder a gorbryder a welir ymysg pobl ifanc.

[56] Ymyrraeth ESF a reolir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Nod prosiectau'r Gronfa Active Inclusion yw lleihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru a gwella cyflogadwyedd pobl sydd dan anfantais ac sydd bellaf o'r farchnad lafur.

Bridges2Work[57], Esgyn[58] ac Opus[59]. Yn y rhan fwyaf o'r clystyrau, gwnaed ymdrechion sylweddol i sicrhau bod staff CBG yn cael eu briffio am CaW, gyda staff CaW yn mynychu cyfarfodydd cyfathrebu CBG yn gyson. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil blaenorol wedi cyfeirio at bwysigrwydd canllawiau clir er mwyn sicrhau bod y cyfeiriadau'n addas hefyd[60].

4.18 Cyfeiriodd ein gwaith maes at bwysigrwydd gwaith cysylltu staff CaW wrth godi proffil y rhaglen a recriwtio cyfranogwyr. Mewn ambell i glwstwr, roedd y gwaith cysylltu yma'n adeiladu ar y strategaethau cysylltu a ddatblygwyd yn enw'r rhaglen CG ehangach. Roedd y gwaith cysylltu'n amrywio o bostio taflenni trwy ddrysau yn y cymunedau targed, presenoldeb mewn achlysuron cymunedol/sioeau pen ffordd, ffeiriau recriwtio, Canolfannau Teulu Integredig, Canolfannau Dechrau'n Deg a chlybiau swyddi/gwaith.

4.19 Soniodd y cyfranwyr hefyd am bwysigrwydd unigolion a oedd wedi gwerthfawrogi cymorth CaW eu hunain, neu a oedd yn gyfarwydd â chynghorwyr neu fentoriaid o'u rolau blaenorol, yn lledu'r gair. Ymysg yr esiamplau o hyn roedd:

- cynghorydd yn dweud ei bod 'wedi bod yn gweithio yn yr ardal hon ers nifer sylweddol o flynyddoedd, ac mae llawer o bobl yn fy adnabod i ac yn gwybod beth rwy'n ei wneud ... mae pobl yn dod i fy ngweld i'
- ymgynghorydd ‘yn gweithio gyda theulu cyfan' oherwydd effaith domino o gyfeiriadau
- mentor ieuenctid a oedd wedi bod yn gweithio gydag elusen gymunedol ac amgylcheddol a hawliodd bod cleientiaid y bu’n gweithio gyda nhw yn y gorffennol wedi cofrestru ar gyfer CaW 'am eu bod nhw'n ymddiried ynof i'
- mentor ieuenctid a oedd wedi cael ei argymell i ffrindiau gan gyn-gleient a ddywedodd bod 'pobl ifanc ddiwaith yn hongian o gwmpas gyda'i gilydd

[57] Prosiect ESF yn canolbwyntio ar bum ardal awdurdod lleol (Torfaen, Caerffili, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful), sy'n anelu at wella sgiliau a rhoi hwb i waith i bobl dros 25 oed sy’n economaidd anweithgar neu’n ddi-waith tymor hir ac yn byw yn ardaloedd CG
[58] Prosiect a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl sy'n byw mewn aelwydydd di-waith
[59] Prosiect sy'n cael ei ariannu gan ESF dan nawdd Bwrdd Uchelgeisiau Economaidd Gogledd Cymru ac sy'n targedu pobl 25+ oed sy'n ddi-waith tymor hir ac yn economaidd anweithgar.
[60] Llywodraeth Cymru (2016), Gwerthusiad o Dwf Swyddi Cymru: Yr Adroddiad Terfynol

bob dydd' a'u bod yn 'fwy agored nag oedolion am y cymorth y maent yn ei gael'.

4.20 Mae hi’n bwysig nodi bod pobl yn lledu'r gair yn ffynhonnell cynyddol bwysig o gyfeiriadau wrth i CaW magu nerth ac wrth i staff y rhaglen ddechrau codi eu proffil a meithrin enw da mewn cymunedau.

4.21 Mae hi'n glir fod cyfeiriadau yn sgil pobl eraill yn lledu'r gair yn digwydd am fod gan y cynghorwyr a'r mentoriaid bresenoldeb gweladwy ac enw da yn y gymuned. Yn yr un modd, roedd hi'n glir fod cael eich adnabod a’ch parchu gan gynrychiolwyr sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda'r un grwpiau â CaW yn bwysig i'r mathau o sefydliadau sy'n cyfeirio darpar gleientiaid at y rhaglen. I'r perwyl hwn, mae timau CaW wedi bod yn rhagweithiol wrth geisio cysylltu â phartneriaethau a sefydliadau allweddol yn eu hardaloedd, er enghraifft, partneriaethau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) (neu sefydliadau cyfatebol), Gyrfa Cymru, timau/sefydliadau o amgylch y teulu (gan gynnwys ymwelwyr iechyd), darparwyr tai cymdeithasol, y Gwasanaeth Prawf/system cyfiawnder ieuenctid ac ymarferwyr cyffredinol.

4.22 Mae'r ymdrechion hyn wedi dwyn gwahanol lefelau o lwyddiant yn nhermau cyfeiriadau at CaW. Yn rhai o'r clystyrau, roedd protocolau ymyrryd/rhannu data'r partneriaethau YEPF i'w gweld yn effeithiol, o ran eu bod yn hwyluso cyfeirio pobl ifanc sy’n NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET, ymlaen i'r mentoriaid ieuenctid (ynghyd â gwasanaethau eraill). Roedd hyn yn arbennig o wir pan oedd y mentoriaid ieuenctid eisoes yn gyfarwydd i aelodau'r partneriaethau YEPF ac lle’r oeddent yn ymddiried ynddynt. Fodd bynnag, ac fel y gellid ei disgwyl yn nyddiau cynnar y rhaglen, y gwir amdani yw, bod cysylltiadau staff CaW â'r sefydliadau partner wedi bod llawn cymaint am godi ymwybyddiaeth am CaW ac y maent am recriwtio. Cawn weld eto a fydd ymwybyddiaeth, fel y rhagwelwyd yn y theori newid sy'n sylfaen i CaW, yn troi'n gyfeiriadau, ac yn arbennig ymysg y grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd.

4.23 Ar lefel ehangach, mae'r ymdrechion i 'farchnata' CaW wedi bod yn gymharol gyfyngedig. Er y gwelwyd defnydd gweddol helaeth o 'faneri' CaW mewn digwyddiadau, gwelwyd defnydd mwy cyfyngedig o bosteri a thaflenni (generig) sydd wedi cael eu cynhyrchu'n ganolog. Mae rhai clystyrau wedi datblygu eu deunyddiau marchnata eu hunain yn fewnol, gan gynnwys posteri

a thaflenni sy'n targedu pobl ifanc ac oedolion mewn un clwstwr. Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd y cyfranwyr yn teimlo bod y deunyddiau marchnata a gynhyrchwyd ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol wedi bod yn 'eithaf syml' ac yn 'ddiddim' eu natur.

4.24 Ar lefel leol, mae hi'n amlwg y bu tipyn o ddryswch ynghylch beth y gellir ei wneud gyda'r adnoddau sydd ar gael, ac mae hyn yn rhannol am fod gan y CCA ganfyddiad ar gam fod y cyllidebau marchnata lleol (sydd wedi cael eu dirprwyo iddynt) yn rhan o'u dyraniad ‘costau wedi eu symleiddio’ yn hytrach na bod yn gyllideb ar wahân. Un esiampl o hyn oedd CCA a oedd wedi prynu crysau T â brand arnynt i'r gweithwyr brysbennu a'r mentoriaid eu gwisgo mewn achlysuron yn y gymuned, ond yn gwrthod talu am grysau T tebyg ar gyfer cynghorwyr. Yn yr un modd, soniodd cynghorwyr un clwstwr am amharodrwydd canfyddedig un CCA i brynu cardiau busnes ar eu cyfer i gyd-fynd â'r rhai a brynwyd ar gyfer y gweithwyr brysbennu a’r mentoriaid.

4.25 Yn ogystal â hyn, roedd nifer o gyfranwyr yn teimlo bod CaW yn gweithredu o dan y radar i bob pwrpas ar hyn o bryd, a hynny am nad oedd digon wedi cael ei wneud i greu 'brand' penodol ar gyfer CaW. Roedd rhai o staff y rheng flaen yn galw am ryddhau deunyddiau brand, fel 'balŵns' neu 'beniau' y gellid eu dosbarthu mewn achlysuron yn y gymuned neu 'mygiau' y gellid eu rhoi i gynrychiolwyr sefydliadau partner i'w 'hatgoffa' am fodolaeth CaW.

4.26 Dadleuwyd hefyd bod angen i Lywodraeth Cymru chwarae rhan amlycach wrth godi ymwybyddiaeth am CaW ac wrth greu un brand unedig a chyson ar gyfer y rhaglen. Dadleuodd y cyfranwyr o blaid creu gwefan CaW lle gellid hyrwyddo 'straeon newyddion da' ac am bresenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol ar lefel genedlaethol a lleol trwy Twitter a Facebook.

**Lleoliadau llai ffurfiol y mae pobl yn ymddiried ynddynt**

4.27 Nodwedd allweddol o ddyluniad rhaglen CaW yw bod y gwasanaethau'n cael eu darparu mewn lleoliadau llai ffurfiol sy'n hygyrch ac sy'n cael eu defnyddio'n helaeth ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau yn y cymunedau lle mae'r cyfranogwyr targed yn byw, er enghraifft, mewn canolfannau cymunedol, Canolfannau Plant Integredig ac ar safleoedd Cymunedau yn Gyntaf. Nodwedd arall o ddyluniad CaW yw nad yw staff y rheng flaen yn cael eu brandio fel rhai sy'n perthyn i CBG neu i unrhyw

sefydliad arall, ac mae hyn yn lleihau'r posibilrwydd o'r canfyddiad eu bod yn 'swyddogol'.

4.28 Roedd y nodweddion dylunio hyn yn tynnu'n helaeth ar waith ymchwil blaenorol[61] a ganfu fod sefydlu rhaglenni mewn cymunedau lleol yn gallu bod yn gryfder pwysig wrth gysylltu'r bobl hynny sy'n anodd eu cyrraedd. Cyfeiriodd y gwaith ymchwil blaenorol hefyd at bwysigrwydd gweithio gyda phobl ifanc sy'n NEET, a'r rhai nad ydynt yn cysylltu â chymorth cyflogaeth, mewn ffordd sy'n anffurfiol, yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd ati.

4.29 Yn ôl y bwriad, mae staff CaW yn gweithio o amrywiaeth o ganolfannau yn y gymuned fel 'hybiau' neu 'siopau un stop', safleoedd CG, canolfannau cymunedol, tai cymunedol, Canolfannau Plant Integredig, safleoedd Dechrau'n Deg, llyfrgelloedd, Canolfannau Gwaith, ac yn achlysurol, caffis lleol. Mewn llawer o achosion, mae'r timau cyflawni'n gweithio yn ôl amserlenni lle maent yn mynychu canolfannau penodol yn y gymuned ar ddiwrnodau penodedig. Mewn llond llaw o achosion, roedd staff CaW yn ymweld â'r cyfranogwyr yn eu cartrefi, er enghraifft, lle'r oedd unigolion yn dioddef o broblemau gorbryder ag arnynt angen cymorth i fagu'r hyder i fentro allan i leoliad yn y gymuned.

4.30 Roedd y staff sy'n darparu'r rhaglen a'r rhanddeiliaid yn bendant bod cael eu lleoli yn y cymunedau lle mae'r cyfranogwyr targed yn byw yn hanfodol am ei fod yn fwy cyfleus i'r cyfranogwyr fynd i ganolfan ar stepen y drws, yn enwedig pan fo ganddynt gyfrifoldebau gofalu neu anableddau. At hynny, mae cyfleusterau yn y gymuned yn aml yn gyfarwydd i'r unigolion targed (am fod rhai ohonynt yn eu defnyddio at ddibenion eraill) ac mae'r awyrgylch yn y lleoliadau hyn yn dueddol o fod yn 'fwy hamddenol' ac yn 'llai swyddogol' na lleoliadau fel swyddfeydd CBG, ac mae hyn yn golygu bod yr unigolion yn 'fwy agored' i gysylltu â gwasanaethau cymorth. Mae bod mewn lleoliad yn y gymuned yn caniatáu i staff CaW ddod yn wynebau cyfarwydd, ac ennyn hyder y bobl sy'n byw yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Yn y cyd-destun hwn, roedd hi'n glir bod gweithio mewn lleoliadau yn y gymuned yn caniatáu i'r cynghorwyr (yr oedd rhai ohonynt wedi gweithio dros y DWP am nifer o flynyddoedd cyn cael eu secondio i CaW) eu pellhau eu hunain oddi

[61] Gweler yr adroddiad Cam 1 ar Theori Newid CaW am ragor o wybodaeth: http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170412-evaluation-communities-work-stage-1-cy.pdf

wrth CBG, am fod rhai o'r unigolion targed yn ddrwgdybus ohono. Fel y dywedodd un cynghorydd 'mae'r un bobl yn dod i'r ganolfan waith, ond mae'r sgwrs yn wahanol iawn ... maen nhw'n ymatal ac yn poeni am beth maen nhw'n ei ddweud ... yma maen nhw'n fwy agored o lawer'. Nododd un arall mai 'ofn mwyaf [y cleientiaid] yw y byddan nhw'n colli eu budd-daliadau' wrth ddatgelu gormod o wybodaeth i staff CBG.

4.31 Roedd cyfranogwyr CaW yn adleisio'r un safbwyntiau, gan sôn am hwylustod gallu 'cerdded i lawr y stryd' i gwrdd â chynghorwyr/mentoriaid, neu cael gwneud hynny mewn Canolfannau Teulu Integredig ger ysgolion 'ar ôl mynd â'r plant i'r ysgol'. Soniodd eraill eu bod yn gallu 'galw mewn am sgwrs' gyda staff CaW ar stepen y drws, gyda rhai'n ychwanegu mai prin iawn y maen nhw'n gadael eu milltir sgwâr. Soniodd y cyfranogwyr hefyd am y ffyrdd 'personol', 'cyfeillgar ac agos atoch' yr oedden nhw'n cael eu trin a'r 'hyblygrwydd' yr oedd staff CaW yn ei ddangos. Yn groes i hyn, wrth sôn am eu profiadau o hyfforddwyr gwaith CBG, 'llym' oedd y gair a ddefnyddiodd rhai cyfranogwyr, gan ddweud nad oedd digon o amser ganddynt, a bod ganddynt lai o gydymdeimlad o lawer am sefyllfaoedd unigolion.

4.32 Yn ogystal â'r gallu i droi atynt wyneb yn wyneb, roedd hi'n amlwg yn bwysig bod modd cyrchu staff CaW dros y ffôn, trwy neges destun, neu e-bost, ac roedd hyn yn arbennig o wir ymysg y bobl ifanc.

4.33 Er y defnyddir cyfleusterau cymunedol yn helaeth ym mhob ardal, roedd yna wahaniaethau nodedig o ran i ba raddau yr oedd staff CaW yn gallu cyrchu safleoedd yn y cymunedau hyn, ac o ran y canfyddiadau am ba mor ddeniadol ac addas oedd y cyfleusterau sydd ar gael. Mewn rhai ardaloedd, roedd lle desg wedi ei glustnodi'n benodol ar gyfer timau CaW, ac roedd modd iddynt ddefnyddio ystafelloedd preifat mewn 'hybiau' modern lle gellid cyrchu amrywiaeth eang o wasanaethau (e.e. tai, cyngor ar ddyledion, llyfrgelloedd, clybiau gwaith ac ati) a darparu ymyraethau paralel eraill (e.e. Esgyn, Gweithffyrdd, I Mewn i Waith ac ati). Mewn ardaloedd eraill, roedd y cyfleusterau a oedd ar gael yn llai addas, naill ai yn nhermau eu lleoliad a'u hygyrchedd i'r gymuned (ystyrir bod lefel dda o ddefnydd yn allweddol), eu priodoldeb ar gyfer gweithio gyda chleientiaid, neu o ran faint o le a oedd ar gael o fewn yr adeiladau. Roedd y diffyg lle mewn eiddo CG yn benodol yn

golygu bod timau CaW mewn rhai clystyrau ar chwâl, gyda'r gweithwyr brysbennu a'r mentoriaid mewn lleoliad gwahanol i'r cynghorwyr.

4.34 Thema a gododd dro ar ôl tro ymysg staff y rheng flaen oedd y diffyg mannau preifat mewn canolfannau yn y gymuned i gynnal trafodaethau cyfrinachol â'r cleientiaid. Fel y dywedodd un mentor, 'nid oes ystafell neu ardal ddiffiniedig benodol gennym i ffwrdd wrth bobl eraill lle gallwn sgwrsio heb i neb ein clywed ni... Rwy'n delio'n bennaf â phobl a all fod â materion iechyd meddwl neu sydd wedi cael problemau yn y gorffennol, ac mae angen trafod y rhain er mwyn eu cynorthwyo a mynd i'r afael â'r rhwystrau cyn gynted â phosibl'. Soniodd cynghorwyr a mentoriaid am gael cyfarfodydd â chleientiaid 'yn y coridor' oherwydd diffyg ystafelloedd cyfweld penodol. Cyfeiriodd y cyfranogwyr hefyd at ddiffyg lle preifat, gydag un yn dweud 'y byddai'n well petai ystafell fach ... i fod yn breifat ... dydw i ddim am i'r stryd i gyd wybod fy musnes'.

4.35 Testun rhwystredigaeth arall i staff y rheng flaen oedd yr anghysondeb o ran y gallu i gyrchu'r rhyngrwyd mewn llawer o ganolfannau yn y gymuned (gan gynnwys trwy Wi-Fi) ac, i'r cynghorwyr, diffyg llinellau diogel ar safleoedd CG a oedd yn eu rhwystro rhag cyrchu mewnrwyd DWP wrth weithio y tu hwnt i swyddfeydd CBG. Yn wir, roedd yr anallu i gyrchu gwybodaeth cleientiaid y DWP wedi ei gwneud hi'n anodd darparu gwasanaeth di-dor mewn clybiau gwaith a oedd yn rhedeg ar rhai o'r safleoedd CG.

4.36 Testun pryder arbennig i sawl un o'r cyfranogwyr oedd y risg na fydd timau CaW yn gallu cyrchu lleoliadau darparu gwasanaethau sefydledig yn y cymunedau targed am fod y rhaglen CG yn dirwyn i ben. Yn wir, mewn un clwstwr, mae'r tîm CG eisoes yn gweithio o bencadlys yr awdurdod lleol yn hytrach nag o safle penodol yn y gymuned, sy'n golygu bod staff CaW yn eu ffeindio'u hunain yn chwilio am ganolfannau yn y gymuned i gynnal cyfarfodydd â chleientiaid, ac yn defnyddio canolfannau nad ydynt yn denu'r un nifer o bobl â'r hybiau cymunedol, neu ar safleoedd CG mewn mannau eraill. Mewn clystyrau eraill, mae cynlluniau ar y gweill i gau'r safleoedd CG y mae staff CaW wedi bod yn eu defnyddio fel canolfannau hyd yn hyn.

**Cymorth holistig ac integredig**

4.37 Un o'r pethau allweddol a ddylanwadodd ar ddyluniad CaW oedd gwaith ymchwil a gyfeiriodd at bwysigrwydd 'pecynnau cymorth holistig', sy'n aml yn cynnwys ymdrechion aml-asiantaeth i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd unigolion a'u symud i gyfeiriad cyflogaeth. Tybiwyd y byddai'r timau CaW yn gallu elwa ar wasanaethau sy'n cael eu darparu gan asiantaethau cymorth lleol, gan elwa ar gysylltiadau'r timau CG â sefydliadau o'r fath i ddiwallu anghenion cyfranogwyr lle bo angen.

4.38 Mae ein gwaith maes yn awgrymu bod timau CaW yn cysylltu ag asiantaethau partner i helpu cyfranogwyr i fynd i'r afael â rhwystrau penodol i waith, ond mae i ba raddau y mae hyn yn digwydd yn amrywio o un clwstwr i'r llall a rhwng aelodau unigol o'r timau CaW. Mewn llawer o achosion, mae'r ymgysylltiad sydd wedi digwydd wedi cael ei hwyluso gan gysylltiau a oedd eisoes wedi cael eu sefydlu gan CG, er bod ein harolwg o staff y rheng flaen yn awgrymu bod staff CaW yn teimlo'n wybodus ar y cyfan am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn lleol hefyd. Dywedodd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n wybodus iawn neu'n weddol wybodus am y gwasanaethau iechyd meddwl a cham-drin sylweddau sy'n bodoli yn eu hardaloedd (89 y cant [124] ac 84 y cant [117] yn y drefn honno). Roedd 82 y cant o'r ymatebwyr (114) yn teimlo'n wybodus iawn neu'n weddol wybodus am Wasanaethau Dechrau'n Deg, ac roedd 100 y cant o'r mentoriaid ieuenctid a ymatebodd i'r arolwg yn dweud eu bod yn wybodus iawn neu'n weddol wybodus am drefniadau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) yn eu hardaloedd. Roedd ymwybyddiaeth am yr Undebau Credyd ychydig bach yn is ymysg yr ymatebwyr i'r arolwg, gyda 65 y cant (91) yn dweud eu bod yn wybodus iawn neu'n weddol wybodus am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

4.39 Roedd yr esiamplau o fathau o asiantaethau cymorth yr oedd staff CaW wedi cyfeirio cyfranogwyr atynt yn cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, sefydliadau iechyd meddwl, asiantaethau cam-drin cyffuriau ac alcohol, asiantaethau cymorth i'r anabl (e.e. Scope), gwasanaethau cymorth tai a digartrefedd (e.e. Shelter), cynlluniau darparu celfi, Cymorth i Fenywod, gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd, gwasanaethau cynghori ar les, CAB, banciau bwyd, darparwyr addysg a CG.

4.40 Roedd y cyfranwyr yn gweld y berthynas rhwng CaW a'r asiantaethau cymorth fel un 'symbiotig', o ran bod y cyfeiriadau'n mynd y ddwy ffordd, ac o ran bod pob un yn cydategu'r gwasanaethau yr oedd y llall yn eu cynnig. Fel y dywedodd un cynghorydd, 'rydyn ni'n cyd-gerdded â'r sefydliadau ac yn ategu eu cymorth fel y maen nhw'n ei wneud i ni'. Fodd bynnag, fel a amlinellwyd uchod, mae nifer y cyfeiriadau gan y gwasanaethau cymorth eraill i CaW (yn hytrach na chyfeiriadau gan CaW at y gwasanaethau cymorth) yn dal i fod yn is nag y gobeithiwyd ar hyn o bryd.

4.41 Ar y cyfan, roedd staff y rheng flaen o'r farn bod y gwasanaethau cymorth yn eu hardaloedd yn hygyrch, gyda 77 y cant o'r ymatebwyr (108) yn dweud bod y sefydliadau iechyd meddwl yn hygyrch iawn neu'n weddol hygyrch, a 73 y cant (102) yn dweud yr un peth am sefydliadau cam-drin sylweddau. Awgrymodd ein trafodaethau wyneb yn wyneb â staff y rheng flaen bod cyrchu gwasanaethau iechyd meddwl yn gallu bod yn anos mewn rhai ardaloedd, a hynny'n syml oherwydd y lefelau uchel iawn o alw sydd yna ar wasanaethau ac felly y blaenoriaethu y mae angen i'r gwasanaethau hynny ei wneud ar sail yr achosion mwyaf difrifol.

4.42 Yn ogystal ag asiantaethau cymorth, mae CaW yn gweithredu ochr yn ochr â nifer o ymyraethau eraill, y mae eu huchelgeisiau'n gorgyffwrdd â rhai CaW. Un o'r mwyaf nodedig ymhlith y rhain yw rhaglen Esgyn Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at gynorthwyo unigolion sy'n byw ar aelwydydd heb waith i mewn i gyflogaeth. Mae Esgyn ar waith yn 12 o'r clystyrau CG[62] lle darperir CaW hefyd, er ei fod yn cau ar ddiwedd 2017.

4.43 Mae ein gwaith maes yn awgrymu bod y rhaglenni CaW ac Esgyn yn cael eu rheoli gan yr un unigolyn o fewn y clystyrau ar y cyfan, bod y timau CaW ac Esgyn fel arfer ar yr un safle, a bod y broses brysbennu a gyflwynwyd fel nodwedd o'r rhaglen CaW wedi cael ei ehangu i gynnwys Esgyn hefyd. Yn wir, mae'r Canllawiau Gweithredol yn nodi'n glir bod 'rôl brysbennu'n hanfodol i lwyddiant rhwydwaith y bartneriaeth, gan sicrhau bod y cyfranogwyr yn cael cymorth priodol sy'n dibynnu ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau. Bydd brysbennu'n darparu cysylltiadau cadarn rhwng Cymunedau am Waith,

[62] Clystyrau Tredegar a Glynebwy (Blaenau Gwent), clystyrau Basn Caerffili a Blaenau Cwm Rhymni (Caerffili), clwstwr Dwyrain Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, Ynys Môn, clwstwr Afan (Castell-nedd Port Talbot), clwstwr Taf (Rhondda Cynon Taf), clwstwr Gogledd-orllewin Abertawe

Cymunedau yn Gyntaf a phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill (e.e. Esgyn, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn gyntaf a'r Cydlynwyr Cysylltu a Datblygu Ieuenctid)'[63]. Roedd y rheolwyr yn awyddus i sicrhau bod y rhaglenni'n gweithredu mor ddi-dor â phosibl, gydag un yn nodi 'nad oes gan yr unigolyn unrhyw ddiddordeb yn, ac nid yw'n poeni dim o ran o ble y daw'r cyllid ... maen nhw am gael cymorth cyflogaeth a dyna hi'.

4.44 Er hynny, fodd bynnag, roedd yna deimlad bod yna elfen o ddyblygu rhwng CaW ac Esgyn, ac mae hyn wedi achosi rhwystredigaeth ymysg y staff cyflawni'r rheng flaen, gydag unigolion yn dweud bod 'Esgyn yn cystadlu â ni'. Er hynny, fodd bynnag, roedd yna deimlad bod yna elfen o ddyblygu rhwng CaW ac Esgyn, ac mae hyn wedi achosi rhwystredigaeth ymysg y staff cyflawni'r rheng flaen, gydag unigolion yn dweud bod 'Esgyn yn cystadlu â ni'. Mewn rhai ardaloedd, roedd yna ganfyddiad bod hyn yn deillio o'r ffaith 'nad oes digon o alw' ar gyfer CaW, heb sôn am Esgyn hefyd[64], ac roedd yn nodedig fod agweddau'r staff rheng flaen tuag at Esgyn llawer mwy cadarnhaol mewn un clwstwr lle fu recriwtio i'r ddwy raglen yn llai heriol.

4.45 Er ei bod yn gyfyngedig i unigolion o aelwydydd di-waith, y teimlad oedd bod Esgyn yn cynnig manteision dros CaW. Er enghraifft, gall mentoriaid Esgyn gyrchu 'cronfa rwystrau' hyblyg, ac maent yn gallu prynu hyfforddiant i mewn o'r farchnad ehangach, yn hytrach na bod yn gyfyngedig i ddarparydd a gaffaeliwyd yn ganolog, ac maent yn gallu cynnig cyfweliadau â chyflogwyr o'r GIG ar gyfer eu cleientiaid. Roedd rhai o'r staff sy'n darparu CaW o dan yr argraff bod Esgyn yn cymryd blaenoriaeth dros CaW fel mater o bolisi, yn nhermau atgyfeirio a recriwtio, er bod rheolwyr y rhaglen yn gwadu hynny.

4.46 Er bod Esgyn yn cael ei integreiddio i bensaernïaeth CG a CaW (yn y clystyrau hynny lle mae Esgyn wedi bod yn rhedeg), mae'r gorgyffwrdd yn nhermau'r cyfranogwyr partner a'r gwahaniaethu annigonol rhwng Esgyn a CaW yn amlwg wedi arwain at gystadlu yn y pwynt darparu. Mynegodd nifer o staff y rheng flaen bryderon am fentrau eraill, y mae rhai ohonynt yn derbyn cyllid yr ESF, gan gynnwys rhai newydd sydd wedi dod i'r fei'n ddiweddar. Ymhlith yr esiamplau a enwyd roedd prosiect Cynhwysiant Gweithredol

[63] Llywodraeth Cymru, Canllawiau Gweithredol t.9
[64] Nid yw'r gwerthuswyr wedi cyfeirio ar ystadegau y farchnad lafur/diweithdra i wirio dilysrwydd honiadau o'r fath.

Cymru CGGC ac Ysbrydoli i Weithio. Mynegodd un cyfrannwr deimlad ehangach trwy ddweud 'mae gennym ni i gyd ddeilliannau gwahanol... mae yna brosiectau a ddylai gyfeirio atom ni a ni aton nhw, ond dydyn ni ddim... does neb eisiau colli eu deilliannau gwaith ... ond ai dyna'r peth iawn i'w wneud ar gyfer y cleient?'

4.47 Mae hi'n werth nodi, fodd bynnag, bod staff rheng flaen CaW wedi sôn hefyd am weithio gydag ymyraethau sy'n gweithredu y tu hwnt i'r clystyrau CG, gan gynnwys Pontydd i Waith[65], PaCE[66], Opus[67], Gweithffyrdd ac ADTRACK[68]. Gwelwyd y rhain fel rhaglenni y gellid cyfeirio unigolion nad ydynt yn gymwys ar gyfer CaW atynt.

**Integreiddio timau CaW**

4.48 Cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, y DWP a'r CCA sy'n rheoli ac yn gweithredu'r rhaglen CaW. Wrth ddylunio'r rhaglen, tybiwyd y gallai staff o'r gwahanol sefydliadau hyn 'gydweithio'n effeithiol i ddarparu gwasanaeth di-dor'[69].

4.49 Cydnabuwyd, fodd bynnag, y byddai'n 'dipyn o her' tynnu ynghyd ethos y CCA ar y naill law, a'r DWP ar y llall. Roedd rhai o'r randdeiliaid yn teimlo bod maint y dasg o gysoni'r 'gwahaniaethau diwylliannol' rhwng staff y rheng flaen sy'n dod o'r CCA a'r DWP a'u traddodiadau gwahanol iawn wedi cael ei danbrisio adeg dylunio'r rhaglen, ac y gellid fod wedi rhoi mwy o sylw i sut y gellir tynnu timau CaW ynghyd i ffurfio un corff cydlynol. Yn wir, nododd un uwch randdeiliad bod 'sicrhau ein bod ni'n cynnal un rhaglen yn dal i fod yn ffocws o'n gwaith'.

4.50 Datgelodd ein gwaith maes esiamplau o gydweithredu agos rhwng staff CaW a gyflogir gan y CCA a'r DWP, gydag un rheolwr cyflawni gyda DWP yn nodi bod ei staff yn treulio mwy o amser gyda'u 'tîm maeth' o'r CCA nag y maent gydag ef. Soniodd eraill am ymdrechu i sicrhau 'dull o fynd ati sy'n seiliedig ar

[65] Sy'n targedu unigolion economaidd anweithgar a di-waith tymor hir sy'n byw y tu hwnt i'r ardaloedd CG ym Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful a Thorfaen.
[66] Sy'n targedu rhieni economaidd anweithgar 25+ oed y tu hwnt i'r ardaloedd CG ledled Cymru
[67] Prosiect sy'n cael ei ariannu gan ESF dan nawdd Bwrdd Uchelgeisiau Economaidd Gogledd Cymru ac sy'n targedu pobl 25+ oed sy'n ddi-waith tymor hir ac yn economaidd anweithgar.
[68] Sy'n targedu pobl ifanc 16-24 sy'n NEET ac sy'n byw y tu hwnt i ardaloedd CG yng ngogledd-orllewin Cymru. Bydd ADTRACK yn cynnig gwasanaethau tebyg i CaW hefyd, ond bydd yn cynnwys dimensiwn ychwanegol trwy gynnwys gweithwyr Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMH) mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r lefelau uchel o iselder a gorbryder a welir ymysg pobl ifanc.
[69] Model theori newid cyffredinol CaW

'un tîm' a hynny wrth gyfaddef ei bod hi'n anodd gwireddu integreiddiad llwyr am fod y staff yn dod o draddodiadau lled wahanol, a bod angen iddynt gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliadau sy'n eu cyflogi o hyd.

4.51 O ofyn iddynt beth sy'n galluogi aelodau o dîm CaW i gydweithio'n dda â'i gilydd, thema a gododd dro ar ôl tro gyda'r cyfranwyr oedd pwysigrwydd cyfathrebu agored a gonest wrth fagu 'ymddiriedaeth' a meithrin 'teimlad o fod yn un tîm'. Yr allwedd i hyn oedd 'cadw mewn cysylltiad yn ddyddiol', 'neilltuo amser i fod gyda'n gilydd fel tîm' a chynnwys y tîm cyfan mewn amryw o gyfarfodydd.

4.52 Gan adleisio rhai o'r ffactorau y dywedwyd eu bod yn hwyluso cydweithio agos rhwng timau CaW a CG, roedd y cyfranwyr yn credu bod y pethau canlynol yn hwyluso cyfathrebu effeithiol a gwaith tîm hefyd:

- Cydleoli: 'rhannu lle swyddfa' a 'gweithio ochr yn ochr â'n gilydd mewn canolfannau yn y gymuned'. Teimlwyd bod 'cael ein lleoli mewn gwahanol leoliadau', a 'chynghorwyr yn gweithio yn y CBG yn bennaf [mewn ambell i achos]', i ffwrdd oddi wrth staff CCA, yn llesteirio gwaith tîm (ac fel a nodwyd uchod, roedd problemau TG a oedd yn cyfyngu ar gysylltiadau â mewnrwyd y DWP y tu hwnt i safleoedd y DWP, wedi gwneud hyn yn anodd mewn rhai ardaloedd)
- Rhannu'r un ffocws ar fuddiannau'r cleientiaid: 'rhoi ein cyfranogwyr yn gyntaf' a rhannu 'gwerthoedd tebyg' mewn perthynas â helpu cleientiaid i symud ymlaen
- Arweinyddiaeth a rheolaeth: 'dull o fynd ati fel un tîm, ac mae angen gwneud hyn yn glir o'r lefel uchaf', 'mae cyfathrebu clir rhwng rheolwyr [y CCA] a rheolwyr cyflawni DWP yn helpu i dynnu'r timau ynghyd' a rheolwyr yn caniatáu i staff y rheng flaen gael 'y rhyddid i weithio gyda'i gilydd'. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo ei bod yn gallu bod yn ddi-fudd cael 'dau reolwr yn rheoli un tîm' pam nad yw'r unigolion yn siarad ag un llais
- Parch at eu sgiliau a'u nodweddion ei gilydd, gyda'r mentoriaid mewn rhai ardaloedd yn gweld y cynghorwyr fel arbenigwyr ym maes budd-daliadau lles, y cynghorwyr yn gweld mentoriaid fel rhai sy'n fedrus wrth gysylltu

cleientiaid mwy ymestynnol a meithrin cysylltiadau da ag asiantaethau cymorth yn y gymuned, a’r cynghorwyr a’r mentoriaid ill dau yn gweld y gweithwyr brysbennu fel rhai sy'n deg wrth ddyrannu cyfranogwyr.

4.53 Mae ein gwaith maes yn awgrymu hefyd bod cydweithredu ac integreiddio'n haws pan fo niferoedd y cyfeiriadau'n uchel, am fod hyn yn golygu nad yw’r cynghorwyr a mentoriaid yn teimlo eu bod (i bob pwrpas) yn cystadlu â'i gilydd am gleientiaid.

4.54 Nododd y cyfranwyr bod 'eglurder o ran rolau swyddi' a 'systemau effeithiol i'w dilyn' yn ddefnyddiol hefyd wrth feithrin 'ffydd y bydd pawb yn gwneud eu gwaith'. Mewn perthynas â'r broses brysbennu, roedd yna dystiolaeth o ddiffyg ymddiriedaeth rhwng staff y CCA (gweithwyr brysbennu a mentoriaid) ar y naill law, a'r cynghorwyr a gyflogir gan y DWP ar y llall mewn rhai ardaloedd. Rydyn ni'n trafod y broses brysbennu'n fanylach yn adran nesaf y bennod hon (Brysbennu a Phennu Beichiau Achosion).

4.55 Un o'r prif ffactorau sy'n ei gwneud hi'n anodd i aelodau o dîm CaW gydweithio'n dda yw’r ffaith fod gan y CCA a'r DWP 'dargedau ar wahân' o ran cysylltu cyfranogwyr, ac yn bwysicach na hynny, o ran deilliannau. Fel y nododd un cyfrannwr, ‘mae cael targedau unigol ar gyfer mentoriaid a chynghorwyr yn creu amgylchedd afiach lle nad yw'r staff yn gweithredu er budd eu cleientiaid bob tro, ond er mwyn cyflawni eu targedau personol. Mae hyn yn adwaith dynol digon naturiol i weithwyr sydd wedi arfer â chael eu mesur ar sail perfformiad, ond mae'n cael effaith negyddol ar berfformiad y tîm'. Mewn ffordd debyg, dywedodd mentor ieuenctid nad yw hi'n cyfeirio cleientiaid ymlaen at gynghorwyr am ei bod 'am gadw'r deilliannau fy hun... rwy'n gwybod nad yw hynny'n iawn, ond...'. Dadleuwyd dro ar ôl tro bod y partïon wedi 'ei chael hi'n anodd gweithio gyda'i gilydd o fewn model sy'n eu hannog i beidio ... mae hynny'n annog pawb i amddiffyn eu cleientiaid er mwyn cyflawni eu targedau'.

4.56 Dadleuodd sawl cyfrannwr y gellid goresgyn y sefyllfa hon trwy ddyrannu 'targedau clwstwr', ar y sail 'y byddai targed tîm yn meithrin moeseg tîm'. Yn wir, er nad yw rheolwyr Llywodraeth Cymru'n pennu targedau clwstwr

unedig[70], maent wedi annog timau clwstwr i feddwl yn nhermau 'cronni adnoddau' a 'thargedau tîm' yn hytrach na rhai unigol. Mae model cyflawni a ddatblygwyd gan un clwstwr yn rhoi’r pwyslais yn gadarn ar weithio fel tîm cyfan, ac yn ôl targedau tîm cyfan, ac er nad yw'r model wedi cael ei brofi o ddifrif hyd yn hyn, mae clystyrau eraill wedi dangos diddordeb sylweddol yn y dull hwn o fynd ati. Fodd bynnag, wedi dweud hynny, roedd hi'n glir bod y targedau unigol wedi ymwreiddio'n weddol ddwfn ym meddyliau cynghorwyr a mentoriaid unigol, ac roedd rhai cyfranwyr wir yn poeni y câi eu perfformiad canfyddedig gwael mewn perthynas â thargedau feirniadaeth negyddol.

4.57 Dull arall yr oedd y cyfranwyr yn meddwl y gellid ei ddefnyddio i fynd i'r afael â dylanwad y targedau wrth beri rhwyg fyddai ffocysu’r targedau o ran deilliannau gwaith ar y cynghorwyr, a dyrannu’r 'targedau cyfeirio' i'r mentoriaid. Dywedodd un cyfrannwr, 'pe câi targedau’r mentoriaid o ran swyddi eu dileu, byddai hynny'n newid y deinameg i gyd, a byddai wir yn ein helpu ni i gydweithio i gyflawni deilliannau', a mynegodd un arall deimlad ehangach trwy awgrymu 'y dylid mesur mentoriaid ar sail ymgysylltiadau, cymwysterau a chyfeiriadau at gynghorwyr ... a dylid mesur y cynghorwyr ar sail ymgysylltiadau a deilliannau gwaith'.

**Brysbennu adeg y cysylltiad cyntaf a phennu beichiau achosion**

4.58 Mae'r broses brysbennu adeg y cysylltiad cyntaf yn cynnwys cyflawni asesiad cynnar o bellter yr unigolyn o'r farchnad lafur, a'i anghenion o ran cymorth hefyd felly. Bwriad hyn yw caniatáu i gleientiaid gael eu cyfeirio at gynghorwyr, mentoriaid neu raglenni eraill fel y bo'n briodol, a sicrhau bod yna faich cytbwys o achosion rhwng cynghorwyr a mentoriaid CaW. Rhagwelwyd wrth ddylunio'r rhaglen y byddai gweithwyr brysbennu 'yn rheoli'r cysylltiad cyntaf trwy gyflawni archwiliadau cymhwyster rhan gyntaf yr ESF ac asesiadau o sgiliau galwedigaethol lefel isel'[71] cyn cyfeirio'r cyfranogwyr ymlaen, fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, mae'r Canllawiau Gweithredol ychydig bach yn fwy amwys, o ran nad ydynt yn clustnodi pwy ddylai gyflawni archwiliadau cymhwyster ac asesiadau o angen o'r fath, a'r ensyniad yw y gallai'r rhain gael eu cyflawni gan weithwyr brysbennu, cynghorwyr neu

[70] Cofnodir y targedau cysylltu a’r deilliannau yn y contractau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn adlewyrchu'r targedau a gymeradwyodd WEFO ar gyfer pob cydran o'r rhaglen.
[71] Blaenoriaeth 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, t.32

fentoriaid, er, y bwriad o hyd yw y cyfeirio'r unigolion ymlaen at y math mwyaf priodol o gymorth.

4.59 Roedd hi'n glir bod rhywfaint o ddryswch o gylch rôl y gweithiwr brysbennu yn benodol, gydag un cyfrannwr yn adlewyrchu safbwyntiau nifer fawr wrth ddweud 'nid yw'r broses brysbennu yn glir o hyd ... maen nhw'n dweud wrthym mai proses, nid person, yw brysbennu, ond eto, rydyn ni'n cyflogi gweithwyr brysbennu'. Yn y cyd-destun hwn, mae hi fwy na thebyg yn werth ailadrodd y pwynt a wnaed ym mhennod flaenorol o'r adroddiad hwn, sef nad oedd ychydig yn llai na chwarter (24 y cant) y staff cyflawni a ymatebodd i'n harolwg yn credu bod y Canllawiau Gweithredol yn glir ynghylch sut y dylai'r broses brysbennu weithio.

4.60 Yn nodweddiadol, mae'r broses brysbennu adeg y cysylltiad cyntaf yn cynnwys:

- gwneud y cysylltiad cyntaf, a dechrau'r broses ymgysylltu, er enghraifft trwy esbonio beth y mae'r rhaglen yn ei gynnig, a'i gwerthu i'r darpar-gyfranogwyr. Disgrifiodd nifer o gyfranwyr y gweithwyr brysbennu fel 'wyneb cyhoeddus' CaW
- pwyso a mesur cymhwyster unigolion am CaW (gan gynnwys dilysu eu bod yn byw mewn ardaloedd CG), casglu'r dystiolaeth angenrheidiol am gymhwyster, a gwneud copïau o'r dogfennau perthnasol i'w cadw
- llenwi'r gwaith papur perthnasol (soniwyd am atodiad 12[72] droeon yn hynny o beth)
- asesu sefyllfaoedd ac anghenion unigolion. Mae rhai clystyrau'n ddefnyddio offerynnau a ddatblygwyd yn arbennig i gyflwyno cysondeb i'r broses o asesu pa mor bell yw'r unigolyn o'r farchnad lafur er mwyn lleihau'r risg o oddrychedd mewn penderfyniadau am ddyrannu cyfranogwyr i fentoriaid a chynghorwyr neu raglenni eraill fel Esgyn
- llunio nodiadau ychwanegol i ragrybuddio cynghorwyr a mentoriaid mewn ambell i achos.

[72] Atodiad 12 i'r Canllawiau Gweithredol yw'r ffurflen i gyfeirio cleientiaid sy'n cadarnhau eu bod yn gymwys ar gyfer CaW

4.61 Mae ein gwaith maes mewn 19 o glystyrau dethol yn awgrymu bod pob un yn mynd ati mewn ffordd sydd ychydig bach yn wahanol i'w gilydd, gydag amrywiadau nodedig o ran i ba raddau y mae'r gweithwyr brysbennu, y cynghorwyr a'r mentoriaid yn chwarae rhan yn y broses brysbennu adeg y cysylltiad cyntaf, hynny yw, wrth gyflawni archwiliadau o gymhwyster ac asesiadau o anghenion cychwynnol gyda'r cleientiaid a'u haseinio i'r math mwyaf priodol o gymorth.

4.62 Dim ond yn un o'r clystyrau yr aethom i ymweld ag ef y mae'r holl gyfranogwyr yn mynd trwy archwiliad o gymhwyster ac asesiad cychwynnol gyda'r gweithiwr brysbennu. Mae'r clwstwr o dan sylw wedi datblygu model sy'n canolbwyntio ar siwrnai pum cam y cyfranogwr i gyflogaeth gynaliadwy. I gyd-fynd â hyn, mabwysiadwyd targedau tîm cyfan yn lle targedau deilliant unigol ar gyfer cynghorwyr a mentoriaid, gyda'r bwriad o ddileu cystadlu di-fudd ac annog y cynghorwyr a'r mentoriaid i weithio gyda'i gilydd ac i chwarae eu rhan, fel y bo'n briodol, yn siwrnai pob cleient tuag at gyflogaeth.

4.63 Yr allwedd i ddatblygiad y model hwn yw'r cydweithredu agos rhwng rheolwyr y DWP a'r CCA wrth oruchwylio CaW. Er bod y ffaith eu bod 'ar yr un dudalen' wedi bod yn allweddol er mwyn i staff cyflawni'r rheng flaen gysylltu â'r model, dywedodd rhai unigolion yn onest bod ffyrdd hirsefydlog o weithio wedi hen ymwreiddio ac y byddai'n cymryd amser i sefydlu'r rhaglen yn llwyr.

4.64 Roedd yr egwyddor y dylai'r gweithwyr brysbennu fod yn 'unig bwynt mynediad' i CaW yn ddyhead i glystyrau eraill hefyd, er nad oedd yr arfer yn dilyn yr egwyddor bob tro, ac roedd yr ymgynghorwyr neu'r mentoriaid (ond yn fwy cyffredin, y cynghorwyr) yn 'brysbennu' rhai cleientiaid hefyd. Yn wir, er bod dau glwstwr lle na chafodd y gweithwyr brysbennu a'r mentoriaid eu penodi tan yn ddiweddar yn awyddus i fabwysiadu'r rhannau gorau o'r model cyflawni a drafodwyd uchod, roeddent yn teimlo ei bod hi'n bwysig hefyd bod y dull a fabwysiedir yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd yn nhermau pwy sy'n cyflawni'r broses brysbennu adeg y cysylltiad cyntaf. Roedd y rheiny a oedd o blaid un porth i'r rhaglen yn credu bod dull o'r fath o fynd ati yn helpu i leihau'r 'risg o ddryswch', ei fod yn osgoi'r risg o ddyblygu gwaith (h.y. bod cleientiaid yn gweithio gyda mentoriaid a chynghorwyr yr un pryd yn anfwriadol) a'i fod yn creu teimlad o degwch ymysg y cynghorwyr a'r mentoriaid.

4.65 Mewn clystyrau eraill, mae gweithwyr brysbennu, cynghorwyr a mentoriaid yn chwarae eu rhan i wahanol raddau wrth asesu cymhwyster ac anghenion cymorth unigolion. Nodwedd fwriadol o'r rhaglen oedd hyn mewn rhai o'r ardaloedd clwstwr, ac yn enwedig lle bo'r gweithwyr brysbennu, cynghorwyr a mentoriaid yn gweithio mewn lleoliadau ar wahân, neu allan yn y gymuned yn rheolaidd. Yn y sefyllfaoedd hyn, y bwriad oedd y dylid delio â'r cleientiaid yn y ffordd symlaf a chyflymaf bosibl, heb fod angen sawl cam o gyfeirio (e.e. gallai cleient gael ei gyfeirio'n uniongyrchol o'r cynghorydd sy'n ei frysbennu at fentor, yn hytrach na bod y cynghorydd yn ei gyfeirio at weithiwr brysbennu, ac ymlaen wedyn at fentor). Roedd rhai clystyrau eisoes wedi dod i gytundebau lleol, er enghraifft y câi'r holl gleientiaid 16-24 oed eu cyfeirio'n uniongyrchol at fentoriaid ieuenctid, a'u brysbennu ganddynt.

4.66 Roedd nifer fechan o glystyrau i'w gweld yn gweithredu'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel systemau brysbennu paralel, a hynny'n fwy oherwydd esblygiad na dyluniad bwriadol. Mewn achosion o'r fath, mae'r gweithwyr brysbennu, y cynghorwyr a'r mentoriaid i gyd yn dueddol o asesu cymhwyster ac anghenion o ran cymorth y cleientiaid sy'n dod i gysylltiad â nhw (fel a ddisgrifir uchod i bob pwrpas), ond mae dyrannu'r cleientiaid i fathau penodol o gymorth yn digwydd mewn ffordd sy'n rhoi tipyn yn llai o bwyslais ar y cleientiaid. Yn fwyaf cyffredin, roedd hyn yn cynnwys:

- gweithwyr brysbennu'n ffafrio mentoriaid dros gynghorwyr wrth gyfeirio cleientiaid ymlaen
- cynghorwyr yn cadw cleientiaid (gan gynnwys unigolion sy'n cael eu cyfeirio gan y CBG) a allai gael eu gwasanaethu'n well gan y mentoriaid, iddyn nhw eu hunain.

4.67 Yn y clystyrau lle'r oedd dulliau paralel o fynd ati'n amlwg, roedd hi'n glir bod y perthnasau rhwng y cynghorwyr (DWP) ar y naill law, a'r gweithwyr brysbennu a'r mentoriaid (CCA) ar y llall, yn llai na delfrydol. Roedd y rhesymau am hyn yn amrywio o un clwstwr i'r llall, ond roedd yn aml yn ymwneud â 'phersonoliaethau' yn y pen draw. Yn wir, gwelwyd newid mewn agweddau at y broses brysbennu mewn dau glwstwr lle bu newidiadau o ran staff.

4.68 Y ffactorau eraill yr ystyriwyd eu bod yn llesteirio dulliau eglur a chyson o frysbennu adeg y cysylltiad cyntaf oedd:

- niferoedd cyfyngedig o gyfranogwyr yn eu cyflwyno eu hunain ar gyfer CaW, a chynghorwyr a mentoriaid, felly, yn 'amddiffyn eu cysylltiadau' er mwyn cyflawni eu targedau unigol. Fel yr esboniodd un cyfrannwr, gallai cyfarfodydd brysbennu gynnwys dau fentor, dau gynghorydd a swyddog cyflogaeth CG er mai dim ond dau gleient cymwys oedd yna i'w dyrannu
- weithiau, y gweithwyr brysbennu oedd yr olaf i gael eu penodi o fewn timau cyflawni CaW, a oedd yn golygu bod y mentoriaid, ac yn fwy penodol, y cynghorwyr, wedi dod i arfer â brysbennu eu cleientiaid eu hunain
- mae'r asiantaethau cyfeirio (gan gynnwys CBG i raddau helaeth) yn parhau i gyfeirio cleientiaid yn uniongyrchol at gynghorwyr, hyd yn oed yn sgil penodi'r gweithwyr brysbennu
- protocolau diogelu data'r DWP yn atal manylion darpar-gleientiaid rhag cael eu rhannu ag aelodau o dîm CaW, heblaw am y cynghorwyr.

4.69 Yn wir, dadleuodd sawl cyfrannwr y dylai'r gweithiwr brysbennu fod yng nghyflogaeth DWP yn hytrach na'r CCA, er mwyn ei gwneud hi'n bosibl iddynt:

- gyrchu cronfeydd data'r DWP er mwyn clustnodi darpar-gyfranogwyr
- cyrchu cronfeydd data'r DWP i gael gwybodaeth am gymhwyster
- cyrchu gwybodaeth Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) y DWP a'r rhestrau o gwsmeriaid peryglus
- hwyluso'r rhyngweithio â chynghorwyr/hyfforddiant gwaith CBG er mwyn dod o hyd i gyfeiriadau.

4.70 Mae'r broses brysbennu'n cynnwys cyfarfodydd rheolaidd (pythefnosol fel arfer, yn unol â'r canllawiau gweithredol) rhwng staff CaW, staff CG, a lle bo'n berthnasol, cynrychiolwyr rhaglenni cymorth eraill fel Esgyn ac ymyraethau ESF lleol. Yn yr un modd â'r trefniadau brysbennu adeg y cysylltiad cyntaf, mae natur y cyfarfodydd brysbennu'n amrywio o un clwstwr i'r llall, er bod y materion nodweddiadol a drafodir yn cynnwys:


- dyrannu cyfranogwyr newydd eu recriwtio i gynghorwyr a mentoriaid. Mewn sawl clwstwr, gwneir y penderfyniadau dyrannu cyn y cyfarfod, ond rhoddir adroddiadau arnynt. Mewn rhai achosion, gall trafodaethau mewn

cyfarfodydd brysbennu arwain at ailddyrannu cyfranogwyr sydd newydd eu recriwtio rhwng y cynghorwyr a'r mentoriaid

- maint baich achosion aelodau unigol o'r tîm
- trosglwyddo cyfranogwyr rhwng aelodau o'r tîm
- yr hyfforddiant sydd ei angen ar gyfranogwyr, gan gynnwys ystyried y potensial ar gyfer hyfforddiant grŵp
- perfformiad yn erbyn targedau cysylltu a deilliannau, er, mewn nifer o glystyrau, roedd hi'n debyg bod yna ryw lefel o ddrwgdybiaeth nad yw cydweithwyr yn hollol onest na chlir am eu cyflawniadau
- cynlluniau cysylltu.

4.71 Dywedodd 42 y cant o'r holl ymatebwyr i'r arolwg fod y broses brysbennu, sut bynnag y mae'n cael ei chyflawni, yn effeithiol iawn wrth ddyrannu unigolion i'r math gorau o gymorth iddyn nhw, a dywedodd 24 y cant pellach ei bod yn weddol effeithiol.

**Ffigur 4.2: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd fod y broses brysbennu'n effeithiol** ***(n=160)***




4.72 Y gweithwyr brysbennu oedd fwyaf brwdfrydig yn hyn o beth, gydag 89 y cant yn dweud fod y broses yn effeithiol neu'n weddol effeithiol. Roedd bron i dri chwarter (74 y cant) y mentoriaid a ymatebodd yn teimlo bod y broses yn effeithiol iawn neu'n weddol effeithiol. Roedd y cynghorwyr yn fwy tawedog eu barn am y broses, gydag ychydig dros ddau o bob pump (42 y cant) yn dweud

ei bod yn effeithiol iawn neu'n weddol effeithiol. Roedd y cynghorwyr ychydig bach yn fwy tebygol na'r gweithwyr brysbennu a'r mentoriaid o ddweud bod y broses yn effeithiol ar adegau ond nid bob tro, ac roeddent yn fwy tebygol o lawer o ffeindio'r broses brysbennu yn aneffeithiol (19 y cant o'r cynghorwyr o gymharu â 4 y cant o'r mentoriaid). Mae hi'n bosibl bod hynny'n adlewyrchu'r canfyddiad ymysg cynghorwyr mewn rhai ardaloedd bod y gweithwyr brysbennu'n ffafrio'r mentoriaid, yn ogystal ag esblygiad prosesau paralel y DWP a'r CCA (a nodwyd uchod) a'r anawsterau sydd ynghlwm wrth ganfod pa mor bell yw rhywun o'r byd gwaith trwy gyflawni asesiad cychwynnol byr.

4.73 I ddangos effeithiolrwydd y broses brysbennu mewn cyd-destun ehangach, nododd un cyfrannwr nad yw CaW yn wasanaeth cymorth generig, ac os oes yna deimlad nad oes gan gan y cleient ragolygon realistaidd o ran deilliannau gwaith, cânt eu cyfeirio at ymyraethau eraill.

4.74 Crefft yn hytrach na gwyddor yw dyrannu cleientiaid i gynghorwyr a mentoriaid, ac mewn un clwstwr, rhoddwyd trefniadau ar waith i gyfranogwyr sydd wedi cael eu dyrannu i gynghorwyr neu fentoriaid ar gam i gael eu hail-frysbennu a'u hailddyrannu. Mae trefniadau llai ffurfiol yn bodoli mewn clystyrau eraill lle mae mentoriaid yn cyfeirio cyfranogwyr at gynghorwyr neu fel arall, a hynny fel rheol yn sgil trafodaeth am eu hachosion mewn cyfarfodydd brysbennu, neu o ganlyniad i drafodaeth rhwng y cynghorwyr a'r mentoriaid o dan sylw.

4.75 Mae Tabl 4.1 isod yn dangos nifer cyfartalog y cleientiaid yr oedd y gwahanol gategorïau o staff a ymatebodd i'n harolwg yn dweud eu bod yn gweithio gyda nhw ar y pryd. Mae'n dangos hefyd yr amrywiad rhwng y beichiau achosion lleiaf a mwyaf ar gyfer pob categori o staff.

**Tabl 4.1: Nifer y cleientiaid y mae staff CaW yn gweithio gyda nhw**

| Categori Staff | Cyfartaledd | Cwmpas |
|---|---|---|
| Mentor Oedolion n=25 | 25 | 10-57 |
| Mentor Ieuenctid n=32 | 17 | 4-31 |
| CEA n=32 | 25 | 5-47 |
| PEA n=22 | 21 | 10-45 |

4.76 Roedd beichiau achosion yr aelodau o staff a oedd wedi bod yn gwasanaethu hiraf yn dueddol o fod ychydig bach yn uwch drwyddi draw na'r unigolion a oedd yn fwy newydd i'w swyddi. Fel y nodwyd eisoes, roedd nifer o'r cynghorwyr a'r mentoriaid a gafodd gyfweliadau yn ystod ein gwaith maes wir yn poeni y câi eu perfformiad ei asesu'n negyddol oherwydd niferoedd isel y cyfranogwyr sydd ar eu cofrestrau.

4.77 Dadleuodd un rheolwr clwstwr 'bod y cydbwysedd mentoriaid i gynghorwyr yn anghywir o ystyried cymhlethdod y materion sy'n wynebu'r cleientiaid'. Yr ensyniad yn hyn o beth oedd bod angen i ragor o fentoriaid i weithio'n fwy dwys gyda phobl â rhwystrau cymhleth, a hynny dros gyfnodau hwy o amser.

**Cynllunio gweithredu a chymorth ymgynghorol**

4.78 Disgwylir i gynghorwyr a mentoriaid adeiladu ar yr asesiad cychwynnol trwy edrych yn fanylach ar anghenion y cleientiaid sy'n cael eu dyrannu iddynt. Wedyn mae disgwyl iddynt ddatblygu 'cynlluniau gweithredu' ar gyfer pob cyfranogwyr 'er mwyn rhoi strwythur a ffocws' i ymdrechion y cyfranogwyr i symud yn agosach at y farchnad lafur[73].

*Asesiad diagnostig manwl a chynllunio gweithredu*

4.79 Mae sgyrsiau cynnar cynghorwyr a mentoriaid â chleientiaid yn dueddol o gael eu tywys gan bortffolio'r cyfranogwyr, o ran bod y ddogfen yn sbarduno sgyrsiau am hanes gwaith, cymwysterau, anhwylderau iechyd, diddordebau, a nodau a dyheadau gwaith yr unigolyn. Roedd y cynghorwyr a'r mentoriaid yn glir o ran bod y broses o fynd at wraidd y rhwystrau y mae'r cyfranogwyr yn eu hwynebu'n cymryd amser, gyda nifer o'r cyfranwyr yn dweud ei bod hi'n cymryd dau neu dri chyfarfod i feithrin perthynas ac ennyn ymddiriedaeth cleientiaid unigol: a hyd yn oed wedyn, nid yw rhai materion yn 'dod i'r wyneb' tan yn hwyrach o lawer. Soniodd y cyfranwyr at 'sgwrsio am fywyd' gyda'r cleientiaid, yn hytrach nag archwilio'r rhwystrau'n uniongyrchol.

4.80 Mae cynghorwyr a mentoriaid yn aml yn gwneud pwynt o bwysleisio mai peth gwirfoddol yw cymryd rhan yn CaW, ac o bellhau eu hunain, a'r rhaglen, wrth

[73] Llywodraeth Cymru (2015), Cynllun Busnes 2014-2020: Cymunedau am Waith Dwyrain Cymru Blaenoriaeth 1, t.34

hyfforddwyr gwaith CBG. Dywedwyd bod hyn yn helpu'r cleientiaid i deimlo'n gyffyrddus, fel eu bod yn fwy tebygol o siarad am 'rwystrau go iawn' i waith.

4.81 Cyfeiriodd Adroddiad Rhan 1 ar y Theori Newid at unigolion yn wynebu rhwystrau uniongyrchol (o ran agwedd neu seicoleg) a rhai anuniongyrchol (ymarferol)[74]. Mae unigolion yn aml yn wynebu rhwystrau niferus a chydgysylltiedig, gyda staff cyflawni'r rheng flaen yn nodi bod 'llawer yn mynd yn ei flaen' ym mywydau'r cleientiaid. Yn aml, gwelwyd bod y gwahanol rwystrau hyn yn gronnol, er enghraifft, anhwylderau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, bod â chyfrifoldebau gofalu, a bod ag ychydig neu ddim profiad o gyflogaeth estynedig. Roedd y theori newid a oedd wrth wraidd CaW yn rhagdybio y gellid clustnodi'r rhwystrau yr oedd cyfranogwyr yn y rhaglen yn eu hwynebu, a mynd i'r afael â nhw trwy'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael.

4.82 Cadarnhaodd ein gwaith maes bod cyfranogwyr yn wynebu llawer o'r rhwystrau a ragwelwyd yng nghynlluniau busnes CaW, er ei bod hi'n glir bod y rhwystrau yn aml yn fwy annelwig a chydgysylltiedig nag y byddai'r cynlluniau busnes yn ei awgrymu. Dyma rhai o'r mathau o rwystrau yr oedd ein trafodaethau â staff cyflawni a chyfranogwyr, yn ogystal â'n hadolygiad o ddetholiad o bortffolios cyfranogwyr, yn awgrymu bod cyfranogwyr yn aml yn eu hwynebu:

<u>Rhwystrau uniongyrchol</u>:

- materion iechyd meddwl: sy'n amrywio o faterion lefel isel i rai cymhleth (weithiau yn deillio o brofiadau gwael yn ystod eu plentyndod). Cododd y geiriau ‘iselder’ a ‘gorbryder’ droeon gyda staff CaW a'r cyfranogwyr
- diffyg hyder/hunan-barch ac er enghraifft, nodwyd y gallai cyfnodau hir o ddiweithdra, gyda methiannau di-ri i ddiogelu gwaith, roi'r felan i rywun a thanseilio eu hunanhyder a’u hunan-barch
- meddylfryd o ddiweithdra a dibyniaeth ar fudd-daliadau: roedd hi'n amlwg bod rhai cyfranogwyr 'wedi bod trwy'r system yn helaeth' ac roedd rhai i'w gweld yn 'gyffyrddus' eu byd. Yn wir, dadleuwyd taw'r unig reswm

[74] Llywodraeth Cymru (2017), Gwerthusiad o Gymunedau am Waith Rhan 1: Theori newid a'r model rhesymeg

yr oedd rhai cleientiaid yn cysylltu â CaW oedd am fod eu hyfforddwyr gwaith JCP wedi eu cyfeirio at y rhaglen

- disgwyliadau afrealistaidd: gydag unigolion yn chwilio am 'gyflogaeth gyfoethog', ac yn amharod i gymryd 'swyddi gwael' ar gyflogau isel
- diffyg gobaith a dyheadau: yn enwedig ymysg pobl ifanc.

<u>Rhwystrau anuniongyrchol:</u>

- diffyg sgiliau effeithiol wrth chwilio am waith ac ymgeisio am waith
- cam-drin cyffuriau ac alcohol: gyda llawer o bobl ifanc yn defnyddio ‘cyffuriau anterth cyfreithlon' yn ogystal â chyffuriau anghyfreithlon
- anableddau corfforol a phroblemau iechyd lefel isel: fel 'dolur y meingefn', 'llid y cymalau', 'penysgafnder a phroblemau cydbwyso'
- diffyg sgiliau sylfaenol a hanfodol: sy'n aml yn gysylltiedig ag anhwylderau fel dyslecsia, dyscalcwlia ac ati, yn ogystal ag anghenion dysgu ychwanegol
- diffyg cymwysterau
- cyfrifoldebau gofal plant: yn enwedig ymysg unig rieni. Roedd rhai cyfranogwyr yn amlwg yn gyndyn i ddefnyddio darparwyr gofal plant (dim ots am y gost) – ‘dydw i ddim yn mynd i adael fy mhlentyn gyda neb arall’
- rhwystrau o ran cludiant: gan gynnwys diffyg cludiant personol, cysylltiadau cludiant cyhoeddus gwael (yn arbennig ar adegau sy'n cyd-fynd â phatrymau sifftiau) a chost defnyddio cludiant cyhoeddus. Cyfeiriodd cynghorwyr a mentoriaid at amharodrwydd rhai cleientiaid i deithio ymhell oddi cartref
- problemau tai a digartrefedd: yn enwedig ymysg pobl ifanc, gyda rhai yn cysgu ar soffas gwahanol bobl ac eraill yn byw mewn hostelau
- diffyg dogfennau adnabod: yn enwedig ymysg pobl ifanc nad ydynt yn byw gartref.

4.83 Nodwyd nifer o rwystrau eraill, er bod y rhain yn llai cyffredin e.e. hanes o droseddu (rhai am droseddau difrifol a oedd yn cyfyngu'n ddifrifol ar opsiynau

gwaith yr unigolyn), camdriniaeth ddomestig, dyledion a phroblemau ariannol, hylendid personol gwael ac eraill.

4.84 Mae maint cwmpas a chymhlethdod y rhwystrau y mae llawer o gyfranogwyr yn eu hwynebu yn awgrymu bod y rhaglen yn cyrraedd y bobl hynny y bwriadwyd iddi eu cynorthwyo. Fodd bynnag, mae ein hadolygiad o bortffolios yn awgrymu nad oes gan nifer fechan o gyfranogwyr ragolygon realistaidd o ddod o hyd i gyflogaeth gyflogedig yn y tymor byr i ganolig. Roedd y rhain yn cynnwys unigolyn â phroblemau iechyd corfforol cymhleth a oedd wedi bod yn glir nad oedd hi'n teimlo'n ddigon iach i weithio, ac unigolion a ddywedodd eu hunain, eu bod wedi cysylltu â rhaglen CaW am fod 'y dôl' wedi eu hanfon nhw, ond nad oedd unrhyw fwriad go iawn ganddynt chwilio am waith. Yn un o'r clystyrau, roedd hi'n debyg bod y mentor oedolion wedi gwneud mwy i helpu cleientiaid i wneud cais am 'Lwfans Gofalwyr' fel eu bod yn gallu gofalu am berthnasau, nag yr oedd wedi eu hannog i feddwl am weithio. Er bod yna eithriadau, mae'r achosion hyn yn pwyntio at ffaeledigrwydd y prosesau brysbennu a rhoi diagnosis, o ran y byddai mathau eraill o gymorth yn hytrach na CaW yn eu gwasanaethu'n well.

4.85 Er bod y cynghorwyr a'r mentoriaid yn defnyddio dulliau tebyg iawn o asesu anghenion cyfranogwyr ar y cyfan, mae'r sgyrsiau y mae cynghorwyr yn eu cael gyda chleientiaid yn dueddol o fod yn fwy swyddogaethol eu natur ac o fod â ffocws mwy amlwg ar symud cleientiaid tuag at gyflogaeth. Er enghraifft, mae'r cynghorwyr yn dueddol o drafod pethau fel Universal JobMatch yn gynnar yn y broses, ac maent yn cyflawni 'cyfrifiadau gwell eich byd' pwysig gyda'r cleientiaid. Yn wir, gwelwyd y cyfrifiadau gwell eich byd fel offeryn gwerthfawr wrth gysylltu pobl â'r rhaglen CaW. Dywedwyd nad yw llawer o unigolion yn ymwybodol y byddent yn well eu byd mewn gwaith, a'u bod 'yn aml yn fwlch eithaf sylweddol … £200-£300 y mis yn well eu byd'. Cyfeiriodd ein trafodaethau â chyfranogwyr, ac yn arbennig mamau sengl, at effeithiau darbwyllol y cyfrifiadau gwell eich byd. Er enghraifft, dywedodd un cyfranogwr, er ei bod am weithio, ei bod hi wedi 'ofni mentro' am nad oedd hi erioed wedi bod yn glir sut y gallai effeithio ar ei budd-daliadau, neu a fyddai costau gofal plant yn drech nag unrhyw enillion ychwanegol. Yn ei hanfod, roedd ganddi hi, fel y cyfranogwyr eraill a gafodd gyfweliadau, ganfyddiad bod y risg (nid dim ond iddi hi, ond i'w phlant hefyd) o gyfaddawdu ei henillion/hawl i fudd-

daliadau, yn rhy fawr i gymryd y cam i mewn i waith, heb y sicrwydd y gallai'r ymgynghorydd roi iddi. Er y bu ein gwaith maes yn rhy gyfyngedig i ddod i unrhyw gasgliad cadarn, roedd yna ryw awgrym ymysg y cyfranogwyr a staff y rheng flaen y gallai'r newidiadau diweddar i'r Credyd Trethi Plant annog rhai mamau nad ydynt yn gweithio, ac y mae eu plentyn ifancaf yn nesáu at bum mlwydd oed, i gysylltu â'r rhaglen.

4.86 Ar y cyfan, nid yw'r mentoriaid yn cyflawni cyfrifiadau gwell eich byd ar gyfer cleientiaid (er bod ambell un yn gwneud hynny), sy'n adlewyrchiad o'r ffaith fod cleientiaid y mentoriaid yn dueddol o fod rhyw bellter o'r farchnad lafur wrth iddynt gysylltu â CaW am y tro cyntaf. At hynny, ychydig o fentoriaid sydd â'r wybodaeth angenrheidiol am y system fudd-daliadau i gyflawni cyfrifiadau gwell eich byd sy'n ddibynadwy.

4.87 Fel y nodwyd yn y bennod ddiwethaf, nid oes unrhyw ddarn penodol ym mhortffolio'r cyfranogwr i gofnodi'r rhwystrau (er bod un clwstwr wedi datblygu ei waith papur ei hun i gynnwys rhestr o rwystrau posibl fel rhywbeth i brocio'r cof, neu fel sbardun trafod). Mae hyn yn golygu nad yw hi'n hawdd bob tro cael synnwyr o'r problemau sy'n wynebu cleientiaid unigol (heb ddarllen y portffolio i gyd) a deall pam fod gweithgareddau penodol yn cael eu cyflawni.

4.88 Mae cynlluniau busnes CaW yn cyfeirio at ddatblygu 'cynlluniau busnes ... i ddarparu strwythur a ffocws' ar gyfer y gweithgareddau a gyflawnir gan/ar ran cyfranogwyr, er, fel y nodwyd yn y bennod ddiwethaf, nid yw portffolio'r cyfranogwr yn cynnwys adran 'cynllun gweithredu' ynddo'i hun.

4.89 Y gwir amdani yw bod cynllunio gweithredu'n broses newidiol, ac nid yw'n dechrau o reidwydd gyda'r rhwystrau sy'n wynebu cleientiaid, ond yn hytrach, gyda'u diddordebau. Yn nodweddiadol, mae'r camau cynnar yn cynnwys cymryd 'camau bychain', fel datblygu neu ddiweddaru CV, neu fynd ar gyrsiau byrion yn yr ardal leol. Bwriedir i'r dull hwn o fynd ati gam wrth gam roi sicrwydd i'r cyfranogwyr eu bod yn gallu ymdopi, a chaniatáu iddynt deimlo eu bod yn gallu symud ymlaen. Nododd y cynghorwyr a'r mentoriaid 'nad ydyn nhw'n gwthio' cyfranogwyr yn ystod y camau cynnar yma, am y gallai hynny eu gorlethu'n rhwydd. At hynny, mae rhwystrau'n dal i godi yn ystod camau cynnar eu hymgysylltiad, ac mae'n bwysig, felly, cynnal cymaint o hyblygrwydd â phosibl. Dywedodd sawl un o'r cyfranwyr nad oes fawr o

bwrpas diffinio 'cynlluniau gweithredu' yn rhy fanwl am fod 'bywyd yn digwydd' ac am fod 'pobl yn newid eu meddyliau drwy'r amser'. Soniodd y mentoriaid hefyd am fregustra ymgysylltiad y cleient, gyda rhai cyfranogwyr yn cytuno i ddilyn llwybrau penodol, ond 'yn diflannu pan fo'r amser yn dod... ddim yn troi i fyny ... yn newid eu rhifau ffôn'. Mae hi'n nodedig yn y cyd-destun hwn bod tystiolaeth o'r gwerthusiad o'r rhaglen Awyddus i Weithio'n awgrymu nad oedd y cynghorwyr yn datblygu cynlluniau gweithredu ffurfiol ar gyfer yr hawlwyr anoddaf eu cynorthwyo am resymau tebyg i'r rhain. Mae hyn yn ategu ein sylw blaenorol bod angen i unrhyw ddogfennau cynllunio gweithredu (sy'n rhan o bortffolio'r cyfranogwr) fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer sefyllfaoedd amrywiol ac anwadal y cyfranogwyr.

*Cymorth personol*

4.90 Yn ymarferol, mae'r broses cynllunio gweithredu yn dueddol o asio â'r ddarpariaeth o ran cymorth personol parhaus ar gyfer cyfranogwyr. Mae natur y cymorth a ddarperir yn amrywio, yn dibynnu ar anghenion yr unigolion, ac yn wir, arddull bersonol pob cynghorydd neu fentor unigol. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r cynghorwyr yn tueddu i ganolbwyntio'n dynnach ar baratoi pobl ar gyfer swyddi a chwilio am waith, gyda'r gweithgareddau'n dueddol o droi o gylch:

- datblygu/gwella/diweddaru CVs
- dod o hyd i hyfforddiant cyflogadwyedd/cyflogaeth
- trefnu lleoliadau gwaith gwirfoddol
- cydgysylltu â chynghorwyr cyflogwyr CBG er mwyn dod o hyd i gyfleoedd posibl am brofiad gwaith
- trefnu cyfleoedd am brofiad gwaith a monitro cynnydd y cyfranogwyr yn ystod y lleoliadau. Roedd rhai cynghorwyr yn gweld lleoliadau profiad gwaith fel ffordd o hwyluso cynigion am waith
- sefydlu cleientiaid ar Universal Jobmatch (os nad ydynt wedi cofrestru eisoes) a'u hymgyfarwyddo â'r system
- cyflawni gweithgarwch chwilio am waith, nid yn unig er mwyn eu cynorthwyo i ddod o hyd i waith, ond hefyd i helpu'r cyfranogwyr i ddatblygu sgiliau chwilio am waith 'nid mater o'r ffaith nad ydyn nhw [y

cleientiaid] am [chwilio am waith] mohoni ... ond nid oes ganddynt y wybodaeth ... na'r hyder i wneud hynny'

- dod o hyd i wybodaeth am gyfleoedd gwaith posibl
- annog y cleientiaid i fynd i ffeiriau swyddi a/neu glybiau gwaith
- helpu cleientiaid i wneud cais am swyddi, gan gynnwys drafftio ceisiadau am swyddi a llythyrau esboniadol. Nodwyd mai ychydig o gyfranogwyr sydd â'r sgiliau i baratoi ceisiadau da am waith, ac nad ydynt braidd byth yn neilltuo digon o amser i wneud hynny
- annog cyfranogwyr i gofrestru gydag asiantaethau cyflogaeth
- paratoi cleientiaid am gyfweliadau. Mewn un clwstwr, roedd gan staff CaW drefniadau dwyochrog gyda'r swyddogion sy'n darparu'r rhaglen Esgyn yn lleol, lle'r oedd staff Esgyn yn cyflawni ffug-gyfweliadau â chleientiaid CaW a staff CaW yn gwneud yr un fath â chleientiaid Esgyn
- lle bo angen, cysylltu â chyflogwyr i weld beth sy'n digwydd gyda chynigion am waith
- mynd yn gwmni i’r cleientiaid wrth iddynt fynychu cyfweliadau neu eu cludo yno, er bod cynghorwyr yn ceisio annog cleientiaid i ffeindio'u ffordd eu hunain i gyfweliadau fel rheol.

4.91 Bwriedir i'r cymorth y mae'r cynghorwyr yn ei roi helpu i feithrin hyder y cyfranogwyr, eu cymell i chwilio am waith a'u taclu â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith. Ar y cyfan, mae cynghorwyr yn ceisio cwrdd â'r cleientiaid bob wythnos neu bob pythefnos, er bod ein hadolygiad o bortffolios yn awgrymu bod amledd y cyfarfodydd yn gallu ymestyn i fis, yn enwedig pan fo'r cyfranogwyr wrthi'n dilyn hyfforddiant neu'n chwilio am waith. Mae rhai cynghorwyr yn ceisio cynnal y momentwm trwy gadw mewn cysylltiad â'r cyfranogwyr rhwng y cyfarfodydd wyneb yn wyneb, a hynny'n bennaf trwy neges destun.

4.92 Cyferbyniodd sawl un o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau ddull ymgynghorwyr CaW o fynd ati â dull hyfforddwyr gwaith CBG, gydag unigolion yn dweud: ‘Dwi ddim yn hoffi'r ganolfan waith… Rwy'n credu bod y bobl yma'n fwy cyfeillgar… dyw'r bobl yn y ganolfan waith ddim yn hidio dim … dim ond

person arall [ydych chi]’, mae'r cynghorydd ‘yn hawdd siarad â hi, ddim fel y CBG ... dyw hi ddim yn llym, mae'n hawddgar ... Mae dyslecsia gen i, ac mae hi'n esbonio pethau mewn ffordd y galla'i ei deall. Mae hi'n fy nhrin i fel person go iawn' ac yn y CBG mae'r ffocws ar 'jyst cael job... unrhyw fath o job', ond mae CaW yn helpu'r cyfranogwyr i gyrchu hyfforddiant ac i'ch 'gwella eich hun a datblygu eich sgiliau'. Er bod y cleientiaid yn amlwg o'r farn bod y cynghorwyr yn fwy cydymdeimladol na'r hyfforddwyr gwaith, roedd rhai yn amlwg yn cydweithio y tu ôl i'r llen i symud pethau ymlaen ar gyfer y cleientiaid e.e. trwy gyrchu FSF y CBG.

4.93 Wrth gynorthwyo cyfranogwyr, mae mentoriaid yn aml yn dechrau trwy ddatblygu neu ddiweddaru CVs unigolion hefyd, er bod eu bwriadau yn hynny o beth ychydig bach yn wahanol i fwriadau'r cynghorwyr. Yn hytrach na pharatoi'r cleientiaid i chwilio am waith, pwrpas rhoi ffocws ar CVs yw helpu’r cyfranogwyr i weld bod rhywbeth ganddynt i'w gynnig, yn ogystal ag amlygu cyfleoedd i ddatblygu

4.94 Roedd hi'n glir bod y mentoriaid yn dueddol o weithio gydag unigolion sy'n bellach i ffwrdd o'r farchnad lafur ac sydd ag anghenion mwy cymhleth (er nad yw hynny’n wir bob tro). Mae ffocws gwaith y mentoriaid yn dueddol o fod ar feithrin gwytnwch a sgiliau'r cleientiaid trwy:

- dreulio amser gyda'r cleientiaid fesul un, gan drafod sialensiau ac archwilio ffyrdd o'u lliniaru
- helpu’r cleientiaid i ddelio â phroblemau sy'n eu hwynebu ar y pryd, fel biliau eu cymdeithasau tai neu lythyrau gan y DWP
- annog y cyfranogwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant â'r nod o ddatblygu eu hunan-barch a'u hyder
- annog y cyfranogwyr i gysylltu â hyfforddiant yn y sgiliau sylfaenol
- trefnu cyfleoedd i’r cleientiaid wirfoddoli, a hynny'n aml ar y cyd â Chynghorau Gwirfoddol Cymunedol (CGC) lleol. Roedd staff y rheng flaen yn aml yn gweld gwirfoddoli fel dull pwysig o fynd i'r afael â gorbryder cymdeithasol, datblygu sgiliau, meithrin hyder a darparu rhywbeth i'w gynnwys ar CV

- mynd yn gwmni i'r cyfranogwyr wrth iddynt fynychu hyfforddiant neu fanteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli
- gyrru'r cyfranogwyr i ganolfannau prawf e.e. i sefyll profion CSCS.

4.95 Ar y cyfan, mae'r mentoriaid yn fwy tueddol o ddefnyddio asiantaethau allanol i gynorthwyo eu cleientiaid na'r cynghorwyr, ac yn benodol:

- sefydliadau cymorth iechyd meddwl, er ei bod yn nodedig bod sawl cyfrannwr wedi sôn bod y galw am wasanaethau iechyd meddwl (gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol i bobl ifanc) yn llethol yn eu hardaloedd
- darparwyr iechyd, gan gynnwys ymarferwyr cyffredinol, am gymorth iechyd meddwl, rhaglenni rheoli anhwylderau/poen ac, yn gynyddol, rhaglenni presgripsiwn cymdeithasol
- asiantaethau cam-drin cyffuriau ac alcohol. Eto, soniodd y cyfranwyr am restrau aros hir, mewn un achos, pump wythnos rhwng cyfeirio'r person a'r asesiad cychwynnol, ac arhosiad pellach wedyn cyn yr apwyntiad cyntaf
- sefydliadau amgylcheddol a bywyd gwyllt (fel darparwyr cyfleoedd i wirfoddoli)
- Cymorth i Fenywod
- sefydliadau digartrefedd a thai
- Cyngor ar Bopeth a sefydliadau hawliau lles
- gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu
- banciau bwyd
- gwasanaethau cwnsela e.e. Gofal mewn Galar Cruse
- eglwysi, clybiau ieuenctid lleol ac ati, am gymorth ieuenctid.

4.96 Yn y cyd-destun hwn, mae hi'n werth pwysleisio bod asiantaethau cymorth fel hyn yn cyfeirio cleientiaid at CaW hefyd.

4.97 Ar y cyfan, roedd y mentoriaid yn ceisio cwrdd â'r cyfranogwyr bob wythnos neu bob pythefnos, er bod ein hadolygiad o bortffolios yn awgrymu bod

amledd a chysondeb y cyfarfodydd yn newid dros amser. Roedd hi'n eithaf clir o'r portffolios hefyd bod y cleientiaid yn aml yn canslo neu'n peidio â dod i'w hapwyntiadau, a bod rhai'n 'diflannu oddi ar y radar' am gyfnodau. Roedd hi'n glir hefyd bod mentoriaid, ac yn enwedig mentoriaid ieuenctid, yn gwneud defnydd sylweddol o negeseuon testun a'r cyfryngau cymdeithasol (Facebook) i gadw mewn cysylltiad â chleientiaid a'u hatgoffa am apwyntiadau neu gyrsiau hyfforddi. Mae rhai mentoriaid ieuenctid yn cyfathrebu â rhieni a neiniau a theidiau i gyrraedd y cleientiaid hefyd.

4.98 Dyluniwyd CaW i ganiatáu i gynghorwyr a mentoriaid weithio gyda chyfranogwyr dros gyfnod estynedig, sy'n darparu parhad cymorth, ac mae gwaith ymchwil blaenorol wedi dangos bod hyn yn ffactor pwysig wrth helpu unigolion i symud ymlaen i gyflogaeth. Roedd hi'n glir o'n cyfweliadau â chyfranogwyr eu bod yn gwerthfawrogi dilyniant yn eu cymorth, a bod hyn yn helpu i ddatblygu lefelau uchel o ymddiriedaeth rhwng cleientiaid a'u cynghorwyr neu fentoriaid. Roedd unigolion yn gadarnhaol dros ben am eu cynghorwyr/mentoriaid, gan eu disgrifio fel pobl 'gyfeillgar a hawdd mynd atynt' a chan ddweud: ‘Roeddwn i'n amheus ar y cychwyn, ond mae fy nghynghorydd wir wedi helpu', 'mae e'n hyblyg iawn ac mae'n deall fy sefyllfa, mae'n garedig iawn', 'rwy'n gwybod bod ganddo fy lles i mewn golwg, ac nad yw'n fy mharatoi i fethu’, ac 'mae e wedi rhoi hwb i mi ac wedi fy nghymell i chwilio am waith a bod yn onest'.

4.99 Y peth hanfodol yw, nad oedd y cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu 'gwthio' i mewn i swyddi cyn iddynt fod yn barod, neu i mewn i swyddi nad oedd yn addas yn eu barn nhw, gydag un cyfranogwr yn benodol yn dweud bod gan ei mentor 'ei thargedau, ond wnaiff hi ddim o’ch gwthio chi trwy ddweud y byddwch chi'n colli'ch budd-daliadau', ac un arall yn dweud 'nad ydyn nhw'n eich gwthio chi i wneud unrhyw swydd dan haul, maen nhw'n ceisio cael rhywbeth sydd ei eisiau arnoch'. Yn y cyswllt hwn, nododd y staff cyflawni 'nad oes unrhyw ddiben eu gwthio nhw i mewn i bethau os nad ydyn nhw'n barod ... dydyn nhw ddim yn datblygu o A i B ac yna C ... rhaid i chi weithio ar eu cyflymdra nhw, cymryd eu hochr nhw, dadlau drostyn nhw'. Fodd bynnag, roedd ffocws nifer o'r cynghorwyr a'r mentoriaid y siaradon ni â nhw ar dargedau, ac mae'n ddigon posibl fod yna risg y gallai cynghorwyr a

mentoriaid unigol annog unigolion i gymryd swyddi sy'n anaddas yn y tymor hwy er mwyn cyflawni eu targedau nhw.

4.100 Roedd nifer o'r cyfranwyr o dan yr argraff bod disgwyl i'r mentoriaid gyfeirio cleientiaid ymlaen at gynghorwyr am gymorth i chwilio am waith wrth iddynt ddod yn agosach i fod yn barod am waith. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r mentoriaid i'w gweld yn amharod i drosglwyddo cleientiaid ymlaen ar ôl ennill eu hymddiriedaeth a phan oeddent i'w gweld yn datblygu gyda'u cymorth, a hynny am eu bod yn ofni y gallai'r cyfranogwr golli momentwm o gael ei drosglwyddo i rywun anghyfarwydd. Wedi dweud hynny, ni chafodd y rhan fwyaf o'r mentoriaid eu penodi tan ail neu drydydd chwarter 2016, ac o gymryd y ffaith yr ystyrir bod eu cleientiaid (o ran theori o leiaf) 12 mis neu ragor o'r farchnad gwaith, gallai fod yn rhy fuan disgwyl i lawer o gyfeiriadau fod wedi digwydd.

4.101 Fodd bynnag, roedd yna esiamplau o gleientiaid yn cael eu cyfeirio o'r cynghorwyr i'r mentoriaid, a chleientiaid oedd y rhain yr oedd angen lefelau uwch o gymorth arnynt fel rheol (e.e. er mwyn delio â rhwystrau uniongyrchol i gyflogaeth), ond a oedd wedi bod yn gweithio gyda chynghorwyr. Weithiau, nid oedd y rhwystrau wedi dod i'r amlwg nes bod y cynghorwyr yn gweithio gyda'r cyfranogwyr, ond mewn nifer o achosion, cleientiaid oedd y rhain a oedd wedi bod yn gweithio gyda'r cynghorwyr cyn i'r mentoriaid gael eu penodi.

**Hyfforddiant**

4.102 Clustnodwyd diffyg sgiliau neu gymwysterau perthnasol fel rhwystrau i gyflogaeth yng nghynlluniau busnes CaW. Ar y sail honno, mae amryw o fathau o hyfforddiant yn agored i gyfranogwyr CaW fel ffordd o gynyddu eu sgiliau a'u cyflogadwyedd. Darparwyr y brif ffrwd (e.e. colegau a darparwyr hyfforddiant lleol), Cymunedau yn Gyntaf a’r darparydd hyfforddiant/asiant rheoli a gaffaeliwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyrsiau yn benodol er mwyn diwallu anghenion cyfranogwyr CaW sy’n darparu’r hyfforddiant.

4.103 Neges flaenllaw glir o'n gwaith maes yw bod staff cyflawni'r rheng flaen o’r farn bod CG yn ffynhonnell pwysig o hyfforddiant ar gyfer cyfranogwyr CaW ar draws Cymru. Yn wir, hi yw'r brif ffynhonnell hyfforddiant yn y rhan fwyaf o'r clystyrau, ac mae llawer o staff cyflawni'r rheng flaen yn ei ddisgrifio fel 'y man

cyntaf i droi ato', er bod y mentoriaid ychydig bach yn fwy tebygol o ddweud hynny na'r ymgynghorwyr. Gwneir rhywfaint o ddefnydd o'r ddarpariaeth Addysg i Oedolion ac Addysg Gymunedol, a darpariaeth leol arall hefyd, gan gynnwys cyrsiau a ddarperir mewn Canolfannau Gwaith lleol. Roedd hi'n glir bod y rhagdybiaeth a wnaed adeg datblygu'r rhaglen, sef 'bod timau CG wedi'u rhwydweithio'n helaeth i mewn i'r gwasanaethau a oedd ar gael yn eu hardaloedd' yn deg.

4.104 Mae'r hyfforddiant a geir trwy CG ar y cyfan am gyfnod byr, mae'n cael ei ddarparu'n lleol iawn ac mae gan lawer ohono ffocws cryf ar sgiliau cyflogadwyedd sylfaenol e.e. Cymorth Cyntaf , Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch a Chodi a Chario. Dadleuwyd bod cyrsiau o'r fath yn helpu i fagu hyder ac ysgogiad y cyfranogwyr, a'u taclu â'r ardystiad sylfaenol sydd ei hangen ar gyfer llawer o wahanol rolau. Roedd hyfforddiant yn y sgiliau sylfaenol yn nodwedd o'r ddarpariaeth a gafwyd trwy CG hefyd, gyda theitlau fel 'Blas ar Saesneg' neu 'Blas ar Fathemateg' yn cael eu defnyddio, yn ogystal â 'llythrennedd', 'rhifedd' a 'TGCh'.

4.105 Roedd hyfforddiant y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) ac Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) yn elfennau pwysig o'r ddarpariaeth a gyflawnir o dan faner CG yn y rhan fwyaf o'r clystyrau, gyda rhai yn cynnig rhaglen 'dreigl' o gyrsiau o'r fath[75]. Roedd hi'n glir o'n hadolygiad o bortffolios a'n trafodaethau gyda chyfranogwyr mai dynion oedd yn cyflawni hyfforddiant o'r math hwn yn bennaf, er bod staff CaW yn agored i werth bosibl ardystiad ar gyfer y diwydiannau adeiladu a diogelwch i fenywod hefyd. Mewn ambell i glwstwr, roedd CG yn cynnig cyrsiau 'cyflwyniad i' neu 'cychwyn ar' gyda'r nod o roi blas i'r cyfranogwyr, a darparu'r sgiliau 'hanfodol' oedd eu hangen ar bobl i weithio mewn sectorau fel gwallt a harddwch, gofal iechyd, lletygarwch ac adwerthu[76].

4.106 Ochr yn ochr â'r ddarpariaeth fwy galwedigaethol, roedd cyrsiau y bwriedir iddynt fagu hyder a chymhelliant y cyfranogwyr yn cael eu darparu yn y rhan fwyaf o'r clystyrau, ac ystyriwyd bod hyfforddiant 'STEPS' y Pacific Institute yn ddull arbennig o effeithiol o fynd ati gyda'r bobl ifanc (16-24 oed). Yn wir, roedd un mentor CaW, a oedd yn ymarferydd STEPS achrededig ei hun, yn

[75] Mae darparydd hyfforddiant dynodedig CaW yn cynnig hyfforddiant o'r math yma hefyd.
[76] Eto, mae darparydd hyfforddiant dynodedig CaW yn darparu cyrsiau o'r math yma

defnyddio technegau STEPS gyda chyfranogwyr fesul un, er mwyn eu cynorthwyo i adnabod y pethau sy'n eu hatal, a phennu nodau i'w galluogi i sbarduno tro ar fyd.

4.107 Roedd timau CaW yn defnyddio hyfforddiant y brif ffrwd, fel yr hyfforddiant a ddarperir gan adrannau addysg barhaus i oedolion awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach, ond ar raddfa is o lawer na'r ddarpariaeth a wneir o dan faner CG. Yn wir, roedd darparwyr y brif ffrwd yn cydweithio'n agos â CG mewn rhai ardaloedd, gyda chyrsiau'n cael eu hyrwyddo gan CG, ac yn cael eu darparu ar safleoedd CG neu CBG mewn ambell i achos. Yn ei hanfod, roedd hi'n anodd gwahaniaethu rhwng darpariaeth CG a darpariaeth y brif ffrwd yn lleol mewn rhai ardaloedd.


4.108 Archwiliodd ein harolwg o staff y rheng flaen eu safbwyntiau am y ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer cyfranogwyr yn eu hardaloedd. Yn benodol, gofynnwyd cwestiynau am argaeledd, perthnasedd, ansawdd ac effeithiolrwydd mathau penodol o hyfforddiant.

4.109 Mae Ffigur 4.2 yn dangos safbwyntiau'r rhai a ymatebodd i'r arolwg am argaeledd, perthnasedd, ansawdd ac effeithiolrwydd darpariaeth hyfforddiant CG a'r brif ffrwd yn eu hardaloedd. Mae'n dangos bod 71 y cant o'r ymatebwyr (99) yn teimlo bod darpariaeth CG a darpariaeth y brif ffrwdd yn hawdd iawn neu'n weddol hawdd eu defnyddio, a bod 73 y cant (102) yn ei chael hi'n berthnasol iawn neu'n weddol berthnasol i anghenion y cyfranogwyr. Adlewyrchwyd hyn yn gryf yn ystod ein gwaith maes, gyda staff cyflawni'r rheng flaen yn nodi 'ei bod hi'n dda ei bod hi [ar gael] ar stepen y drws', ar lefelau 'hawdd eu rheoli'. Dywedwyd hefyd bod yr hyfforddiant yn taro cydbwysedd priodol yn nhermau mynd i'r afael ag anghenion cyfranogwyr, a hynny wrth gadw ffocws ar gyfleoedd yn y farchnad lafur leol.

4.110 Yn seiliedig ar adborth y cleientiaid yn bennaf, roedd 69 y cant o staff CaW a ymatebodd i'n harolwg (97) yn teimlo bod hyfforddiant CG a hyfforddiant y brif ffrwd o ansawdd da iawn neu weddol dda, ac eto adlewyrchodd staff CaW a gafodd gyfweliadau yn ystod ein gwaith maes hyn hefyd. Roedd y mentoriaid ieuenctid yn fwy tebygol na staff arall y rheng flaen o ddweud bod ansawdd darpariaeth CG a darpariaeth arall y brif ffrwd o ansawdd wael neu wael iawn,

er bod y mwyafrif o'r mentoriaid ieuenctid a oedd o'r farn honno’n gweithio mewn clystyrau yn ardal yr un awdurdod lleol.

**Ffigur 4.3 Safbwyntiau ymatebwyr i'r arolwg am argaeledd, perthnasedd, ansawdd ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarperir gan Gymunedau yn Gyntaf a darparwyr y brif ffrwd**




4.111 Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg ychydig bach yn fwy tawedog am effeithiolrwydd hyfforddiant CG a'r brif ffrwd wrth baratoi cyfranogwyr ar gyfer cyflogaeth, gyda 62 y cant (87) yn dweud bod yr hyfforddiant yn effeithiol iawn neu'n weddol effeithiol. Cynigiodd 22 y cant o'r ymatebwyr (31) ymatebion niwtral i'r cwestiwn, gan ddweud nad yw'r hyfforddiant yn dda nac yn wael neu nad oeddent yn gwybod pa mor effeithiol yr oedd e. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith y cyflawnwyd yr arolwg ar gam gweddol gynnar ym mywyd rhaglen CaW, a'i bod hi'n rhy fuan i effeithiau'r hyfforddiant ar lawer o'r cyfranogwyr fod wedi dod i'r amlwg.

4.112 Roedd y 119 o gyfranogwyr a gafodd gyfweliadau’n llawn canmoliaeth am hygyrchedd, perthnasedd ac ansawdd yr hyfforddiant yr oeddent wedi ei gyflawni. Roedd llawer o'r rhai a gafodd gyfweliadau’n teimlo eu bod wedi cyflawni rhywbeth trwy gwblhau'r cyrsiau neu trwy ennill 'tystysgrifau' mewn meysydd fel Cymorth Cyntaf, Iechyd a Diogelwch neu Godi a Chario sylfaenol. Roedd unigolion yn credu hefyd bod yr hyfforddiant yr oeddent wedi ei gael wedi gwella eu cyfleoedd o gael swydd: 'Rydw i jyst yn aros am fy

ngherdyn [SIA] ... wedyn fydd ddim angen i mi chwilio am lawer o swyddi ... mae'r boi 'ma wedi dweud wrtha i'n barod, pan fydd cerdyn gen i, y bydd e'n gweld a oes swydd ganddo fe i fi'.

4.113 Roedd yna bryder eang ymysg staff CaW y gallai cau'r rhaglen CG ddwyn goblygiadau difrifol o ran argaeledd hyfforddiant hygyrch ar lefel weddol isel sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn eu hardaloedd. Yn wir, nododd rhai eu bod eisoes wedi sylwi ar ostyngiad ym maint y ddarpariaeth sydd ar gael yn eu hardal. Mynegwyd pryder hefyd am hyfywedd darparwyr hyfforddiant bychain, lleol a oedd yn dibynnu i ryw raddau ar fusnes CG.

4.114 Mae Llywodraeth Cymru wedi contractio un darparydd i ddarparu hyfforddiant lle nad oes darpariaeth addas ar gael yn lleol trwy ffynonellau'r brif ffrwd neu trwy CG. Mae'r contract, a ddaeth i rym yn Ebrill 2016, yn mynnu bod y darparydd hyfforddiant argadwedig yn defnyddio isgontractwyr i gyflawni o leiaf 60% o'r hyfforddiant a ddarperir. Mae hyn yn golygu bod gan y darparydd hyfforddiant gontractau treigl yn ôl y gofyn gyda dros 80 o ddarparwyr y brif ffrwd ac arbenigol ledled Cymru, gan gynnwys rhai o'r darparwyr hynny sy'n darparu hyfforddiant o dan faner CG. Fel prif gontractwr, mae gofyn i'r darparydd a gyflogir gan Lywodraeth Cymru sicrhau ansawdd darpariaeth ei is-gontractwyr.

4.115 Mae telerau contract Llywodraeth Cymru'n mynnu hefyd bod y darparydd yn sefydlu system bwcio electronig (EBS) sy'n caniatáu i staff y rheng flaen weld y mathau o gyrsiau sydd ar gael, bwcio cyfranogwyr ar ddarpariaeth benodol, a gweld y cynnydd y mae'r cyfranogwyr yn ei wneud a'r cymwysterau y maent wedi eu hennill. Y bwriad oedd y byddai'r EBS yn cysylltu â'r gronfa ddata o gyfranogwyr a luniwyd gan y CCA a'r DWP ac a oedd yn cael ei choladu gan Lywodraeth Cymru, er mwyn caniatáu iddynt gynhyrchu data a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau am effeithiau ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant a gyflawnwyd yn nhermau datblygiad y cyfranogwyr tuag at y farchnad lafur.

4.116 Cymerodd yn hirach o lawer na'r disgwyl i'r EBS fod yn llwyr weithredol, ac un rheswm am hynny oedd yr angen am 'gyflawni archwiliadau iechyd TG'. Er bod system brototeip weithredol yn ei lle erbyn Medi 2016, ni chafodd y system ei lansio'n llwyr tan Ebrill 2017. Hyd yn oed bryd hynny, roedd y

system yn dal i fod yn 'waith ar y gweill' ac roedd yna ragor i'w wneud yn nhermau cyflwyno'r EBS i staff rheng flaen CaW[77] a sefydlu'r staff fel defnyddwyr y system, â phob un â'i fanylion mewngofnodi ei hun.

4.117 Yn ystod y cyfnod interim o 12 mis, bu'r darparydd hyfforddiant argadwedig yn gweithredu system a oedd yn bwcio cyfranogwyr ar gyrsiau â llaw. Roedd nifer y ceisiadau am hyfforddiant a ddaeth i law yn llethol, fodd bynnag, ac er iddynt gyflogi staff ychwanegol, nid oedd system y darparydd yn ddigonol ar gyfer y dasg. Dywedodd sawl un o'r cyfranogwyr eu wedi bod o dan yr argraff bod y darparydd wedi ei chael hi'n anodd ymdopi â lefel y galw a'i hwynebodd.


4.118 Roedd yna ryw lefel o orgyffwrdd yn y teitlau a oedd yn cael eu cyflwyno gan ddarparydd hyfforddiant argadwedig Llywodraeth Cymru a'r rhai a oedd yn cael eu cyflwyno gan CG, er bod gan staff lleol CaW ddisgresiwn llwyr o ran yr hyfforddiant y maent yn gofyn amdano. Er enghraifft, roedd darparydd hyfforddiant dynodedig CaW yn darparu cyrsiau ar sgiliau cyflogadwyedd generig fel Cymorth Cyntaf a Chodi a Chario, yn ogystal â theitlau ar gyfer sectorau penodol fel CSCS a SIA. Roedd yn cyflwyno darpariaeth fwy arbenigol hefyd, fel Dylunio â Chymorth Cyfrifiadur (CAD), llyfrifeg, hyfforddiant gyrru Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV) a bod yn gapten cwch, weithiau ar gyfer grwpiau bychain neu fesul un. Yn ogystal â hyn, mae'r darparydd hyfforddiant wedi darparu 'pecynnau galwedigaethol' sy'n gwarantu cyfweliadau i'r cyfranogwyr ar ôl iddynt gwblhau'r hyfforddiant, a hynny diolch i ymgysylltiad cyflogwyr mwy.

4.119 Er bod darparydd hyfforddiant argadwedig Llywodraeth Cymru wedi derbyn mwy na 2,300 o geisiadau i ddilyn cyrsiau ar gyfer dros 1,800 o unigolion erbyn Mai 2017, nid oedd holl staff cyflawni CaW a siaradodd â ni yn ystod ein gwaith maes wedi cysylltu ag ef, a hynny fel rheol am nad oeddent yn gallu dod o hyd i'r hyfforddiant yr oedd ei angen ar eu cleientiaid yn lleol. Roedd hyn yn amlwg hefyd o'r gyfran o ymatebwyr i'n harolwg o staff CaW a ddewisodd y blwch 'ddim yn gwybod' mewn ymateb i gwestiynau am argaeledd, perthnasedd, ansawdd ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant a ddarparwyd gan y darparydd dynodedig, fel y mae Ffigur 4.3 isod yn ei ddangos. Mae hi'n bosibl hefyd nad oedd gan y rhai a ddewisodd yr ymateb

[77] Yn ogystal â staff PaCE: mae'r contract rhwng Llywodraeth Cymru a'r darparydd dethol yn cwmpasu hyfforddiant ar gyfer pobl sy'n cymryd rhan yn rhaglen CaW a rhaglen PaCE

niwtral 'ddim yn dda nac yn wael' ddigono brofiad o ddefnyddio'r darparydd dynodedig i ddewis mynd y naill ochr i'r llall.

**Ffigur 4.4: Safbwyntiau ymatebwyr i'r arolwg am argaeledd, amrywiaeth, perthnasedd, ansawdd ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant grŵp galwedigaethol a ddarparwyd gan ddarparydd hyfforddiant argadwedig Llywodraeth Cymru**




4.120 Roedd 21 y cant o'r ymatebwyr (29) yn teimlo bod yr hyfforddiant roedden nhw am ei gael ar gyfer cyfranogwyr ar gael yn rhwydd [78] ond roedd 39 y cant (54) yn teimlo bod argaeledd y cyrsiau'n wael[79]. Roedd ein trafodaethau â staff CaW yn adleisio hyn yn gadarn, wrth iddynt wneud dau bwynt allweddol am argaeledd y cyrsiau:

- yn gyntaf, dywedwyd y bu oedi hir rhwng cyflwyno ceisiadau am hyfforddiant a chynnal cyrsiau. Soniodd y bobl a gafodd gyfweliadau am oedi hir, a chadw'r cyfranogwyr yn 'hongian'. Soniwyd am amserau aros o hyd at 'naw mis', a siaradodd rhai cyfranwyr am gyfranogwyr yn 'cymryd

[78] Roedd hyn gyfwerth â 35% o'r rhai a ymatebodd naill ai dda neu wael
[79] Roedd hyn gyfwerth â 65% o'r rhai a ymatebodd naill ai dda neu wael

unrhyw hen swydd' yn hytrach nag aros am hyfforddiant a allai eu galluogi i fynd i gyflogaeth fwy cynaliadwy.

- yn ail, dadleuwyd bod y cyfranogwyr yn cael cynigion i fynychu cyrsiau mewn llefydd nad oeddent yn gallu eu cyrraedd, oherwydd y pellter i gyrraedd y lleoliadau penodol ac oherwydd yr amser yr oedd disgwyl i'r unigolion hynny gyrraedd y lleoliadau hynny. Soniodd un cynghorydd am gleient a fyddai'n gorfod gadael y dref lle'r oedd yn byw 'ar drên 6.27am er mwyn cyrraedd cwrs yn brydlon’. Fodd bynnag, wedi dweud hynny, roedd rhai cyfranwyr yn derbyn y byddai angen i gyfranogwyr deithio rhyw bellter oddi cartref i ddiogelu cyflogaeth yn y meysydd y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt, felly mae hi'n ddigon posibl y gallai teithio am hyfforddiant fod yn gam cyntaf ar y siwrnai i gyflogaeth.

4.121 Wrth drefnu'r ddarpariaeth, mae'r darparydd sydd dan gontract i Lywodraeth Cymru'n wynebu'r her o gydbwyso'r angen am gynnig cyrsiau mor gyflym ac mor lleol â phosibl â'r angen am dynnu ynghyd grwpiau digon mawr o gyfranogwyr i wneud y cyrsiau'n hyfyw iddo, neu i'r darparwyr y mae'n is-gontractio iddynt. Cydnabyddir bod hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd llai poblog fel gogledd-orllewin Cymru. Roedd rhai o'r timau clwstwr yn cydnabod hyn, ac roeddent wedi ceisio tynnu ynghyd grwpiau o gyfranogwyr yr oedd arnynt angen yr un hyfforddiant neu hyfforddiant tebyg. Yn wir, damcaniaethodd un cyfrannwr y gallai tynnu grwpiau o'r un gymuned ynghyd beri i'r cyfranogwyr fod yn fwy tebygol o fynychu hyfforddiant, yn gyntaf am y byddent yn teimlo'n fwy cyffyrddus ymysg wynebau cyfarwydd, ac yn ail, am y byddent yn teimlo bod rhaid iddynt fynd, yn hytrach na siomi pobl y maent yn eu hadnabod. Mae Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo'r arfer hwn.

4.122 Roedd 35% (49) o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo bod yr hyfforddiant a ddarparwyd gan y darparydd sydd dan gontract i Lywodraeth Cymru'n berthnasol i anghenion y cyfranogwyr[80], gydag 17 y cant (23) yn dweud nad oedd hi'n berthnasol[81].

[80] Roedd hyn gyfwerth â 68% o'r rhai a ymatebodd gan ddweud da neu wael
[81] Roedd hyn gyfwerth â 32% o'r rhai a ymatebodd gan ddweud da neu wael

4.123 Roedd 32 y cant (44) o'r ymatebwyr yn teimlo bod hyfforddiant y darparydd argadwedig o ansawdd da[82], er i 14 y cant (19) ddweud ei fod yn wael[83]. Er nad oedd llawer o'r cyfranogwyr y cawsom gyfarfodydd â nhw wedi dilyn hyfforddiant y darparydd ar gadw, roedd y rhai a oedd wedi cael hyfforddiant gan y darparydd i'w gweld yn meddwl ei fod wedi bod o ansawdd da, gydag un unigolyn yn disgrifio ei brofiad fel 'ffantastig'.

4.124 Soniodd nifer o'r cyfranwyr am broblemau wrth gyfathrebu â darparydd argadwedig Llywodraeth Cymru, gyda chwynion penodol o ran nad oedd y sefydliad yn dychwelyd galwadau, nad oeddent yn ymateb i geisiadau am fathau penodol o hyfforddiant, eu bod yn ysgrifennu at gyfranogwyr ond heb rannu gwybodaeth â'r timau CaW, a’u bod yn colli gwaith papur. Nododd lond llaw o gyfranwyr hefyd nad oeddent bob amser yn cyflwyno tystysgrifau i'r cyfranogwyr yn brydlon, a oedd yn achosi problemau lle'r oedd y tystysgrifau hynny'n hanfodol ar gyfer swyddi penodol. O ran y pwynt olaf yma, dylid nodi y gellir priodoli'r oedi hyn, yn rhannol o leiaf, i'r amser a gymerodd i'r cyrff dyfarnu gyhoeddi'r tystysgrifau.

4.125 Mae'r diffygion canfyddedig yng ngwasanaethu'r darparydd hyfforddiant sydd ar gadw gan Lywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn gyntaf ei gysylltiad â'r rhaglen wedi arwain at 'rwystredigaeth' ar ran staff y rheng flaen, a hyd yn oed wedi magu amharodrwydd ymysg y rhai nad ydynt wedi defnyddio gwasanaethau'r sefydliadau hyd yn hyn am eu bod wedi clywed adroddiadau gwael gan bobl eraill. Fodd bynnag, ar y cyfan roedd y cyfranwyr yn 'obeithiol' y byddai pethau'n gwella wrth i'r EBS gael ei gyflwyno i bawb, ac wrth i unrhyw wallau sy'n weddill gael eu trwsio. Mae'r darparydd hyfforddiant argadwedig wedi cychwyn cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol â'r nod o gyflwyno'r EBS ac i glywed gan ddefnyddwyr y rheng flaen sut y gellir gwella ar y system, a pha fathau o ddarpariaeth y gallai fod ei hangen yn eu hardaloedd.

4.126 Dywedodd 36 y cant o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg (51) eu bod wedi profi anawsterau wrth ddod o hyd i hyfforddiant priodol trwy CG, darparwyr y brif ffrwd neu ddarparydd dynodedig CaW, er nad oedd unrhyw batrwm clir o ran y mathau o hyfforddiant yr oeddent yn ei ffeindio'n anodd eu trefnu. Yn wir

[82] Roedd hyn gyfwerth â 70% o'r rhai a ymatebodd gan ddweud da neu wael
[83] Roedd hyn gyfwerth â 30% o'r rhai a ymatebodd gan ddweud da neu wael

roedd nifer o'r teitlau a awgrymwyd yn cyd-fynd â'r cyrsiau oedd yn cael eu darparu naill ai gan CG neu ddarparydd argadwedig Llywodraeth Cymru, neu gan y ddau, sy'n awgrymu bod yr anawsterau yr oeddent yn cyfeirio atynt yn ymwneud yn hytrach â lleoliad neu amseriad y ddarpariaeth.

4.127 Fel y soniwyd uchod, roedd yna bryder eang ymysg staff CaW am argaeledd hyfforddiant hygyrch yn eu hardaloedd yn y dyfodol ar ôl dirwyn y rhaglen CG i ben. Cafodd y pryder hwn ei dwysáu i rai gan eu profiadau negyddol o gysylltu â darparydd hyfforddiant argadwedig Llywodraeth Cymru. Dadleuodd nifer o gyfranwyr y dylid dyrannu cyllidebau i dimau CaW a fyddai'n caniatáu iddynt brynu hyfforddiant i mewn pan fo angen, a hynny ar hyd yr un llinellau â'r model a fabwysiadwyd ar gyfer y rhaglen Esgyn. Yn wir, dadleuodd rhai y gallai hynny arwain at arbedion o ran costau am y byddai'n torri allan y 'dyn canol', ar ffurf darparydd hyfforddiant argadwedig Llywodraeth Cymru. Efallai ei bod hi'n werth nodi yn y cyd-destun hwn bod penderfyniad Llywodraeth Cymru i gaffael hyfforddiant canolog ar gyfer CaW wedi cael ei yrru gan yr angen am gydymffurfio â rheoliadau ESF.

4.128 Er eu bod yn is o lawer o ran eu nifer, roedd staff eraill CaW yn cydnabod manteision posibl model wedi ei gaffael yn ganolog yn nhermau sicrhau cysondeb ar draws y clystyrau ac yn nhermau'r potensial y mae'r EBS yn ei gynnig ar gyfer monitro natur a graddfa’r hyfforddiant sy'n cael ei gyflawni, ac o ran cysylltu cynnydd y cyfranogwyr â'r hyfforddiant a gyflawnwyd.

**Y Gronfa Rwystrau**


4.129 Cyflwynwyd y Gronfa Rwystrau i helpu i gynorthwyo cyfranogwyr i brynu eitemau hanfodol, na fyddent yn gallu cymryd swydd neu gymryd rhan mewn gweithgaredd cymeradwy hebddynt. Bwriedir iddi fod yn gronfa pan fetho popeth arall, ac mae disgwyl i staff CaW droi at ffynonellau posibl eraill, e.e. CG neu FCF y CBG cyn gwneud cais i Gronfa Rwystrau CaW.

4.130 Er mwyn cyrchu arian y Gronfa Rwystrau ar ran y cleientiaid, mae gofyn i staff CaW ddisgrifio pam fod angen y cyllid ('y rhesymeg'), dangos bod yr holl opsiynau eraill wedi cael eu disbyddu, a darparu tri dyfynbris ar gyfer yr eitemau i'w prynu. Wedyn mae ceisiadau am gyllid yn cael eu cymeradwyo (neu eu gwrthod) gan y rheolwr llinell lleol ac yn dod yn rhan o dystiolaeth y portffolio

4.131 Mae Ffigur 4.4 yn dangos mai costau teithio oedd y defnydd mwyaf cyffredin o'r Gronfa Rwystrau yn ôl y rhai a ymatebodd i'n harolwg o staff y rheng flaen, gyda 58 y cant o'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi defnyddio cyllid o'r gronfa i helpu cleientiaid i dalu costau o'r fath. Dywedodd bron i hanner (48 y cant) yr ymatebwyr eu bod wedi defnyddio'r Gronfa Rwystrau i helpu cleientiaid i brynu dillad sy'n addas ar gyfer y gwaith, a dywedodd dros draen eu bod wedi defnyddio'r Gronfa i dalu costau archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), sy'n hanfodol ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes gofal plant neu ofal iechyd, er enghraifft. Mae hi'n nodedig yn y cyd-destun hwn na ellir defnyddio Cronfa Gymorth Hyblyg (FSF) y CBG i dalu am archwiliadau DBS.

4.132 Mae ychydig dros chwarter yr ymatebwyr yn dweud eu bod wedi cyrchu'r Gronfa Rwystrau i helpu cleientiaid i dalu costau gofal plant wrth ddilyn hyfforddiant neu wrth fynd am gyfweliad, a dywedodd 16 y cant eu bod wedi defnyddio'r Gronfa i helpu cleientiaid i brynu offer sy'n gysylltiedig â gwaith.

**Ffigur 4.5: Treuliau y defnyddiwyd y Gronfa Rwystrau i'w talu** ***(n=123)***




4.133 Roedd y costau eraill y defnyddiwyd y Gronfa Rwystrau i'w talu yn cynnwys cost cardiau achrediad Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) a'r Cynllun Achredu Sgiliau Adeiladu (CSCS). Nododd nifer fechan o ymatebwyr eu bod wedi ei chael hi'n anodd cyrchu'r Gronfa Rwystrau i dalu am wersi gyrru i

gleientiaid, er bod y Canllawiau Gweithredol yn glir 'y gellir prynu gwersi gyrru os cludiant preifat yw'r unig ddull hyfyw o ddiogelu a chynnal cyflogaeth'[84]. Dadleuwyd bod methu â gyrru'n gallu bod yn rhwystr pwysig i gyflogaeth i bobl nad ydynt yn byw mewn trefi a dinasoedd, neu i bobl sydd am weithio mewn lleoliadau sy'n cynnig gwaith sifft ac mae dysgu sut i yrru, felly, yn gost ddilys i'w symud yn agosach at gyflogaeth.

4.134 Dywedodd 21 y cant o'r ymatebwyr (30) bod y Gronfa Rwystrau'n hanfodol wrth helpu'r rhan fwyaf o gyfranogwyr i symud yn agosach at gyflogaeth, dywedodd 40 y cant (56) ei bod yn hanfodol i rai cyfranogwyr yn unig. Roedd 19 y cant pellach (27) yn teimlo bod y Gronfa Rwystrau'n weddol bwysig i gyfranogwyr. Er mai nifer fach o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliad a ddywedodd eu bod wedi elwa ar gymorth y Gronfa Rwystrau, dywedodd y rhain ei bod wedi bod yn amhrisiadwy iddynt. Er enghraifft, dywedodd person ifanc a oedd wedi cael cymorth i brynu dillad addas ar gyfer leoliad gwaith ei fod wedi bod o gymorth i'w alluogi i 'ffitio i mewn', a dywedodd dyn ifanc digartref 'na fyddai wedi gallu sefyll arholiad [CSCS] heb ddogfen adnabod â ffotograff', a'i fod wedi cael cymorth y Gronfa Rwystrau i gael dogfen o'r fath.

4.135 Dywedodd 12 y cant o'r ymatebwyr (17) nad oeddent wedi cyrchu'r Gronfa Rwystrau ar ran eu cleientiaid hyd yn hyn. Mae ein trafodaethau â chynghorwyr a mentoriaid yn awgrymu bod hyn, i ryw raddau, am eu bod wedi cyrchu'r cyllid yr oedd ei angen ar eu cleientiaid trwy CG, CBG ac yn wir, ffynonellau eraill, fel y bwriadwyd wrth ddylunio'r rhaglen. Roedd hi'n glir bod cynghorwyr yn benodol yn gweld y CBG fel 'y lle cyntaf i droi' wrth chwilio am gyllid i helpu cleientiaid.

4.136 Thema a gododd dro ar ôl tro yn ystod ein gwaith maes oedd biwrocratiaeth a chymhlethrwydd proses y Gronfa Rwystrau, gyda nifer o'r cyfranwyr yn dweud 'mae'r broses mor gymhleth'. Yn benodol, roedd y cyfranwyr yn meddwl bod faint o waith papur yr oedd angen ei wneud i baratoi'r achos a dangos bod pob llwybr arall wedi cael ei ddisbyddu, a'r ffaith fod angen cael tri dyfynbris, yn aml yn anghymesur â gwerth y ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno. Ychwanegodd un cyfrannwr bod y syniad o gael eich cwestiynu am eich rhesymeg dros wneud cais yn rheswm arall i osgoi'r Gronfa Rwystrau.

[84] Llywodraeth Cymru, Canllawiau Gweithredol CaW, t.42

Dywedodd un cyfrannwr nad oedd wedi cyrchu'r Gronfa Rwystrau hyd yn hyn 'mae'n codi braw arna'i ... ffurflen gais wyth tudalen a gorfod profi cymaint o bethau'.

4.137 Roedd y cyfranwyr yn teimlo hefyd nad yw hi'n gwneud synnwyr bod y Gronfa Rwystrau'n talu rhai costau'n ôl-weithredol yn unig, sy'n golygu bod cyfranogwyr yn gorfod talu am bethau fel costau teithio o'r bron, er nad ydynt yn gallu fforddio gwneud hynny. Awgrymodd y cyfranogwyr y dylid rhyddhau 'cronfa arian parod' er mwyn helpu i dalu rhai costau o'r bron[85].

4.138 Galwodd nifer o gyfranogwyr am symleiddio'r prosesau ar gyfer ymgeisio i'r Gronfa Rwystrau ac am welliant sylweddol yn yr amser y mae'n ei gymryd i brosesu ceisiadau. Cyfeiriodd rhai at symlrwydd cymharol cronfa rwystrau Esgyn, ac awgrymwyd y gallai hynny fod yn fodel i'w ddilyn[86]. Yn wir, mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn y cafodd y gwerthusiad o'r rhaglen Esgyn bod y gronfa rwystrau yn ymatebol iawn, a'i bod yn gallu ymateb i rwystrau wrth iddynt godi[87]. Galwodd cyfranwyr unigol hefyd am fwy o eglurder ynghylch beth yn union y gellir ei gefnogi, a beth na ellir ei gefnogi trwy'r Gronfa Rwystrau, er bod y Canllawiau Gweithredol eisoes yn disgrifio hyn mewn tipyn o fanylder. Awgrymodd un unigolyn y byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r meini prawf y mae'n eu defnyddio pan fo ceisiadau'n cael eu cyfeirio at y gronfa, a hynny o bosibl gan ddefnyddio rhyw fath o siart benderfynu er mwyn rhoi gwell dirnadaeth i staff y rheng flaen am y rhesymeg a ddefnyddir.

### Ymadael â'r rhaglen

4.139 Mae cyfranogwyr CaW yn ymadael â'r rhaglen pan fyddant mewn cyflogaeth. O fewn dyluniad CaW, nid oes unrhyw fwriad i ddarparu cymorth mewn gwaith ar sail fwy ffurfiol na chymorth posibl mewn argyfwng ar gais.

4.140 Gall cyfranogwyr ymadael â'r rhaglen o'u gwirfodd hefyd, os nad ydynt yn teimlo ei bod yn addas iddyn nhw. Gall staff y rhaglen derfynu cysylltiad unigolion sy'n methu â chysylltu â'r rhaglen neu y maent yn teimlo eu bod yn

[85] Dylid nod bod rhai CCA yn gweithredu systemau 'arian parod', a gwelsom esiamplau o rai cronfeydd o'r fath yn cael eu defnyddio i dalu costau'r cyfranogwyr yn y tymor byr

[86] Dylid nodi bod CaW yn rwym wrth amodau sy'n ymwneud â defnyddio cyllid ESF, ond nid yw Esgyn yn rwym wrth amodau o'r fath.

[87] Llywodraeth Cymru (2016c), *Gwerthusiad o'r Rhaglen Esgyn, Cyfnod 2 - Astudiaeth Weithredu: Ffurf Strwythurol ac Arferion Gweithredol Esgyn*

annhebygol o ddatblygu ymhellach â chymorth CaW hefyd. Mae rhai cynghorwyr yn ymarfer polisi meddal 'tri chyfle ac allan', lle bod cleientiaid nad ydynt yn dod i dri apwyntiad olynol yn cael eu troi allan yn awtomatig, er bod yna rywfaint o hyblygrwydd o gylch y dull hwnnw.

4.141 Fel y nodwyd eisoes, roedd hi'n glir o'r portffolios bod cleientiaid y aml yn canslo neu'n methu â dod i apwyntiadau, a bod rhai yn 'diflannu oddi ar y radar' am gyfnodau ar y tro. Mae rhai mentoriaid yn ystyried cleientiaid o'r fath yn 'segur', ac maent yn cadw eu hachosion yn agored o fewn eu beichiau gwaith, er nad ydynt yn cysylltu'n ymarferol â'r rhaglen. Mae hyn yn awgrymu y gallai beichiau achosion rhai mentoriaid edrych yn drymach nag y maen nhw mewn gwirionedd.

4.142 Nid yw'n ymddangos bod cadw cleientiaid 'segur' ar eu llyfrau yn achosi unrhyw broblemau i'r mentoriaid ar hyn o bryd am nad oes gan y mwyafrif helaeth ohonynt gynifer o gleientiaid ag y byddent yn ei ddymuno. Fodd bynnag, gallai'r sefyllfa newid pe bai nifer y cysylltiadau'n cynyddu.

## 5. Allbynnau a deilliannau cynnar

5.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n ystyried y cynnydd a wnaed hyd yn hyn wrth roi'r rhaglen CaW ar waith, yn nhermau'r niferoedd o gyfranogwyr a gofrestrwyd a'u deilliannau. Wrth gyflwyno'r bennod hon, fodd bynnag, hoffem bwysleisio bod ffocws y rhan yma o'n gwaith wedi bod ar y prosesau sy'n sail i CaW, a bod yr ystyriaeth a roddwyd i berfformiad y rhaglen wedi bod yn gyfyngedig.

5.2 Mae hi'n werth cofio hefyd ei bod hi wedi cymryd yn sylweddol hwy nag y disgwyliwyd yn wreiddiol i gyflwyno'r rhaglen, gyda'r CCA, ar y cyfan, yn penodi gweithwyr brysbennu a mentoriaid o ganol 2016 ymlaen, a dau glwstwr yn dal i fod heb wneud trefniadau mewn perthynas â gweithwyr brysbennu a mentoriaid.

5.3 Cyflwynir y bennod mewn tair rhan fel a ganlyn:

- allbynnau
- deilliannau
- deilliannau meddal:

### Allbynnau

5.4 Mae Tabl 5.1 yn dangos nifer y cyfranogwyr sy'n gysylltiedig â'r rhaglen CaW yn Nwyrain Cymru ac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan wahaniaethu rhwng y cyfranogwyr a recriwtiwyd o dan Flaenoriaeth 1 (unigolion sy'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith tymor hir) a Blaenoriaeth 3 (pobl ifanc sy'n NEET).

5.5 Mae'r tabl yn dangos bod cyflawniad hyd yn hyn yn cyd-fynd yn fras â'r proffil ar draws pob un o'r tri grŵp o gyfranogwyr targed. Fodd bynnag, ni chafodd y proffiliau hyn eu sefydlu tan ddiwedd 2016, gan gymryd cyflawniad go iawn hyd at y pwynt yna i ystyriaeth. Mewn gwirionedd, mae niferoedd y cyfranogwyr sydd wedi cael eu cofrestru hyd yn hyn ar draws y ddwy flaenoriaeth yn sylweddol brin o'r niferoedd sydd eu hangen i gyflawni'r targedau cysylltu cyffredinol[88], a hynny o gymryd y bydd y proffil recriwtio yn dilyn llinell syth ar draws oes pum mlynedd y rhaglen. Er y byddai'n rhesymol

[88] h.y. 29,895 o unigolion sy'n economaidd anweithgar, 14,949 o bobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir a 7,437 o bobl ifanc sy'n NEET

disgwyl i lefelau recriwtio gynyddu wrth i CaW godi momentwm, mae'n debygol y bydd cyflawni targedau allbwn cyffredinol y rhaglen yn dipyn o her.

**Tabl 5.1: Cysylltiadau hyd Chwefror 2017 fel y'u cofnodwyd yng nghronfa ddata CaW[89] [90] [91]**

| | Dwyrain Cymru | | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Cymru Gyfan | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Proffil | Go iawn | Proffil | Go iawn | Proffil | Go iawn | % y Proffil a Gyflawnwyd | % Targed 2020 a Gyflawnwyd |
| Pobl Economaidd Anweithgar | 640 | 598 | 2073 | 1932 | 2713 | 2530 | 93% | 8% |
| Pobl Ddi-waith Tymor Hir | 347 | 393 | 1077 | 1112 | 1424 | 1505 | 106% | 10% |
| Cyfanswm Cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 | 987 | 991 | 3150 | 3044 | 4137 | 4035 | 98% | 9% |
| Pobl Ifanc NEET | 348 | 384 | 1674 | 1895 | 2022 | 2279 | 113% | 31% |
| Cyfanswm y Cyfranogwyr P1 a P3 | 1335 | 1375 | 4824 | 4939 | 6159 | 6314 | 103% | 12% |

5.6 Fodd bynnag, roedd y cyfranwyr yn meddwl ei bod hi'n ddigon posibl y gallai recriwtio i CaW gynyddu yn sgil y diwygiadau lles a ddaeth i rym o Ebrill 2017 ymlaen, ac yn fwyaf nodedig yn sgil cyflwyno’r terfyn o ddau blentyn ar gyfer hawliadau Credyd Trethi Plant a chyfyngu ar daliadau ESA i gyfraddau JSA ar gyfer hawlwyr newydd a osodir yn y Grŵp Gweithgarwch sy'n Gysylltiedig â Gwaith (WRAG). Teimlwyd hefyd y gallai cau'r Rhaglen Waith o Ebrill 2017 ymlaen, a'r rhaglen Esgyn ddiwedd 2017 olygu y caiff rhagor o bobl eu cyfeirio at CaW. Yn wir, roedd cystadleuaeth am gleientiaid gan raglenni a phrosiectau eraill (gan gynnwys rhai sy'n cael eu hariannu'n rhannol gan ESF) yn thema a gododd dro ar ôl tro yn ystod ein gwaith maes, ac roedd yna deimlad bod hyn yn rhywbeth sy’n effeithio ar recrwitio pobl ifanc sy'n NEET yn benodol.


[89] Pecyn Gwybodaeth Fonitro CaW, 10 Ebrill 2017, t. 9-10
[90] Mae ffigurau ar wahân ar gael, sydd ychydig bach yn fwy cyfoes, ac sy’n seiliedig ar ffurflenni gwybodaeth rheoli'r clystyrau. Fodd bynnag, y ffigurau yn y tabl hwn yw'r rhai a gyflwynwyd i WEFO.
[91] Yr Achos Busnes dros Ymestyn Cyfnod Gweithredol CaW C2.0, t.24

5.7 Gobaith y cyfranwyr oedd y dylai rhaglen CaW ddod yn bwynt cyfeirio amlycach ar gyfer y grwpiau targed wrth iddi fwrw gwreiddiau mwy cadarn a dod yn fwy cyfarwydd i'r sefydliadau partner. Ar y llaw arall fodd bynnag, gallai cau CG gael effaith negyddol ar lif y cleientiaid i mewn i CaW, ond eto gallai hynny gynyddu'r niferoedd sydd angen cymorth y rhaglen.


*Amrywiadau mewn perfformiad ar draws clystyrau*

5.8 Fel y mae Ffigurau 5.1. i 5.3 yn ei ddangos, roedd y patrymau recrwitio'n amrywio'n sylweddol ar draws y sampl o glystyrau yr aethom i ymweld â nhw. Nid oedd yr un ohonynt wedi cyflawni eu ffigurau proffil mewn perthynas â chyfranogwyr economaidd anweithgar, a dim ond dau (o 19) a oedd wedi gwneud hynny mewn perthynas ag unigolion di-waith tymor hir. Roedd deg clwstwr wedi cyflawni, neu wedi rhagori ar eu proffiliau cysylltu mewn perthynas â phobl ifanc sy'n NEET, gyda phedwar yn gwneud hynny o bell ffordd.


**Ffigur 5.1: Nifer y cyfranogwyr economaidd anweithgar a gysylltwyd fesul ardal gyflenwi**



**Ffigur 5.2: Nifer y cyfranogwyr di-waith tymor hir a gysylltwyd fesul ardal gyflawni**




**Ffigur 5.3: Nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant a gysylltwyd fesul ardal gyflawni**



5.9 Er ei bod hi'n anodd cyffredinoli o ystyried lefel yr amrywiad ar draws y clystyrau, roedd hi'n debyg bod recriwtio'n gryfach lle'r oedd y mentoriaid ieuenctid wedi meithrin perthnasau â sefydliadau a phartneriaethau perthnasol e.e. YEPFs.

5.10 Fel a nodwyd ym mhennod tri, mae CBG yn ffynhonnell allweddol ar gyfer cyfeiriadau at CaW, ac roedd hynny'n arbennig o wir yn ystod dyddiau cynnar y rhaglen, cyn penodi staff y rheng flaen yn y CCA. Fodd bynnag, nododd nifer o gyfranwyr mai dim ond cyfran gyfyngedig o'r unigolion sy'n cael eu cyfeirio at CaW gan CBG sy'n cysylltu â'r rhaglen yn y pendraw. Yn wrthgyferbyniol, er bod yr unigolion a gafodd eu cyfeirio gan sefydliadau o gylch y teulu yn sylweddol is o ran nifer, roeddent yn fwy tebygol o gysylltu â'r rhaglen.

5.11 Dywedodd sawl cyfrannwr ei bod hi wedi bod yn anodd cysylltu cyfranogwyr o grwpiau BME, a hynny fel rheol oherwydd poblogaethau BME bychain o fewn eu clystyrau. Wedi dweud hynny, fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth y cymerwyd unrhyw gamau penodol yn unrhyw un o'r clystyrau y buom yn ymweld â nhw i ganfod maint y grwpiau BME na'u targedu.

**Deilliannau**

5.12 Fel a nodwyd yn y theori newid, mae cyflawni targedau o ran deilliannau yn dibynnu ar gyflawni targedau allbwn, hynny yw, rhaid i’r gwasanaeth fod yn gallu denu a chysylltu'r nifer gofynnol o unigolion fel y gellir cyflawni'r gymhareb o ddeilliannau caled mewn perthynas â chyflogaeth. Fel y dywedodd un mentor, 'os bydd llif digonol o gleientiaid yn dod trwy'r drws ... bydd rhai ohonynt yn symud ymlaen i waith'.

5.13 Mae Tabl 5.2 yn dangos nifer y deilliannau o ran swyddi a gyflawnwyd mewn perthynas â chyfranogwyr yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, eto, gan wahaniaethu rhwng y cyfranogwyr a recriwtiwyd o dan Flaenoriaeth 1 (unigolion sy'n economaidd anweithgar neu bobl ddi-waith tymor hir) a Blaenoriaeth 3 (pobl ifanc sy'n NEET).

**Tabl 5.2: Deilliannau gwaith a gyflawnwyd hyd Chwefror 2017 fel y'u cofnodwyd yng nghronfa ddata rhaglen CaW**[92] [93]

| | Dwyrain Cymru | | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Cymru Gyfan | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Proffil | Go iawn | Proffil | Go iawn | Proffil | Go iawn | % y Proffil a Gyflawnwyd | % Targed 2020 a Gyflawnwyd |
| Pobl Economaidd Anweithgar | 170 | 142 | 360 | 389 | 530 | 531 | 100% | 10% |
| Pobl Ddi-waith Tymor Hir | 82 | 71 | 128 | 154 | 210 | 225 | 107% | 9% |
| Cyfanswm Cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 | 252 | 213 | 488 | 543 | 740 | 756 | 102% | 10% |
| Pobl Ifanc NEET | 37 | 79 | 402 | 538 | 439 | 617 | 141% | 30% |
| Cyfanswm y Cyfranogwyr P1 a P3 | 289 | 292 | 890 | 1081 | 1179 | 1373 | 116% | 14% |

5.14 Mae'r tabl yn dangos bod cyflawniad hyd yn hyn mewn perthynas â chyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yn cyd-fynd yn fras â'r proffiliau, er bod cyflawniad mewn perthynas â Blaenoriaeth 3 yn sylweddol uwch na'r lefel a broffiliwyd. Eto, fodd bynnag, ni chafodd y proffiliau eu pennu tan ddiwedd 2016, gan gymryd y cyflawniad go iawn hyd at y pwynt hwnnw i ystyriaeth. Yn yr un modd â'r allbynnau, mae'r deilliannau a gyflawnwyd ar draws Blaenoriaeth 1 yn brin o'r niferoedd sydd eu hangen i gyflawni targedau cyffredinol y rhaglen mewn perthynas â deilliannau o ran swyddi[94], o gymryd y bydd proffil recriwtio'r rhaglen yn dilyn llinell syth ar draws oes pum mlynedd y rhaglen.

[92] Pecyn Gwybodaeth Fonitro CaW, 10 Ebrill 2017, t. 9-10
[93] Mae ffigurau ar wahân ar gael, sydd ychydig bach yn fwy cyfoes, ac sy'n seiliedig ar ffurflenni gwybodaeth rheoli'r clystyrau. Fodd bynnag, y ffigurau yn y tabl hwn yw'r rhai a gyflwynwyd i WEFO.
[94] h.y. 5,217 o unigolion sy'n economaidd anweithgar, 2,568 o bobl ddi-waith tymor hir a 1,445 o bobl ifanc sy'n NEET

5.15 Am fod y proffiliau hyn yn seiliedig i bob pwrpas ar gyflawniad go iawn hyd ddiwedd ail chwarter 2016/17, nid ydynt yn gyson â'r targedau deilliant a bennwyd ar gyfer cynghorwyr a mentoriaid unigol. Fodd bynnag, roedd targedau deilliant o'r pwys mwyaf i dimau rheng flaen CaW, a chyfeiriodd sawl un at ba mor afresymegol oedd pennu targedau o ran deilliannau swyddi yn nyddiau cynnar y rhaglen. Roedden nhw'n dadlau mai pobl yr ystyrir eu bod o leiaf chwe mis o'r byd gwaith (ac o leiaf 12 mis yn achos cleientiaid y mentoriaid) sy'n cael eu targedu gan CaW, ac felly nid oedd yn gwneud synnwyr disgwyl cyflawni llawer o ddeilliannau o ran swyddi, os o gwbl yn ystod 2015 neu 2016. Yn wir, roedd y staff yn y clystyrau hynny lle nad oedd y mentoriaid wedi cael eu penodi tan yn ddiweddar, neu lle nad ydynt wedi cael eu penodi eto, yn dadlau na ddylid pennu unrhyw dargedau o ran deilliannau swyddi mewn perthynas â'r rhai yr ystyrir eu bod 12 mis neu ragor i ffwrdd o'r farchnad lafur tan 2018.

5.16 Nododd sawl un o staff cyflawni'r rheng flaen fod gan gyfran uwch na'r disgwyl o'r oedolion (cyfranogwyr Blaenoriaeth 1) a recriwtiwyd yn eu clystyrau anghenion cymhleth iawn, ac felly mae'n debygol y bydd arnynt angen cymorth mwy dwys dros gyfnod hirach. Priodolwyd hyn yn rhannol i'r diwygiadau lles, gydag unigolion 'nad ydynt wedi gallu gweithio ers amser hir iawn [ar sail iechyd]' bellach yn cael eu hasesu yn 'ffit i weithio'. Mae hi'n amlwg y gallai natur fregus y grŵp yma ddwyn goblygiadau o ran niferoedd y deilliannau o ran swyddi a gyflawnir.

5.17 Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae cyfran y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 sydd eisoes wedi symud ymlaen i gyflogaeth yn uwch na'r 17 y cant a ddisgwyliwyd, gyda 21 y cant o'r cyfranogwyr economaidd anweithgar yn symud ymlaen i gyflogaeth, ac 19 y cant o'r recriwtiaid di-waith tymor hir yn gwneud hynny. Mae'r gyfran o gyfranogwyr 16-24 oed sy'n NEET sy'n symud ymlaen i gyflogaeth yn gyson iawn â'r disgwyliadau, ar lefel o 27 y cant (o'i gymharu â 28 y cant).

5.18 Yn nyddiau cynnar y rhaglen, roedd angen i'r staff gofyn am gopïau o slipiau tâl cyn-gyfranogwyr neu gadarnhad y DWP nad ydynt yn hawlio budd-daliadau, er mwyn casglu tystiolaeth am ddeilliannau o ran swyddi. Dadleuodd staff y rheng flaen 'nad yw hi'n hawdd cael tystiolaeth am

ddeilliannau o ran swyddi' am fod hi'n gallu teimlo'n 'fusneslyd' gofyn i gyn-gyfranogwyr am eu slipiau tâl, a'u bod yn gyndyn i ddal ati i 'boeni' staff y DWP am gadarnhad ysgrifenedig o statws budd-daliadau cyn-gyfranogwyr. Fodd bynnag, yn fwy diweddar diweddarwyd y canllawiau gweithredol er mwyn galluogi cyfranogwyr i lofnodi ffurflen 'hunan ddatganiad' i gadarnhau symud i mewn i gyflogaeth, yn unol â gofynion tystiolaeth presennol WEFO.

5.19 O ystyried natur y cleientiaid y mae CaW yn eu targedu, roedd yna deimlad eang ymysg staff y rheng flaen y dylid priodoli gwerth uwch i gyfranogwyr yn cyflawni deilliannau canolradd neu'r ail lefel, ac y dylid monitro'r rhain ar hyd y ffordd yn hytrach na dim ond pan fo'r cyfranogwyr yn ymadael â'r rhaglen. Er bod y deilliannau canolradd yr oedd gan y cyfranwyr mewn golwg yn adlewyrchu'r rhai a oedd eisoes yn cael eu monitro ar ffurflenni ymadael CaW y cyfranogwyr (h.y. cymwysterau a gafwyd, gwirfoddoli a wnaed, lleoliadau gwaith a gyflawnwyd neu bobl ifanc yn symud i addysg neu hyfforddiant), teimlwyd hefyd y dylid rhoi cydnabyddiaeth i gleientiaid sy'n symud i mewn i waith am lai nag 16 awr yr wythnos[95]. Dadleuwyd bod cymryd swydd am gwta ychydig oriau'r wythnos yn gallu bod yn 'gam aruthrol' i unigolyn sydd wedi bod allan o waith am sawl blwyddyn, a bod y budd pitw o ennill ychydig oriau yn rhagor i rywun ar dâl isel yn gallu bod yn rhy fach i gyfiawnhau'r risg o gyfaddawdu eu hawl i fudd-daliadau, o leiaf yn y tymor byr.

**Deilliannau Meddal**

5.20 Ar y cyfan, roedd y cyfranwyr yn glir iawn bod CaW 'ynghylch deilliannau gwaith' er bod deilliannau eraill (h.y. y rhai y cyfeirir atynt fel deilliannau canolradd neu'r ail lefel) yn cael eu monitro pan fo cleientiaid yn ymadael â rhaglen CaW hefyd.

5.21 Fodd bynnag, roedd staff y rheng flaen, ac yn fwy penodol, y rhai a gyflogir gan CCA, yn credu y gallai fod yna ryw deilyngdod mewn casglu deilliannau mwy meddal er mwyn dangos effeithiau'r rhaglen ar y cyfranogwyr wrth iddynt symud trwy CaW. Ymhlith yr enghreifftiau o'r deilliannau yr awgrymwyd y gallent gael eu monitro roedd 'pobl yn gwneud ffrindiau newydd', pobl 'yn gofalu amdanynt eu hunain yn well ... fel hylendid personol ac ymddangosiad',

[95] Mae WEFO yn mynnu bod cyn-gyfranogwyr yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos er mwyn iddo gyfrif fel deilliant o ran swyddi

newidiadau yn ymdeimlad cyfranogwyr o 'hunan werth', gwelliannau yn lefelau 'hyder' yr unigolion ac argraffiadau rhieni am newidiadau mewn cyfranogwyr iau. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, byddai dangosyddion o'r fath yn anodd eu mesur, a byddent yn agored i lefelau uchel o oddrychedd.

5.22 Lle mabwysiadwyd offer hunanwerthuso fel 'sêr gwaith', teimlwyd y gallai'r rhain ddarparu tystiolaeth ddefnyddiol am ddeilliannau meddal, ond roedd eu defnydd yn gyfyngedig i lond llaw o glystyrau, a hyd yn oed i ymarferwyr unigol o fewn y clystyrau hynny.

5.23 Teimlwyd bod yr 'astudiaethau achos' sy'n cael eu paratoi gan staff yn cofnodi llawer o'r deilliannau hyn, ond cydnabuwyd nad ydynt yn gwneud hynny mewn ffordd systemataidd. At hynny, roedd yna ganfyddiad mai offer i gasglu ‘straeon newyddion da’ yw’r astudiaethau achos hyn fel rheol, yn hytrach nag ymdrechion go iawn i ddeall effeithiau'r rhaglen.

# 6. Casgliadau ac Argymhellion

6.1 Pwrpas ail ran y gwerthusiad oedd asesu sut y mae'r rhaglen CaW wedi cael ei sefydlu a sut y mae'n cael ei gweithredu. Mae'r adroddiad wedi canolbwyntio ar sefydliad y rhaglen, ei llwyddiant gweithredol a'r deilliannau cychwynnol, sy'n amlygu'r rhagdybiaethau allweddol a fwydodd ddyluniad CaW, fel y'u pennwyd yn adroddiad Rhan 1 ar y theori newid.

6.2 Rydyn ni eisoes wedi nodi nifer o faterion sy'n haeddu ystyriaeth bellach yn y penodau blaenorol, ac nid ydym yn bwriadu edrych yn fanwl ar y rheiny yma. Yn hytrach, rydyn ni'n canolbwyntio ar feysydd allweddol o'r gwaith ymchwil, fel a ganlyn:

- y cyfleoedd a grëwyd gan y penderfyniad i adeiladu ar y seilwaith CG a CBG ac i integreiddio staff DWP a CCA, a'r sialensiau sy'n codi yn sgil hynny
- cysylltu cyfranogwyr
- y broses brysbennu a'r gweithiwr brysbennu
- cymorth gan ymgynghorwyr a mentoriaid
- hyfforddiant a'r gronfa rwystrau
- rheolaeth a gweithrediad y rhaglen
- sgiliau staff CaW
- deilliannau a rhagolygon y rhaglen

**Sialensiau a manteision integreiddio**

6.3 Mae CaW yn ymdrechu i fynd i'r afael ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a DWP i leihau tlodi trwy waith, ac mae'n fuddsoddiad sylweddol i'r ddau sefydliad. Mae'n torri tir newydd o ran ei fod yn cwmpasu adrannau o'r llywodraeth sydd wedi eu datganoli a rhai sydd heb eu datganoli, ac mae'n tynnu ynghyd amryw o sefydliadau mewn ffyrdd ac ar raddfa na welwyd o'r blaen. Er bod hyn yn codi sialensau yn nhermau integreiddio timau ac asio diwylliannau, roedd yr achos o blaid y dull a ddefnyddiwyd yn gadarn, ac wedi

ei fwydo gan waith ymchwil i beth sy'n gweithio yn nhermau estyn allan a chynorthwyo'r bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur.

6.4 Nod y rhaglen oedd adeiladu ar blatfform CG, gan fanteisio ar seilwaith sy'n bodoli eisoes, sy'n weladwy, yn wybodus ac sydd â chysylltiadau da mewn cymunedau lleol. Rhagwelwyd hefyd y byddai'r cynghorwyr profiadol a oedd wedi bod ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau'r rheng flaen o dan raglen Awyddus i Weithio'r DWP yn symud i rolau o fewn CaW, ac yn dod â manteision eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cysylltiadau gyda nhw o'r cychwyn cyntaf. Y bwriad wrth fanteisio ar seilwaith a gweithlu sy'n bodoli eisoes oedd hwyluso gweithrediad cyflym gwasanaethau, lleihau costau ac ymestyn cwmpas ac effeithiolrwydd y rhaglen CaW. Fodd bynnag, roedd hi'n anochel y byddai tynnu staff a gyflogir gan y DWP a'r CCA ynghyd i ddarparu gwasanaethau ochr yn ochr â CG yn ychwanegu haen o gymhlethdod at raglen CaW, ac y byddai hynny'n sbarduno ambell i sialens weithredol. Trafodir y rhain isod.

6.5 Er gwaetha'r sialensiau, mae'r seilwaith a oedd yn bodoli eisoes ar ffurf CG a DWP/CBG wedi bod yn amhrisiadwy i CaW. Mae ein gwaith maes yn dangos bod CG wedi cynnig llawer o'r canolfannau yn y gymuned lle mae'r cynghorwyr a'r mentoriaid yn gweithio (er nad pob un), canolfannau yw'r rhain sy'n hygyrch i'r grwpiau targed o gleientiaid, yn weladwy ac y mae'r cleientiaid yn ymddiried ynddynt. Mae CG yn cynnig mynediad hefyd at wasanaethau fel hyfforddiant a chyngor ariannol, sy'n cydategu'r cymorth y gall CaW ei gynnig i'r cleientiaid. CBG yw ffynhonnell allweddol cyfeiriadau at y rhaglen, ac mae hyn yn cynnig dirnadaeth am y farchnad lafur leol, cyfleoedd fel treialon gwaith, a chymorth ariannol trwy'r Gronfa Cymorth Hyblyg.

6.6 Yn yr achosion gorau, mae staff CaW DWP (y rheolwyr cyflawni a'r ymgynghorwyr), staff CaW y CCA (y gweithwyr brysbennu a'r mentoriaid) a staff CG (rheolwyr clwstwr, swyddogion cyflogadwyedd, swyddogion cynhwysiant ariannol ac ati) yn cydweithio'n dda ac yn gweithio'n dda â'r partneriaid allweddol fel y CBG a'r gwasanaethau cymorth arbenigol (e.e. y gwasanaethau cam-drin cyffuriau ac alcohol). Lle mae'r timau wedi eu hintegreiddio'n dda, mae cynghorwyr a rheolwyr cyflawni DWP yn darparu dolen gyswllt (neu bont) allweddol i wasanaethau'r CBG. Yn yr un modd,

mae'r mentoriaid, y gweithwyr brysbennu a rheolwyr y clystyrau yn darparu cysylltiad allweddol â CG a'r gwasanaethau cymorth eraill, gan hwyluso ymateb holistig.

6.7 Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw'r ymgynghorwyr yn defnyddio eiddo CG neu wasanaethau cymorth CG i'r un graddau â'r gweithwyr brysbennu a'r mentoriaid, a hynny i raddau helaeth am fod cyflogeion y CCA, y gweithwyr brysbennu a'r mentoriaid yn dueddol o fod wedi eu hintegreiddio'n agosach o fewn timau CG. Mae'r ffactorau eraill sy'n rhwystro staff y DWP rhag defnyddio CG a lleoliadau eraill yn y gymuned yn cynnwys anhawster wrth ddod o hyd i le (ac ystafelloedd preifat yn benodol), a diffyg llinellau diogel a fyddai'n caniatáu iddynt gyrchu mewnrwyd y DWP, y system dyddiaduron a chronfeydd data'r cleientiaid o bell. Yn wrthgyferbyniol, fel rheol nid yw'r mentoriaid a'r gweithwyr brysbennu'n defnyddio eiddo CBG cymaint â'r cynghorwyr. Mewn rhai ardaloedd felly, er bod staff CaW y CCA a staff CG wedi eu hintegreiddio'n dda, mae staff CaW y DWP i bob pwrpas yn gweithio'n baralel â nhw yn hytrach nag fel aelodau o un tîm.

6.8 Mae’r rhain yn faterion allweddol am fod ein gwaith maes wedi cyfeirio at bwysigrwydd gweithio ar y cyd ar draws gwasanaethau fel CBG, CG a CaW fel rhywbeth sy'n hwyluso cyflawniad gwasanaethau gwirioneddol holistig sy'n troi o gylch y person. Mae cydleoli staff CaW y DWP a'r CCA, ac yn achos yr 'Hybiau', y gwasanaethau cymorth eraill, yn aml yn rhan bwysig o hyn, er nad yw'n gwarantu integreiddiad ynddo'i hun.

Argymhelliad 1

Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r DWP gydweithio er mwyn sicrhau bod y cynghorwyr yn gallu gweithio ochr yn ochr â'r gweithwyr brysbennu a'r mentoriaid yn y gymuned, ac er mwyn sicrhau nad yw gweithio yn y canolfannau hyn yn llesteirio eu defnydd o fewnrwyd y DWP. Dylai hyn fod yn ystyriaeth allweddol wrth bennu'r trefniadau terfynol ar gyfer penodi gweithwyr brysbennu a mentoriaid yn y pedair ardal lle nad yw'r rhaglen wedi cael ei gweithredu'n llwyr eto.

Lle nad oes modd eu cydleoli, er enghraifft am fod diffyg lle addas, dylai rheolwyr y clystyrau a rheolwyr cyflawni'r DWP fwyafu'r cyfleoedd am i gynghorwyr, mentoriaid a gweithwyr brysbennu gydweithio, er enghraifft trwy ddarparu hyfforddiant a chyfarfodydd brysbennu ar y cyd, a thrwy alluogi iddynt gydweithio yn y clybiau gwaith.

6.9 O ystyried y synergedd sydd rhwng CG a CaW, mae'r cyhoeddiad a wnaed ddiwedd 2016 am y bwriad i ddirwyn CG i ben yn creu her bwysig i CaW. Bydd angen rhoi ystyriaeth i effeithiau posibl colli: safleoedd gwaith mewn canolfannau yn y gymuned (presenoldeb gweledol); y gwasanaethau cydategol sy’n cael eu darparu o dan faner CG (hyfforddiant yn fwyaf nodedig, ond hefyd gwasanaethau fel tai a gwasanaethau cynghori ar ddyledion); cysylltiadau â'r gymuned cymorth ehangach; y cyfeiriadau y tybiwyd y byddent yn llifo o'r timau CG, ac unrhyw effeithiau negyddol ar 'frand' CaW o ran y gallai pobl ei gysylltu â CG, neu y gallent ei ddrysu â CG.

Argymhelliad 2

Dylai rheolwyr y rhaglenni CaW weithio gyda lLywodraeth Cymru er mwyn archwilio effaith ddisgwyliedig cau CG ar CaW. Dylai rheolwyr rhaglenni CaW ystyried a datblygu cynlluniau wrth gefn, gan gymryd y Grant Cyflogadwyedd i ystyriaeth er mwyn delio ag effaith bosibl cau CG.

6.10 Roedd dyrannu targedau ar wahân i gynghorwyr a mentoriaid yn destun rhwystredigaeth gyson yn y clystyrau, a’r teimlad oedd bod hyn yn creu cystadleuaeth niweidiol rhwng y cynghorwyr a’r mentoriaid mewn rhai ardaloedd, gan danseilio’r ymdrechion i integreiddio staff y DWP a'r CCA

mewn un tîm. Roedd hyn yn amlwg yn effeithio ar ymddygiad staff y rheng flaen, sy'n fater yr ydym yn ei drafod isod yng nghyd-destun brysbennu, er nad oedd hyn o reidrwydd yn amlwg i'r cleientiaid. Roedd yna dystiolaeth bod anogaeth Llywodraeth Cymru i fabwysiadu targedau ar lefel clwstwr yn ymdreiddio mewn rhai ardaloedd, ond lle'r oedd niferoedd yr ymgysylltiadau'n isel yn arbennig, roedd y cynghorwyr, y mentoriaid, rheolwr cyflawni'r DWP, ac efallai ar raddfa lai, rheolwyr y clystyrau'n amlwg yn poeni'n fawr o ran a fyddent yn llwyddo i gyflawni eu targedau ai peidio.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru a'r DWP barhau i hyrwyddo mabwysiadu targedau clwstwr. Dylai rheolwyr cyfrif, clwstwr a chyflawni sicrhau bod holl dimau CaW yn deall eu targedau ac effaith gohirio'r cychwyn a'r ailbroffilio ar dargedau prosiectau.

6.11 Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol petai targedau gwahanol yn cael eu pennu ar gyfer y cynghorwyr a’r mentoriaid, fel targedau cysylltu a hyfforddi ar gyfer y mentoriaid, a thargedau o ran deilliannau swyddi ar gyfer y cynghorwyr. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fyddai hynny'n ymarferol, er enghraifft am fod llawer o fentoriaid yn parhau i weithio gyda chyfranogwyr nes eu bod yn cychwyn cyflogaeth, ac maent yn aml yn gyndyn i drosglwyddo cyfranogwyr i gynghorwyr. Gallai hynny wanhau ffocws y mentoriaid ar gyflogaeth hefyd, ac mae'n bosibl y byddai'n ychwanegu at y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â'r rhaglen yn nhermau casglu data.

**Cysylltu cyfranogwyr**

6.12 Rhaglen wirfoddol yw CaW, a gwelir hyn fel un o'i chryfderau mwyaf. Fodd bynnag, mae hynny'n golygu bod ei heffeithiolrwydd yn dibynnu ar bobl yn dewis cysylltu â'r rhaglen. Gwnaed ymdrechion sylweddol i gysylltu'n uniongyrchol â darpar-gyfranogwyr, er enghraifft yn ystod achlysuron yn y gymuned, neu trwy ddosbarthu taflenni hysbysebu mewn cymunedau targed, ac mewn rhai ardaloedd, mae 'hybiau' yn helpu i ddod â phobl i gysylltiad uniongyrchol â CaW. Fodd bynnag, mae hi'n glir bod y niferoedd mwyaf o gyfranogwyr, ac yn enwedig y rhai 25+ oed, yn cael eu cyfeirio at y rhaglen

gan CBG. Mae hyn yn debygol o barhau i fod yn wir yn sgil y diwygiadau lles (a allai annog rhagor o bobl i ystyried CaW).

6.13 Mewn ffordd, mae nifer y cyfeiriadau gan CBG ymysg cryfderau'r rhaglen, a hwn yw un o brif fanteision y dull integredig o fynd ati. Fodd bynnag, mae'n golygu hefyd ei bod hi'n bosibl na ellir cyrraedd rhai o'r grwpiau y mae CaW yn eu targedu, er enghraifft unigolion nad ydynt yn hawlio budd-daliadau, ac nad ydynt yn dod i gysylltiad â CBG fel rheol.

6.14 Mae nifer y cyfranogwyr a gysylltwyd hyd yn hyn ychydig yn is na'r disgwyl[96], gyda staff y rhaglen yn cyfeirio at lefelau isel o ddefnydd mewn rhai ardaloedd, a chystadleuaeth gan nifer o ymyraethau eraill sy'n targedu'r un grwpiau. Mae anawsterau wrth recriwtio'r niferoedd a ragwelwyd, ynghyd â dyraniad y targedau cysylltu a’r deilliannau ar wahân ar gyfer staff y CCA a'r DWP wedi llesteirio datblygiad timau CaW cydlynol mewn rhai clystyrau, am ei fod yn meithrin cystadleuaeth rhwng cynghorwyr a mentoriaid. Roedd hyn hefyd yn tanseilio gallu’r gweithwyr brysbennu i chwarae rhan gyflawn wrth gyfeirio cleientiaid at y math mwyaf priodol o gymorth ac wrth reoli beichiau gwaith o fewn timau CaW.

6.15 Er mwyn i CaW gyflawni ei dargedau uchelgeisiol o ran cysylltu a deilliannau yn 2020, bydd angen gweld cynnydd mawr yn niferoedd y cyfranogwyr sy'n cael eu recriwtio, ac yn enwedig unigolion sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith yn y tymor hir.

[96] Yn nhermau targedau cronnol lefel clwstwr, er bod y cyflawniad yn cyd-fynd yn fras â'r proffiliau ar draws pob un o'r tri grŵp o gyfranogwyr targed.

Argymhelliad 4

Dylai rheolwyr cyflawni’r DWP, rheolwyr y CCA a staff cyflawni'r rheng flaen wneud ymdrech arbennig i gryfhau'r trefniadau ar gyfer gweithio gyda thimau CBG lleol, a sicrhau bod y cleientiaid yn cael eu cyfeirio at y math mwyaf priodol o gymorth o fewn rhaglen CaW. Dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- codi, gwella a chynnal ymwybyddiaeth hyfforddwyr gwaith CBG am fodolaeth, natur a gwerth cymorth CaW, a phwysleisio rôl y gweithwyr brysbennu fel y 'porth' i mewn i'r gwasanaeth.
- cryfhau'r perthnasau rhwng staff CaW a hyfforddwyr gwaith CBG. Gallai hynny gynnwys arbrofi gyda'r DWP yn cyflogi swyddogion brysbennu yn y ddwy ardal lle nad yw'r swydd eisoes wedi ei sefydlu
- sefydlu trefniadau clir ar gyfer trosglwyddo cleientiaid sy'n cael eu cyfeirio at CaW gan hyfforddwyr gwaith a) er mwyn sicrhau bod y cleientiaid yn addas ar gyfer y gwasanaeth a b) er mwyn sicrhau pontio didrafferth ar gyfer cleientiaid
- adnabod cyfleoedd sy'n cael eu creu, er enghraifft gan ddiwedd y Rhaglen Waith a'r diwygiadau lles, fel cyflwyniad y Credyd Cynhwysol, er mwyn clustnodi a recriwtio cyfranogwyr newydd
- archwilio sut y gellid manteisio i'r eithaf ar gronfeydd data'r DWP, a hynny’n benodol wrth glustnodi unigolion a fydd yn trosglwyddo o ESA i JSA, neu sydd wedi gwneud hynny'n ddiweddar, a rhieni sy'n cael Credyd Trethi Plant ac y mae eu plentyn ifancaf yn nesáu at droi’n bum mlwydd oed, a allai fod yn gymwys ac yn awyddus i gysylltu â CaW
- clustnodi ac wedyn rhannu a dathlu esiamplau o sut y mae staff CaW yn helpu hyfforddwyr gwaith i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol ac i gyflawni eu targedau.

Nid yw'r rhestr yn hollol gynhwysfawr a bydd angen i'r cynlluniau a ddatblygir adlewyrchu amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, fe fydd hi'n hanfodol bwysig bod rheolwyr cyflawni’r DWP a rheolwyr y CCA yn dangos gwir ymroddiad i gyflawni'r camau a glustnodwyd.

Argymhelliad 5

Dylai timau cyflawni CaW lunio cynlluniau ar gyfer ymgysylltiad ystyrlon â phartneriaid a ffynonellau cyfeirio eraill. Dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol hefyd (ymysg pethau eraill):

- codi a chynnal ymwybyddiaeth partneriaid YEPF (gan gynnwys awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru, y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a sefydliadau allweddol y trydydd sector) am fodolaeth, natur a gwerth cymorth CaW ar gyfer pobl ifanc, gan bwysleisio rôl y gweithwyr brysbennu fel y 'porth' i mewn i'r gwasanaeth
- codi a chynnal ymwybyddiaeth ymysg gwasanaethau cymorth, fel gwasanaethau cam-drin cyffuriau ac alcohol, gwasanaethau iechyd meddwl am y rôl y gall cyflogaeth ei chwarae yn 'adferiad' pobl, ac am fodolaeth, natur a gwerth cymorth CaW, gan bwysleisio rôl y gweithwyr brysbennu fel 'porth' i'r gwasanaeth
- clustnodi 'hyrwyddwyr' CaW i hyrwyddo'r rhaglen ymysg y bobl ifanc yn eu cymunedau. Gallai'r rhain gynnwys pobl sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen, hyfforddwyr chwaraeon, perchnogion campfeydd, perchnogion caffis, pobl trin gwallt neu yrwyr tacsi er enghraifft.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu presenoldeb ar y we ar gyfer CaW. Er mwyn codi proffil y rhaglen ac er mwyn rhoi hygrededd iddi ymysg asiantaethau cyfeirio a darpar-gyfranogwyr. Gallai gwefan Cymunedau Digidol Cymru fod yn esiampl yn hyn o beth.

6.16 O ystyried yr anawsterau y mae rhai ardaloedd wedi eu hwynebu wrth recriwtio niferoedd digonol o gyfranogwyr, mae rhai timau CaW wedi galw am lacio'r meini prawf cymhwyster ar gyfer y rhaglen. Gallai hynny fynd yn groes i'r rhesymeg sydd y tu ôl i'r rhaglen, sy'n targedu'r bobl hynny sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur. Fodd bynnag, mae hi'n bosibl y bydd yna gwmpas i egluro'r meini prawf cymhwyster, er enghraifft o gylch cyfranogwyr yn pontio o un math o fudd-dal i un arall (lle'r oedd peth ansicrwydd weithiau) a

symleiddio'r broses ar gyfer pwyso a mesur cymhwyster (yr oedd rhai yn meddwl ei fod yn ddianghenraid o gymhleth), heb danseilio rhesymeg y rhaglen.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r trefniadau cymorth yn sgil cau CG er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â materion cymhwyster. Lle bo cyfleoedd i symleiddio, dylai Llywodraeth Cymru gychwyn trafodaethau â WEFO er mwyn archwilio a ellir llacio'r meini prawf cymhwyster ai peidio.

**Y broses brysbennu a'r gweithiwr brysbennu**

6.17 Y broses brysbennu a rôl y gweithiwr brysbennu yw un o'r agweddau mwyaf arloesol ar CaW. Pan fo'n gweithio'n dda, gall brysbennu chwarae rhan allweddol wrth:

- sicrhau bod y rhaglen yn gweithio gyda'r bobl gywir, er enghraifft trwy bwyso a mesur cymhwyster, a lle bo'n briodol, yn eu cyfeirio at raglenni eraill
- integreiddio gwaith y cynghorwyr a'r mentoriaid, trwy sicrhau bod y cyfranogwyr yn cael cymorth gan yr aelod mwyaf priodol o staff CaW
- rheoli beichiau achosion ar draws y tîm
- datblygu a chryfhau perthnasau rhwng CaW a sefydliadau partner, fel CBG, gwasanaethau cymorth lleol a'r darparydd hyfforddiant sydd ar gadw gan Lywodraeth Cymru.

6.18 Fodd bynnag, mae yna ddryswch mewn rhai ardaloedd ynghylch rôl y gweithiwr brysbennu, ac mae yna amrywiadau sylweddol o ran beth y mae disgwyl i weithwyr brysbennu ei wneud o un clwstwr i'r llall.

6.19 Ar y cyfan, mae'r clystyrau'n dweud mai sefydlu'r gweithiwr brysbennu fel porth i'r rhaglen yw eu dyhead, ond nid yw'r arfer yn adlewyrchu'r rhethreg bob tro. Mae hyn oherwydd rhesymau cyfiawn ac ymarferol mewn rhai achosion, er enghraifft lle bo cynghorwyr a mentoriaid yn cwrdd â darpar-gleientiaid wrth weithio yn y gymuned. O dan amgylchiadau o'r fath, mae hi'n fwy effeithlon ac yn llai dryslyd i gleientiaid gael eu brysbennu gan y

cynghorydd neu'r mentor yn y fan a'r lle, yn hytrach na chael eu cyfeirio ymlaen at weithiwr brysbennu. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, mae cystadlu rhwng y cynghorwyr a’r mentoriaid yn tanseilio'r rôl brysbennu, ac mae hyn yn eu hannog i recriwtio'n uniongyrchol, yn hytrach na pheryglu 'colli' darpar gleient trwy eu cyfeirio at weithiwr brysbennu.

6.20 Er y derbynnir bod angen rhywfaint o hyblygrwydd fel y gall cynghorwyr a mentoriaid frysbennu cleientiaid mewn canolfannau yn y gymuned, mae angen cadw ffocws mwy cyson ar y gweithwyr brysbennu fel porth i CaW ar draws y clystyrau. Er mwyn iddi weithio'n effeithiol, mae angen i'r broses brysbennu fod yn dryloyw, ac mae angen i dimau cyflawni'r rheng flaen gydweithio mewn ffordd agored a chydweithredol. Mae gan reolwyr y rhaglen CaW ran allweddol i'w chwarae wrth feithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng staff y rheng flaen, sy'n hanfodol er mwyn i hyn ddigwydd.

Argymhelliad 8

Mae angen i reolwyr cyflawni'r DWP a rheolwyr y CCA gytuno ar eu safbwynt am frysbennu a chadw at hynny. Lle nad yw'r gweithiwr brysbennu'n brysbennu'r mwyafrif o'r cyfranogwyr, dylai rheolwyr cyfrif Llywodraeth Cymru ganfod pam, ac ymyrryd er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw arferion cystadleuol sy'n wrthgynhyrchiol.

6.21 Mae rôl y gweithiwr brysbennu'n un bwysig ac allweddol. Mae angen i'r gweithwyr brysbennu fod o'r safon gywir i weithredu fel wyneb cyhoeddus a phorth i CaW, i fod yn 'ddolen gyswllt' rhwng y cynghorwyr a'r mentoriaid, a rheoli perthnasau â sefydliadau partner. Mae'r dystiolaeth o'r gwaith maes yn awgrymu, mewn ambell i achos, y gallai'r unigolion a benodwyd i'r rôl ei chael hi'n anodd cyflawni'r swyddogaeth yn llwyr. Gellir priodoli hyn i'r pwyslais ar agweddau gweinyddol ar y rôl a roddir yn y swydd-ddisgrifiad a'r fanyleb berson enghreifftiol.

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru a'r DWP adolygu rôl y gweithiwr brysbennu yng ngoleuni profiad, ac os yw'n briodol, gweithio gyda'r CCA a'r rheolwyr cyflawni i lunio swydd-ddisgrifiad diwygiedig sy'n portreadu natur y rôl a'r nodweddion y mae eu hangen i'w chyflawni'n effeithiol.

**Cymorth y cynghorwyr a'r mentoriaid**

6.22 Y cymorth y mae'r cynghorwyr a'r mentoriaid yn ei gynnig i gyfranogwyr sydd wrth galon CaW. Er bod rhai agweddau ar eu gwaith (fel datblygu sgiliau cyfranogwyr wrth chwilio am waith a chyflwyno ceisiadau, clustnodi cyfleoedd am waith a chyfeirio pobl at wasanaethau hyfforddiant a chymorth) yn amlwg yn debyg i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan hyfforddwyr gwaith CBG, mae hi'n glir bod cynghorwyr a mentoriaid CaW yn cyflwyno rhywbeth gwahanol ac ychwanegol. O gymharu â hyfforddwyr gwaith CBG, mae gan gynghorwyr a mentoriaid CaW fwy o amser, mwy o hyblygrwydd ac ymreolaeth dros sut, pryd a ble y maen nhw'n gweithio gyda'r cyfranogwyr, ac yn hanfodol, nid oes gofyn iddynt blismona'r system lles. Mae hyn yn eu galluogi i feithrin perthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth gyda'r cyfranogwyr, ac mae hi'n glir bod y cynghorwyr a'r mentoriaid yn annog yn hytrach na 'gwthio cleientiaid' tuag at gyflogaeth. Roedd hi'n amlwg bod llawer o gynghorwyr a mentoriaid yn mwynhau eu gwaith gyda'r cyfranogwyr, ac roedden nhw'n falch o'r gwahaniaeth roedden nhw'n teimlo eu bod yn ei gwneud. Roedd hi'n amlwg hefyd bod y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r amser a'r gofal yr oedden nhw'n teimlo eu bod yn eu cael gan y cynghorwyr a'r mentoriaid.

6.23 Bwriedir i CaW weithio gyda'r bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur. Mae'r dystiolaeth o'r gwaith maes yn awgrymu bod y prosiect yn cyrraedd y bobl iawn (am fod gan lawer ohonynt rwystrau sylweddol ac anghenion cymhleth), er nad mewn niferoedd digonol. Y risg yn y fan yma yw bod mentoriaid yn benodol yn cael eu tynnu i mewn i weithio gyda phobl y mae eu hanghenion yn rhy ddwys, a/neu nad oes ganddynt y cymhelliant i symud ymlaen i gyflogaeth ar y pwynt yma yn eu bywydau. Gallai hyn arwain at 'dagfeydd' ym meichiau achosion y mentoriaid, gan lesteirio eu capasiti i dderbyn cyfranogwyr newydd. Wedi dweud hynny fodd bynnag, mae hi'n rhy gynnar ar hyn o bryd i farnu a yw hyn yn digwydd go iawn, o ystyried bod disgwyl i

gleientiaid y mentoriaid fod o leiaf 12 mis i ffwrdd o fod yn barod ar gyfer y byd gwaith wrth gofrestru gyda CaW.

Argymhelliad 10

Dylai rheolwyr CaW, rheolwyr cyflawni'r DWP a'r gweithwyr brysbennu barhau i adolygu beichiau achosion y cynghorwyr a'r mentoriaid, er mwyn sicrhau bod pobl yn datblygu, a bod y bobl hynny na all y rhaglen eu cynorthwyo, yn cael eu 'troi allan' mewn ffordd briodol (e.e. trwy eu cyfeirio at raglen arall).

**Hyfforddiant**

6.24 Mae'r gallu i gyrchu hyfforddiant yn bwysig i lawer o gyfranogwyr wrth eu cynorthwyo i ddatblygu sgiliau sylfaenol a galwedigaethol, bodloni'r gofynion ar gyfer cychwyn gwaith mewn sectorau penodol (yr amlycaf o'r rhain yw cardiau CSCS ac SIA ar gyfer y diwydiannau adeiladu a diogelwch yn y drefn honno), meithrin hunanhyder, hunan-barch a rhoi 'rhywbeth [i bobl] ei nodi ar eu CV'.

6.25 Mae CG yn ffynhonnell hyfforddiant pwysig a gwerthfawr ar gyfer cyfranogwyr CaW ym mhob ardal, a hynny i raddau helaeth am ei fod yn cynnig darpariaeth hyfforddiant perthnasol o safon uchel ar stepen drws y cyfranogwyr. Fel y nodwyd eisoes, mae yna bryderon am effaith bosibl cau CG ar argaeledd hyfforddiant hygyrch ar lefel weddol isel sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn y dyfodol.

6.26 Hyd yn hyn, mae'r hyfforddiant a gaffaeliwyd yn ganolog gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn nodwedd lai amlwg o CaW nag y disgwyliwyd, gyda'r oedi wrth roi'r EBS ar waith yn effeithio ar allu'r darparydd hyfforddiant argadwedig i ddelio â nifer y ceisiadau am gymorth sy'n dod i law, gan arwain at ganfyddiad nad yw'r sefydliad yn gallu cynnig yr amrywiaeth o gyrsiau sydd eu hangen, yn ddigon lleol, o fewn yr amserlenni disgwyliedig. Roedd safbwyntiau staff CaW am ansawdd yr hyfforddiant a ddarparwyd gan ddarparydd argadwedig Llywodraeth Cymru yn gymysg, er ei bod hi'n debygol bod methiant y darparydd i ymateb cyn gynted ag y bo angen i geisiadau am hyfforddiant, neu i gyfathrebu â thimau CaW am y cyrsiau a drefnwyd, neu gynnydd y cyfranogwyr, wedi effeithio ar safbwyntiau staff CaW am yr hyfforddiant a ddarparwyd go iawn.

6.27 Er gwaetha'r rhwystredigaethau hyn fodd bynnag, mae yna le am rywfaint o optimistiaeth bwyllog bod yr EBS bellach yn ddigon gweithredol i ganiatáu i'r darparydd argadwedig symud ei ffocws i drefnu a chyflwyno darpariaeth. Os bydd y system EBS yn gweithio'n effeithiol, yr egwyddor yw y dylai'r darparydd fod mewn sefyllfa i amsugno'r galw sydd heb ei ddiwallu a allai godi am fod gweithgarwch hyfforddi CG yn cael ei ddirwyn i ben[97], a hynny, o bosibl gan ddefnyddio'r un darparwyr (h.y. byddant o dan gontract i'r darparydd argadwedig yn hytrach nac i CG). Fodd bynnag, mae yna berygl, yn y tymor byr i ganolig, na fydd y darparwr a gytunebwyd gan Llywodraeth Cymru yn gallu ymateb i lefel y galw a allai godi. Mae yna berygl hefyd y gallai colli'r timau CG olygu na fydd yna neb i greu'r galw nac i dynnu grwpiau o faint digonol ynghyd i wneud y mathau o gyrsiau y mae cleientiaid CaW wedi bod yn gallu eu cyrchu hyd yn hyn yn hyfyw.

Argymhelliad 11

Dylai tîm CaW Llywodraeth Cymru asesu effaith cau CG ar CaW, a chynllunio sut i fynd ati i leihau a lliniaru'r effaith ar argaeledd darpariaeth hyfforddiant lleol.

Argymhelliad 12

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro perfformiad ei ddarparydd hyfforddiant dethol yn ofalus, gan roi sylw penodol i effeithiolrwydd yr EBS ac i ddefnydd cyfranogwyr CaW o'r ddarpariaeth hyfforddiant ar draws gwahanol rannau o Gymru.

Argymhelliad 13

Dylai'r darparydd hyfforddiant dethol barhau i gysylltu â thimau clwstwr CaW er mwyn sicrhau bod staff cyflawni'r rheng flaen yn hollol gyfarwydd â'r EBS a sut mae'n gweithio. Dylai'r darparydd ofyn am adborth staff y rheng flaen am yr EBS, am y system a’i hymatebolrwydd, ac am berthnasedd ac ansawdd yr hyfforddiant a gynigir.

[97] Er y gallai’r Grant Cyflogaeth ariannu rhywfaint o weithgarwch hyfforddi

Argymhelliad 14

Er mwyn sicrhau hyfywedd y cyrsiau, gallai Llywodraeth Cymru a'r DWP annog y timau clwstwr i weithio gyda chlystyrau cyfagos i dynnu grwpiau o gyfranogwyr ynghyd ar gyfer cyrsiau penodol.

**Y Gronfa Rwystrau**

6.28 Mae'r timau clwstwr yn dueddol o droi at ffynonellau eraill (ac yn fwyaf cyffredin cyllidebau FCF y CBG a CG) cyn troi at y Gronfa Rwystrau er mwyn helpu i gynorthwyo cyfranogwyr i brynu'r eitemau hanfodol sydd eu hangen arnynt i gymryd swydd neu gymryd rhan mewn gweithgaredd cymeradwy. Ar y cyfan, mae staff CaW yn deall fod y Gronfa Rwystrau'n gronfa i droi ati yn niffyg popeth arall, ond mae eraill yn osgoi gwneud cais am gymorth y Gronfa Rwystrau oherwydd eu canfyddiad bod llawer o fiwrocratiaeth ynghlwm wrth y broses. O ganlyniad, gwneir llai o ddefnydd o'r Gronfa Rwystrau nag a ddisgwyliwyd, ac felly mae'n debygol y bydd yna danwariant arni.

Argymhelliad 15

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r canllawiau a'r broses o wneud cais i'r Gronfa Rwystrau er mwyn sicrhau bod y broses mor syml, didrafferth a chyflym â phosibl, a hynny wrth gydymffurfio â'r amodau a'r meini prawf sy'n gysylltiedig ag ESF.

**Rheoli a gweithredu'r rhaglen**

6.29 Er bod CaW yn hollol weithredol i bob pwrpas erbyn hyn, cymerodd yn hirach na'r disgwyl i roi'r rhaglen ar waith. Wrth edrych nôl, o ystyried graddfa a chymhlethdod y rhaglen, mae'n glir y dylid bod wedi ymgorffori cyfnod gweithredu i ddyluniad y rhaglen.

6.30 Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru a DWP yn cadw rheolaeth dda ar CaW, ac mae yna dystiolaeth o gyfathrebu da ar bob lefel. Mae rheolwyr cyfrif Llywodraeth Cymru'n greiddiol i’r cyfathrebu rhwng y timau clwstwr a swyddogaeth reoli ganolog y rhaglen.

6.31 Ar y cyfan, mae'r Canllawiau Gweithredol a dogfennau templed y rhaglen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn effeithiol, ond gallai fod yn fuddiol diwygio agweddau ar y Canllawiau Gweithredol a phortffolio'r cyfranogwyr yng ngoleuni profiadau ac adborth gan staff y rheng flaen.

Argymhelliad 16

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r Canllawiau Gweithredol gyda golwg ar adfywio'r ddogfen. Yn hynny o beth, dylid ystyried cynnwys staff y rheng flaen yn y broses adolygu.

Argymhelliad 17

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu portffolio'r cyfranogwr, eto gan gynnwys staff y rheng flaen yn y broses er mwyn sicrhau defnyddioldeb unrhyw adnoddau sy'n cael eu hadfywio yn y portffolio. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ddatblygu e-bortffolio, a hynny o bosibl gan ymgorffori cwymplenni er mwyn caniatáu ar gyfer casglu data a phroffilio'r cyfranogwyr dros amser[98]. Mae'n bosibl y bydd angen datblygu 'cofnod gweithgarwch' i gyd-fynd â'r e-bortffolios hefyd (er mwyn bodloni gofynion WEFO) a hynny er mwyn caniatáu i'r cyfranogwyr lofnodi i gadarnhau cyfarfodydd ag ymgynghorwyr neu fentoriaid.

6.32 Er gwaethaf arweiniad ac ymdrechion Llywodraeth Cymru a'r DWP, mae CaW wedi cael ei weithredu mewn ffyrdd gwahanol iawn ar draws y clystyrau, ac un o'r sialensiau allweddol i'r astudiaeth hon oedd clustnodi a deall y gwahaniaethau. Er bod byrdwn sylfaenol y rhaglen yn debyg ar y cyfan o un clwstwr i'r llall, mae manylion y modelau a fabwysiadwyd i'w chyflawni'n amrywio, gan adlewyrchu'r gwahaniaethau yn nhrefniadau cyfredol y CG, sut y dehonglwyd y canllawiau, profiad blaenorol staff y rheng flaen, ac yn aml iawn, personoliaethau unigol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd clustnodi effeithiolwydd cymharol dulliau unigol o fynd ati.

[98] Byddai angen i unrhyw adnodd electronig fodloni meini prawf penodol o ran diogelwch yn unol â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd, a byddai angen hefyd iddynt gydymffurfio â gofynion y DWP, y CCA a Llywodraeth Cymru.

### Sgiliau staff CaW

6.33 Roedd hi'n glir o'n gwaith maes bod staff y rheng flaen yn ymroddedig dros ben i CaW, a'u bod yn dod ag amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau perthnasol i'r rhaglen.

6.34 Mae ein harolwg yn awgrymu bod yna dipyn sylweddol o orgyffwrdd yn y sgiliau craidd y mae eu hangen ar y gwahanol gategorïau o staff y rheng flaen, a chadarnhaodd ein gwaith maes bwysigrwydd sgiliau rhyngbersonol, sgiliau cyfathrebu, dealltwriaeth o'r rhwystrau i gleientiaid a gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth lleol mewn perthynas â'r holl rolau sy'n wynebu cleientiaid CaW. Mae sgiliau gweinyddol a threfnu yn greiddiol i rôl y gweithwyr brysbennu hefyd.

6.35 O ran y mentoriaid ieuenctid yn benodol, mae profiad blaenorol o weithio mewn lleoliad gwaith ieuenctid yn amhrisiadwy.

6.36 Mae staff y rheng flaen yn cael lefel resymol o hyfforddiant, ond mae'r cynghorwyr yn cael rhaglen fwy strwythuredig o hyfforddiant na'r gweithwyr brysbennu a'r mentoriaid trwy lwybr y DWP.

6.37 Mae yna angen clir am hyfforddiant mewn perthynas â'r system budd-daliadau lles, ac yn arbennig yng ngoleuni newidiadau diweddar i gymhwyster ar gyfer y budd-daliadau allweddol e.e. ESA a JSA, y Credyd Cynhwysol, Credyd Trethi Plant a budd-daliadau tai ar gyfer pobl ifanc o dan 22 oed.

6.38 Awgrymodd ein gwaith maes hefyd bod angen hyfforddiant ym meysydd:

- ymwybyddiaeth am iechyd meddwl a hunanladdiad
- ymwybyddiaeth am gam-drin cyffuriau ac alcohol
- adnabod arwyddion anhwylderau fel dyslecsia, dyscalcwlia ac ati.

6.39 Roedd yna dystiolaeth hefyd y byddai staff y rheng flaen yn gwerthfawrogi hyfforddiant neu sesiynau briffio am bethau penodol am y rhaglen hefyd, fel sut y dylai'r broses brysbennu weithio, sut y dylid defnyddio dogfennaeth y rhaglen, a sut i farchnata CaW yn lleol ac ati. Gallai materion o'r math hwn gael eu trafod wrth gyhoeddi diwygiadau i'r Canllawiau Gweithredol a phortffolio'r cyfranogwyr.

Argymhelliad 18

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod digwyddiadau cyfredol ar gyfer staff rhanbarthol CaW yn parhau i ddarparu sesiynau briffio ar fudd-daliadau lles ac ar agweddau allweddol ar arferion gweithredol, gan ganolbwyntio ar ddiweddariadau i'r Canllawiau Gweithredol a/neu ddiwygiadau i bortffolio'r cyfranogwyr. Dylid cyflawni sesiynau briffio ar gyfer timau clwstwr cyfan, gan gynnwys rheolwyr y clystyrau, timau cyflawni DWP, swyddogion cyllid, gweithwyr brysbennu, cynghorwyr a mentoriaid fel eu bod nhw'n dod at ei gilydd i gael yr un hyfforddiant.

Argymhelliad 19

Dylai Llywodraeth Cymru lunio neu gomisiynu hyfforddiant ar themâu fel iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth am hunanladdiad, ymwybyddiaeth am gam-drin cyffuriau ac alcohol ac adnabod arwyddion anhwylderau fel dyslecsia, dyscalcwlia ac ati. Lle bo modd, dylid rhoi ystyriaeth i glymu hyfforddiant o'r fath i raglen llwybrau cyfredol y DWP. Eto, dylid darparu hyfforddiant ar gyfer timau clwstwr cyfan er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyson ac er mwyn helpu i feithrin ethos tîm.

**Deilliannau a rhagolygon y rhaglen**

6.40 Er ei bod hi'n rhy gynnar darogan pethau ag unrhyw sicrwydd, mae'r data ar berfformiad cyfredol a'r gorffennol yn awgrymu, er gwaethaf ei gryfderau niferus, y gallai CaW ei chael hi'n anodd cyflawni lefelau'r cysylltiadau a'r deilliannau y cytunwyd arnynt gyda WEFO.

6.41 Wedi dweud hynny, gallai'r cysylltiadau gynyddu, er enghraifft wrth i enw da'r rhaglen dyfu, wrth i dimau CaW fwrw gwreiddiau cadarn ac wrth i'r diwygiadau lles sianelu mwy o bobl i gyfeiriad CaW o bosibl. Ar y llaw arall fodd bynnag, gallai cau Cymunedau'n Gyntaf gael effaith niweidiol ar lif y cleientiaid i mewn i CaW.

6.42 Er gwaethaf niferoedd isel yr ymgysylltiadau hyd yn hyn, mae'r gymhareb o ddeilliannau i ymgysylltiadau wedi bod yn addawol ar draws Blaenoriaethau 1 a 3, sy'n awgrymu, lle bo'r rhaglen yn llwyddo i gysylltu unigolion, bod y cymorth a ddarperir yn eu cynorthwyo i symud tuag at, ac i mewn i gyflogaeth.

Arwydd calonogol yw hwn y gall y rhaglen wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl, a'r sialens, felly, yw cynyddu nifer y bobl y mae CaW yn eu cyrraedd.